

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE	
DYDD LLUN 30 HYDREF 2017 10.00 o'r gloch	MONDAY 30 OCTOBER 2017 10.00 am	
SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGFNI	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/Party of Wales

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS

Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYD A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Medi 2017.

4 **COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 13 - 20)

Cyflwyno, i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017.

5 **BLAENRAGLEN Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 21 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.

6 **CYNLLUN PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2016/17** (Tudalennau 37 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

7 **STRATEGAETH GYFALAF 2018/19** (Tudalennau 83 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **TAI GOFAL YCHWANEGOL, SEIRIOL – YMGYSYLLTU** (Tudalennau 95 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

9 **MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL SEIRIOL – YMGYNGHORIAD ANFFURFIOL** (Tudalennau 117 - 232)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

10 **ADOLYGIAD O BERFFORMIAD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (AGGCC)** (Tudalennau 233 - 248)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

11 **CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DIWYGIEDIG AR GYFER WYLFA NEWYDD (CCA)** (Tudalennau 249 - 254)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

12 **ADRODDIAD BLYNYDDOL – CYFLAWNIADAU YN ERBYN Y STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID** (Tudalennau 255 - 264)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

13 **CAU ALLAN Y WAG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 265 - 266)

Ystyried mabwysiadu'r isod: -

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd”.

14 **TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT – SAFLE LLYNNON** (Tudalennau 267 - 346)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2017

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd) Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr John Griffith, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAGs, Dafydd Rhys Thomas.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Cynorthwyl (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Pennaeth Gwasanaethau Tai Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd (ar gyfer eitem 5) Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Rheolwr Busnes Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Richard Dew
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Carwyn Jones, R. Llewelyn Jones

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Ieuan Williams ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 9 ar yr agenda.

Fe wnaeth y Cynghorydd R. Meirion Jones ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 18 ar yr agenda.

2. MATERION BRYN A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODIYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

3. COFNODION

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2017.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2017, fel cofnod cywir.

4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd i'w mabwysiadu, gofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2017.

Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2017.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Hydref, 2017 tan fis Mai, 2018 i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd ar y newidiadau i'r Flaenraglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol fel a ganlyn –

- **Eitemau sy'n newydd i'r Flaenraglen Waith**

- Eitem 5 – Moderneiddio Ysgolion: Ymgynghoriad Anffurfiol Ardal Seiriol a drefnwyd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 30 Hydref. Bydd adroddiad pellach yn cael ei drefnu i'w gyflwyno ym mis Mawrth, 2018.
- Eitem 7 – Adroddiad Blynyddol: Cyflawniad yn erbyn y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid, a drefnwyd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 30 Hydref, 2017.
- Eitem 17 – Strategaeth Rheoli Asedau: Tai Cyngor a drefnwyd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017.
- Eitem 18 – Cynllun Datblygu Tai Cyngor Caergybi a drefnwyd ar y Rhaglen Waith i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017 *ond bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i'r cyfarfod ar 30 Hydref, 2017 ar gais y gwasanaeth.*
- Eitem 19 – Strategaeth Trechu Tlodi a drefnwyd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd.
- Eitem 22 – Ysgolion gyda llai na 120 o ddisgyblion a drefnwyd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Rhagfyr, 2017.
- Eitem 41 – Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018-21 a drefnwyd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Mawrth, 2018.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd wybod i'r Pwyllgor Gwaith y bydd adroddiadau cynnydd pellach yn cael eu trefnu mewn perthynas ag eitem 13 ar yr agenda heddiw (Archwiliad AGGCC o'r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella); hefyd, oherwydd amseriad y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol dros dro i Lywodraeth Leol yn 2018/19, mae'r sgritwini cyn gwneud penderfyniad ar y cynigion cychwynol ar gyfer y gyllideb ddrafft wedi cael ei ohirio o 17 Hydref (*fel y gwelir ar y Rhaglen Waith*) i 31 Hydref, 2017.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Flaenraglen Waith, wedi ei diweddarau, am y cyfnod Hydref, 2017 i fis Mai, 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.

6. CYNLLUN Y CYNGOR 2017-2022

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn ymgorffori Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2017 i 2022 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol y bydd Cynllun y Cyngor yn darparu'r cyd-destun ar gyfer holl benderfyniadau lefel uchel y Cyngor yn ystod y pum mlynedd nesaf; bydd perfformiad y Cyngor wrth weithredu'r Cynllun a gwireddu'r dyheadau ynddo yn cael ei fonitro'n agos.

Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol mai Cynllun y Cyngor yw dogfen strategol mwyaf arwyddocaol y Cyngor am y cyfnod pum mlynedd sydd i ddod. Mae cynnwys y cynllun wedi bod yn destun ymgynghori trylwyr, manwl a chynhwysfawr gyda phwyslais penodol ar ymgysylltu â dinasyddion Ynys Môn a gwrando ar eu barn o gychwyn y broses; mae oddeutu 900 o ddinasyddion wedi cael y cyfle i roi sylwadau ar y Cynllun drafft. Mae'r ymateb i'r Cynllun wedi bod yn bositif ar y cyfan gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cydweld â nodau eang y Cynllun. Rydym wedi derbyn ymateb arbennig o adeiladol a defnyddiol gan unigolion a grwpiau ar sut y gallai'r Cyngor weithio'n llwyddiannus gyda chymunedau i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Gwasanaeth yn hyderus fod y Cynllun drafft yn adlewyrchiad o ymdrech i gydweithio rhwng y Cyngor; ei bartneriaid a'r cyhoedd er mwyn gwella bywydau dinasyddion Ynys Môn a gwella ffyniant busnesau dros gyfnod y Cynllun.

Nododd a chroesawodd y Pwyllgor Gwaith lwyddiant yr ymarfer ymgynghori wrth gyrraedd 900 o ddinasyddion.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Datblygiadau Mawr at adroddiad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf ar berfformiad llywodraeth leol yn erbyn dangosyddion strategol cenedlaethol sy'n dangos fod Cyngor Sir Ynys Môn yn ail trwy Gymru o ran cynnydd.

Penderfynwyd argymhell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2017 – 2022.

7. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1, 2017/18 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod y perfformiad yn erbyn y dangosyddion y cytunwyd arnynt yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol wedi bod yn gymharol dda, gyda'r mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Fodd bynnag, nodwyd fod tri o'r dangosyddion yn tanberfformio a cheir manylion y rhain yn yr adroddiad ynghyd â'r mesurau lliniaru a gynigiwyd i gywiro'r materion sy'n codi. Mae perfformiad yng nghyswllt cyfraddau salwch y Cyngor yn dangos gwelliant pellach ar y perfformiad am yr un cyfnod yn 2016/17. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cadw golwg ar berfformiad ac mae'n rheoli meysydd penodol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) wrth y Pwyllgor Gwaith fod y perfformiad yn erbyn y dangosydd SCC/O25 (% yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal sydd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a ddigwyddodd yn unol â rheoliadau) sef un o'r tri dangosydd sy'n tanberfformio, yn cael ei ailasesu i sicrhau bod y data yn cael ei gasglu a'i gyfrifo'n gywir fel ei fod yn rhoi darlun cywir o'r perfformiad gwirioneddol. Darperir diweddariad unwaith y bydd y ffigwr wedi'i ddilysu.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth, a nododd hefyd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'r perfformiad yn Chwarter 1 yn ei gyfarfod ar Medi 4ydd. Yn ogystal â'r dangosyddion yr adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol

oedd yn tanberfformio, tynnodd y Pwyllgor Gwaith sylw at y perfformiad yn erbyn y dangosydd 04b o dan Gwasanaeth Cwsmer ar y Cerdyn Sgorio (cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 20 diwrnod – Gwasanaethau Cymdeithasol) gan ddweud bod angen ei fonitro'n agos, am fod y perfformiad yn 53% yn erbyn targed o 80%.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol fel yr amlinellir ym mharagraffau 1.3.1 i 1.3.4 yr adroddiad.**
- **Derbyn y mesurau lliniaru fel yr amlinellir hwy yn yr adroddiad.**

8. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL 2018/19 – 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Cynllun Ariannol Tymor Canol ar gyfer 2018/19 i 2020/21 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yn gosod allan strategaeth gyllideb y Cyngor am y tair blynedd nesaf ac yn gosod allan y tybiaethau a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i'r broses flynyddol o osod y gyllideb. Ar hyn o bryd mae nifer o ffactorau yn ei gwneud yn arbennig o annod rhagweld y dyfodol gydag unrhyw hyder; hefyd, mae'r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi aildrefnu ei phrif ddatganiad cyllideb o fis Mawrth i fis Tachwedd yn golygu na fyddwn yn gwybod beth yw'r gyllideb a gaiff Llywodraeth Cymru tan ar ôl y dyddiad pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad dros dro, sef 10 Hydref, 2017 ar hyn o bryd.

O 2014/15 i 2016/17 mae'r Cyngor wedi gweld gostyngiadau yn y grant mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru fel y gwelir yn Nhabl 1 yr adroddiad. Fe drodd y duedd hon o chwith yn 2017/18 pan dderbyniodd y Cyngor setliad fyryn yn uwch yn nhermau arian parod. Mae hyn yn cynrychioli lleihad cyffredinol yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) o 8.1% rhwng y lefel yn 2013/14 a'r lefel yn 2017/18. Er mwyn lliniaru effaith y golled hon, mae'r Cyngor wedi cynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfradd uwch na chwyddiant dros yr un cyfnod (Tabl 2 yr adroddiad) gan olygu bod y Dreth Gyngor fel canran o gyfanswm cyllid y Cyngor wedi codi i 26.6% erbyn 2017/18. Gan gofio'r ansicrwydd ynglŷn ag economi'r DU, bydd disgwyl i awdurdodau lleol ysgwyddo rhagor o doriadau mewn cyllid, o bosib i'r graddau 3.3% yn 2018/19 a 2.6% yn 2019/20 – gostyngiad yn nhermau ariannol o £5.4m dros y ddwy flynedd mewn AEF.

Yn ychwanegol at hyn, mae llywodraeth leol yn gyffredinol yn wynebu nifer o bwysau cyllidebol; bydd Ynys Môn hefyd yn wynebu ei phwysau cyllidebol unigryw ei hun a bydd angen ymgorffori hynny fel ffactor yn y CATC. Ceir manylion am y rhain yn adran 5 yr adroddiad ac ynghyd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol a Chodiad Cyflog y Sector Cyhoeddus, maent yn cynnwys pwysau mewn gwasanaethau penodol mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Plant sy'n Derbyn Gofal, Moderneiddio Ysgolion, Cynnal a Chadw Priffyrdd ac ariannu'r Cynllun Corfforaethol wrth i'r Cyngor fynd ymlaen i'w weithredu. Mae'r broses gosod y gyllideb hefyd yn edrych ar y chwyddiant a ragamcennir dros nifer o wahanol feysydd gwariant, ac mae hynny'n uwch mewn ambell i faes e.e. ynni. Mae'r rhain wedi eu nodi yn adran 6 yr adroddiad.

Gan gymryd i ystyriaeth yr holl bwysau ar y gyllideb y gwyddom amdanynt, a'r rhagdybiaethau o ran chwyddiant a ffactorau eraill, mae'n bosibl pennu cyllideb ddisymud am y cyfnod 2018/19 i 2020/21. Y gyllideb ddisymud yw'r costau diwygiedig o barhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel ac yn yr un modd ag y cawsant eu darparu yn 2017/18.

Mae'r gyllideb ddisymud a amcangyfrifir ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf i'w gweld yn Nhabl 5 yr adroddiad.

Yn wyneb y bwlch cyllido rhwng y gyllideb ddisymud a ragamcennir (Tabl 6) a'r amcangyfrif o'r cyllid sydd ar gael (Tabl 7), rhagwelir y bydd angen arbedion o thua £8.68m dros y 3 blynedd o gyllidebau gwasanaethau, i roi cyfanswm o £106.7m (cyllideb 2017/18). Mae hyn gyfwerth ag arbedion o 8.1% dros 3 blynedd. Mae'n rhaid diolch i staff y Cyngor sydd hyd yma wedi ceisio adnabod a gwireddu arbedion yn flynyddol. Yn dilyn adolygiad o gyllidebau gwasanaethau a'r Polisi MRP mae cyfanswm yr arbedion posib a adnabuwyd hyd yma yn tua £4.7m sydd dal tua £4m yn is na'r arbedion yr amcangyfrifwyd sydd eu hangen.

I gloi, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen yn y dyfodol, y bydd raid i'r Cyngor wneud penderfyniadau mwy anodd, gan gynnwys ystyried stopio darparu gwasanaethau anstatudol, cau cyfleusterau a chynyddu'r cyfraniad a wneir gan drigolion Ynys Môn at y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y daw darlun mwy clir i'r golwg unwaith y cyhoeddir y setliad; fodd bynnag, mae'r CATC yn gosod y cyd-destun ehangach ar adeg pan fydd raid gwneud nifer o benderfyniadau anodd er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y canlynol –

- At ddibenion y CATC, caniatwyd ar gyfer cynnydd tybiedig o 4% yn y Dreth Gyngor ym mhob un o'r 3 blynedd. O ystyried y pwysau aruthrol ar wasanaethau a dymuniad y Cyngor i amddiffyn pobl fregus a chynnal ansawdd gwasanaethau, efallai y bydd rhaid ystyried ymgynghori ar gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Efallai y daw i'r amlwg ar ôl gwneud yr holl gyfrifiadau ynghylch y gyllideb, na fydd angen cynnydd ar y lefel hon, ond byddai'n ddoeth cynllunio ar sail y sefyllfa waethaf un ac wedyn os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, gallu cynnig cynnydd is yn y Dreth Gyngor.
- Bod angen i'r cyhoedd fod yn llwyr ymwybodol fod y Cyngor fwy neu lai wedi gwneud popeth y gall o fewn y trywydd hanesyddol o gyflawni arbedion trwy leihau cyllidebau a oedd heb eu defnyddio a/neu heb eu gwario, a bod swyddogaethau ystafell gefn hefyd wedi cael eu rhesymoli cymaint â phosib. Prif nod y Cyngor erioed fu gwarchod y gwasanaethau craidd rheng flaen rhag y gwaethaf o'r toriadau ariannol; trwy weithredu arbedion nid yw'n dewis torri gwasanaethau, ond mae yn ceisio gwneud y gorau y gall o fewn y setliad ariannol a roddir iddo.
- Ei bod yn hanfodol fod yr ymarfer ymgynghori ar y gyllideb yn cyrraedd cynifer o drigolion Ynys Môn â phosib ac y cânt eu hannog i roi eu barn ar feysydd y credant y dylid eu blaenoriaethu.
- Bod adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw 2017/18 ar gyfer Chwarter 1 yn rhagamcanu bwlch ariannol ar ddiwedd y flwyddyn o £2.119m. Petai hyn yn dod yn wir, yna yn fwy na thebyg byddai'n rhaid mynd i gronfeydd wrth gefn y Cyngor i dalu am y gwahaniaeth gan felly ostwng lefel y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol, a gwneud lefel uwch o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19 yn opsiwn mwy tebygol.

Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canol 2018/19 i 2020/21 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed.

9. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2017/18

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor am y chwarter

cyntaf ym flwyddyn ariannol 2017/18 ynghyd â chrynodeb o'r sefyllfa a ragamcennir am y flwyddyn gyfan.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid, yn seiliedig ar y wybodaeth hyd yma, mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcennir ar gyfer 2017/18 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a Chronfa'r Dreth Gyngor yw gorwariant o £2.119m sy'n 1.68% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2017/18. Roedd y sefyllfa ariannol dros dro ar gyfer 2016/17 wedi arwain at falansau cyffredinol o £8.697m ar ddechrau'r flwyddyn (yn amodol ar gael eu harchwilio). Fodd bynnag, mae perygl y bydd angen defnyddio £2m o'r swm o £8.697m i dalu hawliadau Tâl Cyfartal – efallai y bydd y Cyngor yn gallu cyfalafu'r taliadau hyn ond mae hynny'n ddibynnol ar gyfarwyddyd cyfalafu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion yr amrywiadau sylweddol yng nghyllidebau gwasanaethau ond nid yw'n cynnwys effaith gwaith cynnal a chadw yn ystod y gaeaf ynghyd ag effaith y contract newydd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd sy'n debygol o gostio mwy. Mae risg felly y gall y gorwariant fod yn uwch na £2.19m. Y pwysau mwyaf ar gyllidebau yw cost Rhiantu Corfforaethol, ac mae disgwyl i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd orwario £2.106m. Os daw hyn oll yn wir, bydd y gronfa wrth gefn gyffredinol yn cael ei rhoi dan gryn bwysau. Dewis arall yn hytrach nag ariannu'r gorwariant o'r gronfa wrth gefn fyddai adolygu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, sy'n werth £13.357m. Byddai hynny'n fodd o adnabod unrhyw gronfeydd wrth gefn nad oes eu hangen mwyach neu rai nad ydynt yn cwrdd â blaenoriaethau'r Cyngor o ystyried y sefyllfa ariannol anodd y mae'r Cyngor yn debygol o fod ynddi ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, yn achos rhai cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, ni ellir ond eu defnyddio at bwrpas penodol e.e. y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u datganoli i'r ysgolion neu gronfeydd wrth gefn a ariennir gan grant.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod Chwarter 1 yn gynnar yn y flwyddyn ariannol a gall llawer o bethau ddigwydd yn y cyfnod rhwng nawr a diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amlygu'r risg y bydd gwasanaethau, rhai bach a mawr, dan bwysau i ddarparu gwasanaethau o fewn eu cyllidebau. Mae unrhyw gapasiti sbâr o fewn cyllidebau gwasanaethau wedi hen fynd ar ôl blynyddoedd lawer o arbedion effeithlonrwydd, a golyga hynny bod unrhyw wariant dirybudd yn ystod y flwyddyn yn debygol o beri gwasanaethau i orwario.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y sefyllfa a nododd hefyd y gallai rhai meysydd e.e. y gyllideb ar gyfer cludiant ysgol/tacsis elwa o gael eu craffu'n agosach a'u rheoli'n fwy llym. Er i'r Pwyllgor Gwaith nodi fod costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn gymharol uchel ar gyfer y chwarter, roedd hefyd yn cydnabod bod rhaid cael staff llanw o Asiantaeth ar brydiau, er enghraifft pan fo trosiant staff neu absenoldebau, ac y defnyddir ymgynghorwyr ar brydiau oherwydd eu harbenigedd penodol ac y cânt eu hariannu'n aml trwy ffynonellau allanol/grantiau ar gyfer y prosiectau maent ynghlwm wrthynt. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y bydd y Panel Cyllid Sgriwtini yn craffu'r modd y caiff cyllidebau eu monitro o dro i dro, a bydd y Panel yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan amlygu unrhyw faterion o bryder iddo.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellwyd yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma**
- **Cytuno i adolygu'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi er mwyn nodi'r rhai nad ydynt yn flaenoriaeth mwyach ac y gellir eu defnyddio i helpu i ariannu'r gorwariant sylweddol a ragamcennir.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18.**
- **Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2017/18.**

- **Dirprwyo rhyddhau'r Premiwm Dreth Gyngor i'r Swyddog Adran 151 yn seiliedig ar y cyfrifiadau bod y Premiymau wedi eu talu.**

10. 2017/18 ADRODDIAD MONITRO'R CRT CHWARTER 1

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn egluro'r sefyllfa yng nghyswllt perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter cyntaf 2017/18.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor yn rheoli ei stoc tai a garejys trwy'r CRT. Mae'r gyllideb CRT yn cynnwys cyllid at gyfer trwsio a chynnal a chadw y stoc gyfredol ynghyd â chyllid i ddatblygu rhaglen o dai cyngor newydd ar yr Ynys. Mae'r CRT wedi'i neilltuo'n benodol ac ni ellir trosglwyddo ei harian wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol. Er bod yr adroddiad yn nodi rhai meysydd o orwario ar y CRT, disgwylir y bydd y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn yn cyd-fynd â'r gyllideb. Mae'r CRT mewn sefyllfa iach.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y CRT, trwy ofyniad statudol, yn gwbl ar wahân i weddill cyfrifon y Cyngor ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall oni bai am gynnal a chadw a datblygu'r stoc tai y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani.

Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a amlinellwyd yng nghyswllt perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2017/18.

11. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2017/18

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn egluro perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf 2017/18.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid, fel y gwelir yn Nhabl 4.1 yr adroddiad, rhagwelir y bydd tanwariant o £10.317m ar y Rhaglen Gyfalaf yn 2017/18 ac mae posibilrwydd y bydd hwn yn llithro i Raglen Gyfalaf 2018/19 hefyd. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2018/19 a bydd yn ffactor a gaiff ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Y prif brosiectau lle rhagwelir tanwariant yw Isadeiledd Strategol Caergybi, Isadeiledd Strategol Llangefni a'r Briffordd Newydd i Wylfa Newydd, a cheir manylion y prosiectau hyn yn Atodiad B. Mae cyllideb o £0.250m wedi'i chynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 ar gyfer adnewyddu Cartref Gofal Garreglwyd. Disgwylir bellach y bydd y costau tybiedig yn cynyddu £0.041m ac mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried a ddylid cymeradwyo'r cyllid ychwanegol hwn ai peidio. Mae'r cynnydd yn y costau o ganlyniad i orfod rhannu'n cynllun i ddwy ran sydd wedi peri costau ychwanegol i'r cynllun. Petai'r gyllideb ychwanegol yn cael ei chymeradwyo fe gaiff ei hariannu o'r Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r cynnydd gyda gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2017/18 yn ystod chwarter 1.**
- **Cymeradwyo cyllid cyfalaf ychwanegol o £0.041m i ariannu costau ychwanegol yng nghartref gofal Garreglwyd.**

12. ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2016/17

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Adolygiad ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod rhaid i'r Cyngor, yn ôl rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a'r ystyriaethau sy'n ymwneud â hynny. Mae'r amgylchedd buddsoddi heriol yn y blynyddoedd cynt wedi parhau ym mlwyddyn ariannol 2016/17 h.y. dychweliadau isel ar fuddsoddiad.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod gofyn i'r Cyngor adrodd ar ei weithgareddau rheoli trysorlys a chadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Dywedodd y Swyddog nad oedd yr Archwilwyr Allanol a fydd yn adrodd yn ffurfiol ar eu harchwiliad o gyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2016/17 i'r Pwyllgor Archwilio yn hwyrach yn yr wythnos wedi gwneud unrhyw addasiadau mawr i'r ffigurau canlyniad rheoli trysorlys fel rhan o'u harchwiliad.

Penderfynwyd –

- **Nodi y bydd y ffigurau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2016/17 wedi cael ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2016/17 sydd yn yr adroddiad hwn.**
- **Anfon yr adroddiad ymlaen i gyfarfod nesaf y Cyngor Sir heb unrhyw sylwadau pellach.**

13. ADOLYGIAD AGGCC O WASANAETHAU PLANT YNYS MÔN – CYNLLUN GWELLA

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd yn erbyn nifer o'r themâu yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth; mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailstrwythuro i gyflwyno Timau Ymarfer sy'n llai o faint ac mae pobl wedi'u penodi i'r swyddi Arweinwyr Ymarfer newydd, ac maent wedi cychwyn yn eu swyddi ers dechrau'r mis. Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn monitro ac yn craffu cynnydd yn agos.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) y bydd y strwythur newydd a'r penodiadau ychwanegol a wnaed fel rhan o'r broses ailstrwythuro yn helpu i ddod â sefydlogrwydd i'r gwasanaeth ar lefel rheolwyr, ac y bydd yn arwain at well cysondeb yn ymarfer y Gweithiwy'r Cymdeithasol gan felly eu galluogi i fwrw ymlaen â'r gwelliannau sydd eu hangen. Mae cryn waith wedi'i wneud gyda phartneriaid y Gwasanaeth hefyd, a hynny oddi mewn i'r Cyngor a thu allan iddo. Disgwylir felly y bydd yr holl gamau a gymerwyd hyd yma yn creu gwelliannau sylweddol yn fuan iawn.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y cynnydd a wnaed ond nododd hefyd fod yr adroddiad yn cydnabod bod y perfformiad dal yn anghyson, yn ôl y drefn sicrwydd ansawdd. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad pam fod yr anghysondeb yn parhau rai misoedd ar ôl derbyn yr adroddiad wedi arolwg AGGCC, a holodd a fydd y fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn

arwain at berfformiad mwy cyson. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) bod enghreifftiau o ymarfer da iawn mewn rhai meysydd yn y gwasanaeth ond nad yw'r rhain yn gyffredin trwy'r gwasanaeth cyfan. Bydd cyflwyno'r timau ymarfer llai a gweithredu'r Polisi Goruchwyliaeth yn gwneud gwahaniaeth o ran hwyluso goruchwyllo a galluogi Gweithwyr Cymdeithasol i ddod yn fwy cyfarwydd â'u llwythi achosion.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaethau Plant a chyflymder y broses mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed gyda Chynllun Gwella y Gwasanaeth.

14. POLISI GOSOD SENSITIF

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Polisi Gosod Sensitif ar gyfer Tai Cyngor.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Tai fod y Polisi Gosod Sensitif yn ffordd ragweithiol o osod eiddo'r Cyngor a bydd yn berthnasol i ardaloedd penodol ar yr Ynys a bydd yn eistedd ochr yn ochr â Pholisi Gosod Cyffredin y Cyngor a Strategaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Cyngor. Ei fwriad yw mynd i'r afael yn gadarn â phroblemau sy'n bodoli ar stadau penodol ar yr Ynys e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol a all effeithio ar ddelwedd rhai ardaloedd am gyfnodau penodol. Bydd modd gweithredu'r polisi ar unrhyw stad Tai Cyngor ar yr Ynys ar unrhyw adeg ac fe restrir y meini prawf ar gyfer asesu ymgeiswyr i sicrhau y gallant ymgeisio am y cynlluniau hyn.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r Polisi Gosod Sensitif am gyfnod o ddwy flynedd a bod y Bwrdd Gwasanaethau Tai yn asesu effaith y polisi o fewn blwyddyn.**
- **Cymeradwyo mai Pennaeth y Gwasanaethau Tai fydd yn gyfrifol am benderfynu gweithredu'r polisi ar stadau penodol, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio.**

15. FFRAMWAITH ETIFEDDIAETH PROSIECTAU MAWR

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ymgorffori Gweledigaeth ar gyfer 2025 – Fframwaith Thematig i Wireddu Dyheadau Etifeddiaeth CSYM..

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Datblygiadau Mawr fod y Fframwaith wedi cael ei baratoi i ddangos i ddatblygwyr yr angen i gydnabod, ymgorffori ac integreiddio buddion etifeddiaeth o'r dechrau yn eu gweithgareddau datblygu prosiect. Mae'r fframwaith yn cynnig nifer o weithgareddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol (sy'n gysylltiedig â sgôp posib y buddion a'r effeithiau ar etifeddiaeth a fydd yn deillio o'r prosiectau mawr arfaethedig) a chreda'r Cyngor Sir y gallai'r rhain wella llesiant ac ansawdd bywyd yr Ynys erbyn 2025.

Penderfynwyd mabwysiadu'n ffurfiol y Fframwaith Etifeddiaeth drafft (Gweledigaeth ar gyfer 2025 – fframwaith thematig i wireddu dyheadau etifeddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn) fel y cafodd ei gyflwyno.

16. ADRODDIAD CYNNYDD AR FID TWF ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Prif Weithredwr yn rhoi diweddariad ar ddatblygu Bid Twf ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r Bid Twf yn gysylltiedig â, ac yn deillio o'r papur strategol Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn ym mis Chwefror, 2017 a chan Bwyllgorau Gwaith y pum cyngor

arall yn y rhanbarth a sefydliadau partner eraill ar yr un pryd. Mae'r adroddiad yn nodi'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â datblygu Bid Twf, y model llywodraethu a ffafrir, a'r goblygiadau i adnoddau.

Amlinellodd y Prif Weithredwr y pedwar cam yn natblygiad y Fid Bargen Twf; mae'r trefniadau llywodraethu eto i gael eu trafod yn fanwl ond model cyd-bwyllgor statudol sy'n cael ei argymhell fel y model llywodraethu a ffafrir mewn egwyddor. Mae datblygiad Bid Gogledd Cymru wedi cyrraedd yn bell yn yr ail gam ac anelir i ddod i gytundeb Penawdau Telerau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Gofynnir i bob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru gymeradwyo cyfraniad o £50k o'u cyllidebau ar gyfer 2017/18 tuag at ddatblygu'r Fid.

Penderfynwyd –

- **Nodi a chefnogi'r cynnydd gyda datblygu Bid Twf cystadleuol ar gyfer y rhanbarth.**
- **Cefnogi mewn egwyddor, y model llywodraethu a ffafrir, sef cyd-bwyllgor statudol, ar gyfer datblygiad pellach gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl a argymhellir, wedi ei gefnogi gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod, i ddilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.**
- **Awdurdodi'r Arweinydd i weithredu fel aelod o Gyd-bwyllgor Cysgodol yn y cyfamser.**
- **Rhoi awdurdod i'r Arweinydd, fel un o Arweinwyr y chwe chynghor a gynrychiolir ar y Cyd-bwyllgor Cysgodol, i ddechrau trafodaethau cynnar ar y cyd â Llywodraethau ynglŷn â maint a chynnwys amlinellol y Fid Twf, gan nodi na fydd unrhyw ymrwymadau economaidd nac o fath arall yn cael eu cytuno yng nghamau cyntaf y trafodaethau.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr awdurdodi cyfraniad ariannol cychwynnol o hyd at £50,000 allan o wariant 2017/18 ar gyfer datblygu'r Fid Twf yn fanwl.**

17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 18 oherwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y cafodd ei gyflwyno.

18. SAFLEOEDD I SIPSIWN A THEITHWYR

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn rhoi diweddariad ar ddatblygu safleoedd ar Ynys Môn ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd hyd yma ar ddatblygu cynllun dyluniad ar gyfer man aros dros dro yn Star a safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn ynghyd â'r amcangyfrifon cost ar gyfer adeiladu'r safleoedd hyn. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gwaith fod y dogfennau cynllunio ar gyfer y ddau safle wedi cael eu paratoi a'u bod fwy neu lai'n gyflawn ac yn barod i'w cyflwyno.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Tai fod yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer y ddau safle, a bod hynny'n cynrychioli'r cam nesaf ymlaen mewn proses sydd wedi cynnwys dethol safleoedd, ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ddethol y safleoedd, a gwneud asesiadau ar sail dyluniad. Mae'n ofynnol i'r Cyngor trwy gyfraith ddarparu safleoedd i sipsiwn a theithwyr pan fod angen am hynny wedi'i nodi.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r costau cyllideb sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect ac y caiff y modd o gyllido'r costau hyn ei ystyried yn ddiweddarach unwaith y derbynnir caniatâd cynllunio ac unwaith y bydd cyllid grant wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru.**
- **Awdurdodi Swyddogion i fynd ymlaen i'r cam nesaf h.y. cyflwyno ceisiadau cynllunio manwl yng nghyswllt man aros dros dro yn Star a safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.**

(Ni wnaeth y Cynghorydd R. Meirion Jones bleidleisio ar y mater)

19. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 20 oherwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y cafodd ei gyflwyno.

20. CONTRACT YSWIRIANT

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mewn perthynas â chontract yswiriant. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gamau gweithredu i allu ymateb i faterion sy'n codi yng nghyswllt y contract yswiriant.

Penderfynwyd cymeradwyo'r camau gweithredu a argymhellwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fel y nodir yn yr adroddiad.

21. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro fod yr adroddiad ar yr eitem ganlynol yn cael ei ystyried yn adroddiad eithriedig am ei fod yn cynnwys cyngor cyfreithiol. Mewn achos felly, nid yw'r Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol. Fodd bynnag, gallai datgelu gwybodaeth o'r adroddiad hefyd o bosib ddatgelu pwy yw unigolyn, sydd felly'n gwneud y mater yn un eithriedig o dan Baragraff 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Penderfynwyd o dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 22 oherwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y cafodd ei gyflwyno.

22. DILEU DYLEDION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mewn perthynas â chynnyg i ddileu dyled benodol. Roedd yr adroddiad yn gosod y cyd-destun a'r amgylchiadau ynghylch sut oedd y ddyled wedi codi, a cheisiai gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ddileu'r ddyled am y rhesymau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Cynghorydd R. Meirion Jones am eglurhad p'un a ddylai ddatgan diddordeb am ei fod wedi bod yn gyflogedig yn Adran Gyfreithiol y Cyngor o'r blaen.

Cynghorydd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro, gan nad oedd yr Aelod wedi bod yn ymwneud â'r mater hwn ar adeg ei gyflogaeth, nad oedd raid iddo ddatgan diddordeb.

Penderfynwyd –

- Bwrw ymlaen yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad.
- Adolygu prosesau a gweithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn, a thrwy'r Aelod Portffolio Cyllid, gyflwyno adroddiad cynnydd ar weithredu cynllun gweithredu dilynol i'r Pwyllgor Gwaith a Sgrwtini.

(Ni wnaeth y Cynghorydd R. Meirion Jones gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar y mater)

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws
Cadeirydd**

DRAFT

PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2017

PRESENNOL: Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg)
Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai)
Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)
Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)
Liz Fletcher (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Orllewinol BIPBC)
Douglas Watson (Cadeirydd Cymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn)
Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol)
Llyr Bryn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro)
Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu)
Fôn Roberts (Rheolwr Gwasanaethau Plant Dros Dro)
Rona Jones (Swyddog Adolygu Annibynnol)
Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)
Dawn Owen (Rheolwr Tîm Lleoli Plant)
Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg PDG)
Llinos Edwards (Nyrs PDG - BIPBC)
Margaret Peters (Rheolwr Integreiddio ac Ymgysylltu)
Helen Bilsborrow (Rheolwr Tîm PDG Dros Dro)
Kevin Thomas (Arweinydd Ymarfer)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION CYFARFOD 10 GORFFENNAF, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2017 a'u cadarnhau fel rhai cywir.

3 MATERION YN CODI

- **Rôl y Panel Rhiant Corfforaethol**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant Dros Dro adroddiad a oedd yn nodi cynigion ar gyfer adolygu strwythur a phwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol gyda'r bwriad o wella ac ehangu rôl y Panel fel ei fod -

- yn cwmpasu'r boblogaeth ehangach o blant a phobl ifanc sydd mewn perygl, gan gynnwys y rhai sy'n destun gofal a chymorth, amddiffyn plant ac sydd ar drothwy gofal;
- yn hyrwyddo cyflawni amcanion rhianta corfforaethol fel cyfrifoldeb i'r Cyngor cyfan sy'n cynnwys gwasanaethau heblaw'r Gwasanaethau Plant yn ogystal â phartneriaid allanol y Cyngor.
- Symud i ffwrdd rhag canolbwyntio ar wybodaeth feintiol yn unig ynghylch perfformiad a thrwy hynny ganiatáu amser a chyfle i ystyried pa mor dda y mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod yn ei wneud a sut mae ffactorau ansoddol yn dylanwadu ar y canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant Dros Dro fod yr adolygiad o rôl y Panel yn codi o'r trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol lle roedd Aelodau o'r farn bod y Panel yn ymwneud yn rhy aml â rhannu data nad oedd bob amser yn eu helpu i gael gwerthfawrogiad clir o'r cynnydd a wneir gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu beth mae'r plant a'r bobl ifanc hynny yn ei feddwl am y gofal a gânt, a sut y gallai'r safbwyntiau hynny gyfrannu at y ddarpariaeth gynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol. Dywedodd y Swyddog fod y Panel Rhiant Corfforaethol yn anelu at sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflawni ei ddyletswyddau fel rhiant corfforaethol ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal y mae'n gyfrifol amdanynt fel y gallant gyflawni eu potensial a sicrhau trosiant llwyddiannus i fod yn oedolion. Mae'r Panel yn gwneud hyn trwy sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o ansawdd da ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r elfennau allweddol o rôl y Panel wedi'u rhestru yn yr adroddiad.

Er mwyn i'r Panel fedru cyflawni elfennau allweddol ei rôl yn llawn, cynigir y camau canlynol -

- Datblygu Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal am gyfnod o dair blynedd o 2018 i 2020. Byddai hyn yn darparu fframwaith i sicrhau bod dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod fel rhiant corfforaethol yn cael eu cyflawni.
- Datblygu strategaeth sy'n adlewyrchu ymagwedd integredig system gyfan tuag at gefnogi plant a theuluoedd. Y bwriad yw dwyn ynghyd yr holl ystod o weithgareddau ar draws y Cyngor ac yn allanol yn ogystal â threfniadau partneriaethau plant ar bob cam o'r daith ofal, gyda ffocws clir ar gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd ble bynnag y mae'n ddiogel i wneud hynny, ac i leihau'r angen i blant ddod i ofal.
- Adolygu ac aildrefnu agenda busnes y Panel fel ei fod yn derbyn gwybodaeth ystadegol ac adroddiadau data bob yn ail chwarter gyda hynny'n rhyddhau amser i drafod pob maes yn fwy manwl gyda chefnogaeth gwybodaeth sydd yn fwy ansoddol.
- Cyflwyno meysydd newydd i agenda'r Panel megis mewnbwn gan blant mewn gofal; adroddiadau gan y Tîm Teuluoedd Gwydn, astudiaethau achos sy'n dangos canlyniadau positif a data ynghylch plant ar goll er mwyn helpu aelodau'r Panel i gael dealltwriaeth fwy cynhwysol a chyflawn o'r ystod o faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt allu herio'n well a chefnogi gwasanaethau i gyflawni canlyniadau gwell. Gallai meysydd penodol eraill megis cyfranogiad a chyfleoedd gwaith a chyflogaeth hefyd ymddangos o bryd i'w gilydd ar yr agenda.
- I ehangu aelodaeth y Panel i gynnwys cynrychiolaeth o asiantaethau a sectorau partner eraill megis yr Heddlu a busnesau lleol.

- Gweithredu cynllun gweithredu i wireddu gweledigaeth newydd y Panel Rhiant Corfforaethol i gynnwys y tasgau canlynol -

- Datblygu Strategaeth Plant a Phlant sy'n Derbyng Gofal a Gadawyr Gofal erbyn diwedd 2017

- Datblygu Cyngor Plant mewn Gofal erbyn diwedd 2017
- Datblygu Addewid Plant mewn Gofal erbyn diwedd 2017
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal neu sydd mewn gofal; holl Aelodau Etholedig y Cyngor; holl adrannau'r Cyngor; busnesau lleol ac asiantaethau partner erbyn mis Mawrth, 2018.

- Ail-drefnu agenda'r Panel erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr, 2017.

- Ail-lansio gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Rhianta Corfforaethol erbyn Mawrth, 2018.

Ystyriodd y Panel y cynigion a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Roedd consensws ymysg y Swyddogion ar y Panel bod newid y ffordd y mae'r Panel yn gweithio yn y modd a gynigiwyd yn cael ei groesawu mewn egwyddor yn seiliedig ar y farn y dylai'r Panel fod yn rhoi mwy o sylw i'r modd y mae'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc gan yr Awdurdod yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell ar eu cyfer a'u galluogi i lwyddo yn eu bywydau ar ôl gadael gofal. Nododd y Panel nad oes ganddo fecanwaith ar hyn o bryd ar gyfer gwerthuso'n ddigonol y dimensiwn hwn o rianta corfforaethol. Cadarnhaodd yr Aelodau Etholedig newydd ar y Panel nad oeddent yn gweld unrhyw resymau pam na ddylid gweithredu'r newidiadau i'r Panel yn y modd a gynigiwyd yn enwedig gan eu bod wedi'u hanelu at wella gallu'r Panel Rhiant Corfforaethol i gynnal trosolwg o gynnydd y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer.

- Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch a fyddai gweithredu'r adolygiad rhianta corfforaethol yn tynnu sylw oddi ar y ffocws ar y Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Hysbyswyd y Panel bod adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei rôl rhianta corfforaethol yn waith y mae angen ei wneud ac ni ragwelir y bydd yn effeithio ar y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud o ran y Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant; yn wir, gall gyfrannu ato drwy atgoffa a darparu tystiolaeth i'r Rheoleiddiwr bod ffocws y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ar wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a sicrhau'r canlyniadau gorau ar eu cyfer.

- Nododd y Panel, er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer rhianta corfforaethol, bod angen i holl wasanaethau'r Cyngor ynghyd ag asiantaethau partner gyfrannu'n weithredol at ei ddatblygiad a'i roi ar waith. Roedd y Panel yn cydnabod y byddai dwyn y Cyngor yn ehangach i mewn i hyn yn debygol o fod yn heriol ac y byddai'n cymryd amser i fynd i'r afael â'r her honno. Hysbyswyd y Panel y byddai sefydlu grŵp ac arno gynrychiolaeth o bob gwasanaeth yn ddefnyddiol wrth ddatblygu a mynd â'r strategaeth yn ei blaen er mwyn sicrhau ei bod yn gyd-gynhyrchiad ac nid yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaethau Plant yn unig. Awgrymwyd mai'r Grŵp Penaethiaid oedd y fforwm lle y gellid tynnu sylw'r Penaethiaid Gwasanaeth at hyn a sicrhau eu bod yn prynu i mewn i'r strategaeth.

- Yn yr un modd, nododd y Panel fod angen sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ond roedd yn ymwybodol y dylid gwneud hyn mewn modd sensitif sy'n annog unigolion i leisio eu barn ac i ddweud beth y maent yn ei ddisgwyl gan yr awdurdod fel rhiant corfforaethol. Nododd y Panel nad oedd hyd yma, wedi cael digon o gyfleoedd i gyfarfod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a gwrandao ar eu barn. Hysbyswyd y Panel gan yr Arweinydd bod grŵp cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cael ei

sefydlu trwy Gyngor Ieuenctid Llais Ni sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor - felly nid yw plant a phobl ifanc heb lwyfan i leisio eu barn.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ofalus, cytunodd y Panel i gefnogi'r newidiadau a gynigiwyd mewn egwyddor ynghyd â'r Cynllun Gweithredu, gan gydnabod y gallai'r amserlen ar gyfer ei weithredu lithro oherwydd yr angen i gynnal trafodaethau eang er mwyn sicrhau cytundeb ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn ogystal ag asiantaethau partner.

CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIR: Y mater i'w gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp Penaethiaid.

Y byddwn, ar y cyd â phartneriaid, yn datblygu ac yn sefydlu dau gynllun tai gofal ychwanegol yng ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio am gynllun tai gofal ychwanegol arall yn ne'r Ynys ar gyfer pobl hŷn sy'n methu aros yn eu cartrefi	<ul style="list-style-type: none"> Gwnaed cynnydd da gydag Adeilad Hafan Cefni sydd bellach i'w agor ym mis Mehefin 2018 Bwriedir ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch datblygu yn Ne'r Ynys ar gyfer Tachwedd 2018 gyda'r bwriad o symud ymlaen yn gynnar yn 2019 Nid yw'r cynnydd wedi bod fel y disgwyliwyd yng ngogledd yr Ynys 	
Gwella'r ystod ac argaeledd o wasanaethau yn y gymuned i bobl hŷn fel y gallant gadw eu hannibyniaeth gartref / lleihau'r risg o orfod mynd i'r ysbyty a'r ddibyniaeth a'r angen am gartrefi gofal preswyl	<ul style="list-style-type: none"> Datblygwyd nifer o ganolfannau cymunedol ar draws yr ynys gyda chefnogaeth gan gronfeydd gofal Integredig Mae Cyswllt Mon wedi'i sefydlu'n dda fel man cyswllt ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned Mae Pwynt Mynediad Unigol (SPOA) yn parhau i fod yn fodel sefydledig ar gyfer mynediad symlach i wasanaethau i ddefnyddwyr Sefydlwyd mynediad i feddygon teulu trwy gyfeirio atgyfeiriad ar-lein yn 2016/17. Cyflawnwyd gweithio 7 niwrnod ar gyfer Tîm Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol y Cyngor, ochr yn ochr â gwasanaeth nyrsio ardal sy'n darparu cymorth i osgoi derbyniadau ar benwythnosau. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblheir manyleb tendr gofal cartref a chaiff ei basio ar gyfer ymarfer tendro yn ystod Gwanwyn / Haf 2018 	
Ailddatblygu ein gwasanaeth ailalluogi i gefnogi a helpu pobl i wella a chael eu hannibyniaeth yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch	<ul style="list-style-type: none"> • Cryfhawyd model gofal cartref yr Awdurdod Lleol gyda gofal 24 awr ar gael mewn tair ardal ar draws Ynys Môn • Canolbwyntwyd ar brosiect gofal sengl sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod unigolion sy'n gofyn am ofal parhaus yn gallu cael cymorth gan un gofalwr ac offer arbenigol lle bo hynny'n bosibl 	
Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr, er mwyn cydlynu darpariaeth y gwasanaethau'n well	<ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd ar fodel gwell ar gyfer gofal Dementia yn Garreglwyd, sydd i'w agor yn Hydref 2017 • Cytundeb gofal cartref a gomisiynir ar y cyd i'w dendro mewn partneriaeth â BIPBC yn Haf 2017. • Timau amlddisgyblaeth yn eu lle, gyda modelau cydweithio yn cael eu cryfhau 	
<p>Nid yw'r Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a gasglwyd ar gyfer meincnodi blwyddyn ar flwyddyn dros y 4 blynedd ddiwethaf yn cael eu casglu mwyach ar sail Cymru gyfan.</p>		

Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae'r Cyngor yn gweithio i ddod â chymunedau lleol, mentrau cymdeithasol, busnesau a'r sector cyhoeddus at ei gilydd i gytuno a rhoi sylw i flaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni feddwl yn greadigol, cyfuno adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi yn hollbwysig i ddarparu sylfaen gadarn er mwyn gwella ansawdd bywyd. Er y cydnabyddir mai'r sector preifat yw'r prif yrrwr economaidd a chrëwr cyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl o ran sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall busnesau newydd sefydlu eu hunain a ffynnu.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter a ddynodwyd yn fwy diweddar yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Fe ddwedem y byddem yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, yn gwella isadeiledd ac yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, fe wnaethom ddatgan y byddem hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys. Nid oes unrhyw Ddangosyddion Perfformiad yn cael eu defnyddio i feincnodi gweithgareddau datblygu economaidd yng Nghymru.

Nid oes dangosyddion perfformiad i feincnodi cynnydd datblygu economaidd yng Nghymru

Sut gwnaethom ni hyn yn 2016/17?		
Fe wnaeth Cyngor Ynys Môn addo	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni	CAMG
Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau pa mor gystadleuol yw economi'r ynys drwy wella isadeiledd, argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi creu 35.5 o swyddi, yn ogystal â diogelu 113 o swyddi a chefnogi 33 o fusnesau trwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi (CFC) • Cyflwynwyd 10 o geisiadau am gyllid i gyflawni prosiectau gwasanaeth sy'n flaenoriaeth • 105 wedi derbyn cymorth, arweiniad neu gyngor busnes • Cymeradwywyd 19 o astudiaethau a 21 o brosiectau peilot trwy'r rhaglen waith LEADER • 31 o ymholiadau ynghylch safleoedd ac eiddo yn ystod y flwyddyn • Mae gwaith cydweithio rhanbarthol yn mynd rhagddo gydag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru trwy sefydliad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) 	
Cefnogi'r economi ymwelwyr trwy weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau unigryw Ynys Môn trwy ddefnyddio ein cynllun rheoli cyrchfan	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwerth Twristiaeth i Ynys Môn wedi cynyddu o £256M yn 2013 i £284M yn 2016 • Ymwelwyr Twristiaeth i'r Ynys wedi cynyddu o 1.57M yn 2013 i 1.66M yn 2016 • Wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (CRhC) ar gyfer 2016-2020 • Sicrhawyd cyllid ar y cyd trwy'r Gronfa Ymgysylltiad Twristiaeth Ranbarthol (sicrhawyd £151,000 rhwng Ynys Môn, Conwy a Gwynedd) • Fe wnaeth 30 o longau mordaith ddocio ym Mhorthladd Caergybi yn ystod y flwyddyn (18,804 o deithwyr) • Wedi cefnogi/rhoi cymorth i bum digwyddiad twristiaeth lleol (gan gynnwys Gŵyl Fwyd Biwmares a sawl Slam Bwyd) 	
Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau isadeiledd (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad a buddsoddiad ac i greu swyddi	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cyflenwyr cyfleustodau mwyaf i adnabod/liniaru/atal rhwystrau posib yn y dyfodol i fuddsoddiad • Mae gwaith yn parhau ar yr ymgysylltiad a gychwynwyd eisoes gyda datblygwyr allweddol yn y sector preifat gan gynnwys Hitachi / Horizon i sicrhau y defnyddir llafur lleol lle bynnag y mae hynny'n bosibl er budd trigolion Ynys Môn • Wedi cydweithio gyda Thîm Marchnata Cyflymu Cymru i hyrwyddo manteision Band Eang Cyflym i drigolion a busnesau Ynys Môn 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu'n parhau gyda datblygwyr mawr ynglŷn â Buddion Cymunedol gwirfoddol 	
Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a bod buddion cymunedol posib yn cael eu ehangu	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhawyd £2.1M trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio gyda Pŵer Niwclear Horizon a National Grid i gefnogi prosesau caniatadau cynllunio statudol • Rydym wedi adnabod arweinyddion pwnc i gynorthwyo'r broses o reoli a sefydlu sail dystiolaeth gynhwysfawr i danategu asesiadau effaith sy'n gysylltiedig â'r Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa a datblygiadau ynni mawr eraill. • Mae'r Gwasanaeth Rheoli a Datblygu Economaidd, trwy dîm y Rhaglen Ynys Ynni, wedi cydlynu ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i ail Ymgynghoriad Horizon cyn gwneud cais (PAC2) • Wedi ymgysylltu â datblygwyr a chydranddeiliaid allweddol i ddarparu cyngor a chymorth annibynnol trwy Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg) nawr yn brif ffrwd yn yr Adran Addysg i fwrw ymlaen â'r agenda STEM ar Ynys Môn 	
Gyrru adfywiad cymunedol trwy ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi cyflawni trydedd flwyddyn y Rhaglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LILILIA) yng Nghaergybi yn llwyddiannus, gyda chyllid grant Llywodraeth Cymru law yn llaw â buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. • Datblygwyd 10 achos busnes / astudiaeth dichonoldeb mewn perthynas â: Tref Addas i Feicwyr Llangefni, Porth Ymwelwyr Ynys Gybi, astudiaethau Adfer Tir a Datblygu Tir ym Mharth Menter 5 (Ileolwyd yn Llangefni), Astudiaeth Neuadd y Sir (Llangefni), Safleoedd ac Eiddo Llangefni, Unedau Busnes Penrhos (Caergybi), gwerthusiad opsiynau at ddyfodol Parc Gwledig y Morglawdd ac Astudiaeth Cyfleustodau'r Ffordd Gyswllt (Llangefni). 	

Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni eu llawn botensial a bod yn barod i chwarae rôl ragweithiol fel dinasyddion cyfrifol ac eiriolwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, mae angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesedd a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, yn lleihau lleoedd gwag, yn gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc ac a fydd yn ymatebol i'n rhaglen wella gymunedol ac economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud hyn rydym wedi parhau i ymgynghori ac ymgysylltu'n eang â rhieni a'r gymuned ehangach.


Sut gwnaethom ni hyn yn 2016/17?

Fe wnaeth Cyngor Ynys Môn addo	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni	CAMG																				
Parhau i godi safonau o ran cyfraddau cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio mewn partneriaeth â GwE i herio'r holl ysgolion i sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer gosod targedau wedi eu sefydlu er mwyn lleihau'r bwlch rhwng targedau a pherfformiad a GwE yn targedu'r ysgolion lle roedd pryder • Cefnogaeth benodol gan yr Ymgynghorydd Her • Gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng yr awdurdod lleol a GwE • Ysgolion yn dod yn fwy cadarn wrth adnabod a rhoi darpariaeth wedi'i thargedu er mwyn gwella cyrhaeddiad unigol • Dangosyddion perfformiad allweddol Flwyddyn ar ôl Blwyddyn (o'r Cerdyn Sgorio) <table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse; text-align: center;"> <thead> <tr> <th style="background-color: #cccccc;">Perfformiad/Blwyddyn</th> <th style="background-color: #cccccc;">2016</th> <th style="background-color: #cccccc;">2015</th> <th style="background-color: #cccccc;">2014</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>% o rai 15 yn cyflawni L2+</td> <td style="background-color: #90ee90;">58.5</td> <td>56.9</td> <td>53.8</td> </tr> <tr> <td>% disgyblion CA3 yn cyflawni'r DPC</td> <td style="background-color: #90ee90;">87.6</td> <td>84.5</td> <td>83.6</td> </tr> <tr> <td>% disgyblion CA2 yn cyflawni'r DPC</td> <td style="background-color: #ffff00;">89.4</td> <td>91.8</td> <td>87.8</td> </tr> <tr> <td>CS - % disgyblion yn cyflawni'r DPC/DCS</td> <td style="background-color: #ffff00;">84.7</td> <td>86.2</td> <td>84.6</td> </tr> </tbody> </table>	Perfformiad/Blwyddyn	2016	2015	2014	% o rai 15 yn cyflawni L2+	58.5	56.9	53.8	% disgyblion CA3 yn cyflawni'r DPC	87.6	84.5	83.6	% disgyblion CA2 yn cyflawni'r DPC	89.4	91.8	87.8	CS - % disgyblion yn cyflawni'r DPC/DCS	84.7	86.2	84.6	
Perfformiad/Blwyddyn	2016	2015	2014																			
% o rai 15 yn cyflawni L2+	58.5	56.9	53.8																			
% disgyblion CA3 yn cyflawni'r DPC	87.6	84.5	83.6																			
% disgyblion CA2 yn cyflawni'r DPC	89.4	91.8	87.8																			
CS - % disgyblion yn cyflawni'r DPC/DCS	84.7	86.2	84.6																			

	<ul style="list-style-type: none"> Presenoldeb <table border="1" data-bbox="734 233 1906 419"> <thead> <tr> <th colspan="4">Uwchradd</th> </tr> <tr> <th>2015/16</th> <th>2014/15</th> <th>2013/14</th> <th>2012/13</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>94.5</td> <td>93.6</td> <td>93.4</td> <td>93.2</td> </tr> <tr> <th colspan="4">Cynradd</th> </tr> <tr> <td>95.1</td> <td>94.7</td> <td>94.6</td> <td>94.4</td> </tr> </tbody> </table> 	Uwchradd				2015/16	2014/15	2013/14	2012/13	94.5	93.6	93.4	93.2	Cynradd				95.1	94.7	94.6	94.4	
Uwchradd																						
2015/16	2014/15	2013/14	2012/13																			
94.5	93.6	93.4	93.2																			
Cynradd																						
95.1	94.7	94.6	94.4																			
<p>Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i lywio penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys agor ein hysgol anghenion arbennig – Canolfan y Bont a darparu dwy ysgol gynradd ardal newydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cafwyd caniatâd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2015 i adeiladu un ysgol newydd ac adnewyddu dwy arall ym Mro Aberffraw a Bro Rhosyr Gwaith adeiladu wedi cychwyn ar yr ysgol newydd yng Nghaerdybi a Llannau a disgwylir y bydd y ddwy ysgol yn agor ym mis Medi 2017 Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2016 i ddal y broses ymgynghori ar gyfer ardal Seiriol yn ôl tan ar ôl mis Ebrill 2019 Yn lle hynny dechreuwyd y broses ymgynghori yn ardal Llangefni yn gynnar yn 2017 																					
<p>Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain â chyfleoedd yn y dyfodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r grŵp strategol i adnabod Cylch Gorchwyl a meysydd i'w datblygu ac mae Consortiwm Ôl-16 Ynys Môn a Gwynedd yn parhau i ddatblygu meysydd astudio cydweithredol Mae data perfformiad yn cael ei ddatblygu'n unol â newidiadau cenedlaethol i ddangosyddion perfformiad ar lefel TGAU a mireinio'r dangosyddion ar gyfer lefel A ac AS Ychydig iawn o waith datblygu pellach fu modd ei wneud mewn perthynas ag e-ddysgu yn 2015-2016 (un cwrs) Cydweithio â CLIM, a Chwmni Prentis Menai Mae'r opsiynau ar gyfer yr adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd rhagddynt 																					

Tabl 8						
Disgrifiad o'r DP	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	Tuedd Bl ar FI	Chwartel 15/16 (Safle Cymru Gyfan)
EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal yr ALI); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0	0.3	0.0	0.00	⇒	(1)
EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0	14.3	0.0	0.00	⇒	(1)
EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	88.0	87.8	91.8	89.4	⇩	(9)
EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	81.5	83.6	84.5	87.6	⇩	(7)

EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	61.8	67.2	64.8	67.30	↑	(2)
EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	593.5	598.3	571.7	549.90	↓	(8)
EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau	59.1	38.5	32.5	78.10	↑	(14)
EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau	100	84.6	75.0	100	↑	(1)
EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	94.4	94.6	94.7	95.10	↑	(7)
EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.2	93.4	93.5	94.40	↑	(9)


EDU/017: Canran y disgyblion oedd yn 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg	54.2	53.8	56.9	59.30		(13)
--	------	------	------	-------	---	------

O ran DP Addysg, mae'r darlun yn un gweddol gadarnhaol ac yn dangos gwelliant cyffredinol yn 6 o'r 11 DP perthnasol rhwng 2015/16 a 2016/17. Yn ychwanegol at hyn, mae 4 o'r DP yn y chwarterel uchaf gyda 6 arall yn y chwarterel canol uchaf. Yr un mor bwysig, nid oes unrhyw DP yn y chwarterel isaf a dim ond 2 DP yn y chwarterel canol isaf. O'r 4 DP sydd yn y chwarterel uchaf, rydym yn cael ein rancio fel y cyntaf yng Nghymru mewn 3 ohonynt.


Gwelliant arall o bwys o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, yw'r canran o ddatganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys rhai eithriadau ac roeddem eto ymysg y gorau yng Nghymru ac wedi symud o'r chwarterel isaf (75%) yn 2015/16 i'r chwarterel uchaf (100%) yn 2016/17 (Tabl 9). Fodd bynnag, er ein bod wedi gwella yn ystod 2016/17 (o 32.5% i 78.1%), mae angen i'r cyngor wella ymhellach o ran nifer y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 wythnos, yn cynnwys eithriadau (Tabl 10).

Er y bu amrywiad yn y perfformiad rhwng y blynyddoedd y sonnir amdanynt yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17, fe welir o Dabl 8 bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da dros gyfnod Cynllun Corfforaethol 2013-17 o ran addysg/dysgu sy'n golygu y bu modd i ni sefydlogi, cynnal neu wella perfformiad yn ystod cyfnod anodd sydd wedi gweld nifer o ddatblygiadau yn y maes dysgu (e.e. y rhaglen Moderneiddio Ysgolion).

Tabl 9



Tabl 10



Enghraifft arall lle gall amrywiadau bychain arwain at newidiadau dramatig o ran y chwarteri yw presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion cynradd – lle mae symud o 94.6% yn 2014/15 i 94.7% yn 2015/16 yn golygu symud o'r chwarter canol isaf i'r chwarter isaf er gwaethaf cynnydd bychan mewn perfformiad o ran y DP ei hun.

Cynyddu ein Dewisiadau Tai a Lleihau Tlodi


Mae cael lle fforddiadwy, o ansawdd i fyw ynddo yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i ganfod swyddi, cael mynediad at gyfleusterau hamdden ac addysg, ac i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol ar Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Dywedwyd y byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu nifer uwch o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

Sut gwnaethom ni hyn yn 2016/17?

Cynyddu ein Dewisiadau Tai a Lleihau Tlodi

Fe wnaeth Cyngor Ynys Môn addo	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni	CAMG
<p>Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrth-dlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Bwrdd Trechu Tlodi, gyda Caroline Turner yn cyfarwyddo, wedi'i sefydlu ac wedi parhau i gefnogi gwaith y rhaglenni ymyrraeth ataliol megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ac wedi hyrwyddo cyswllt agosach gyda rhaglenni eraill i drechu tlodi, sef Cymunedau'n Gyntaf a Chefnogi Pobl. • Wedi cefnogi mentrau ledled yr ynys, gan gynnwys banciau bwyd a chynhwysiad ariannol • Rydym wedi cefnogi trosglwyddiad y system gweinyddu prydau ysgol am ddim o Dysgu i Cyllid er mwyn cefnogi pobl i ddechrau defnyddio'r gwasanaeth a pharhau i'w ddefnyddio. • Wedi lansio gwefan newydd ar fudd-daliadau i godi ymwybyddiaeth am Ddiwygio Lles a'r gefnogaeth sydd ar gael • Gan weithio gyda Landlordiaid a Thenantiaid y Sector Rhentu Preifat, sefydlwyd partneriaeth gyda Chydweithredfa Cymru fel rhan o'r prosiect <i>Eich Arian, Eich Cartref</i> i gynnig cynhwysiad ariannol i'r bobl fwyaf bregus • Cynhaliwyd ymgynghoriad annibynnol ar y cyngor a roddir ynghylch budd-daliadau 	

Cynyddu'r opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael trwy'r ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y cartrefi fforddiadwy ychwanegol 2014/15 i 2016/17 = 237 o unedau Wedi prynu 22 o gyn Dai Cyngor a brynwyd dan Hawl i Brynu hyd yn hyn (2016/17) Wedi dod â 260 o eiddo ychwanegol yn ôl i ddefnydd fel cartrefi i deuluoedd rhwng 2013/14 a 2016/17 	
Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi cynorthwyo 21 o aelwydydd i brynu eu cartref cyntaf trwy gynllun Cymorth Prynu Ynys Môn (2013/14-2016/17 hyd yma) Rhoddyd 53 o grantiau Prynwr Tro Cyntaf First (Eiddo gwag) rhwng 2013/14 a 2016/17 – hyd yma) 	
Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc	<ul style="list-style-type: none"> Parhawyd i wella a moderneiddio cartrefi Tenantiaid y Cyngor drwy fuddsoddi dros £6.885m mewn gwaith cyfalaf Trwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy, crëwyd 3 o brentisiaethau a 4 o swyddi Trwy waith ar y cynllun cyfalaf ar gyfer Tai Cyngor, crëwyd 6 o brentisiaethau ac 8 o swyddi 	
Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac unigolion sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol	<ul style="list-style-type: none"> Mae Tîm Opsiynau Tai newydd wedi cael ei sefydlu sy'n darparu gwasanaeth mwy effeithlon, ac mae eisoes wedi cael llwyddiant mawr o ran atal digartrefedd Mae cyfanswm o 143 o landlordiaid ychwanegol wedi cael eu recriwtio i'r bas-data rhwng 2013/14 a 2016/17 (hyd yma) 	

Disgrifiad o'r DP	2013/14	2014/15	2015/16		2016/17	Tuedd Bl ar Fl	Chwarter 16/17 (Safle Cymru Gyfan)
	PSR/002: Y nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	213	229	239	238		


PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	11.98	13.15	10.98	11.77	↑	(6)
PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	84	39	46	57	↑	(3)

Mae dau o'r DP y gellir eu cymharu'n uniongyrchol yn y maes Tai yn ymwneud ag Adnewyddu'r Sector Preifat. Rydym yn y chwarter uchaf ar gyfer un o'r DP hyn (PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol – Tabl 12) ac yn parhau i fod yn y chwarter isaf canol ar gyfer y llall (PSR/002: Y nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl). Bydd y Gwasanaeth yn adolygu'r modd y cesglir gwybodaeth am y dangosydd hwn yn 2017/18 er mwyn deall sut orau i wella ar ein perfformiad cyfredol. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl geisiadau am GCA yn cael eu monitro yn y modd a ddisgrifir yn y canllawiau cenedlaethol ac mae'r broses yn ymdroi o gwmpas anghenion yr unigolyn – ac mewn nifer o achosion, mae'n cymryd amser i gytuno ar y datrysiadau mwyaf priodol tra'n sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Mae Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fel ei gilydd yn cydnabod bod angen adolygu'r prosesau ar gyfer GCA gyda golwg ar ostwng yr amser a gymer i ryddhau GCA.

Rydym yn y chwarter uchaf ac yn y 3ydd safle yng Nghymru o ran nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn (PLA/006b).

Tabl 12

PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, 2016-17



Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Rydym wedi cydnabod bod cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan arwyddocaol yn iechyd y gymuned ac o ran codi hyder pobl. Rydym yn gweithio tuag at fabwysiadu ymagwedd fwy integredig at faterion lles yn y dyfodol a fydd yn fodd i adolygu ac ailddiffinio rôl chwaraeon a hamdden. Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran darparu'r cyfleusterau hyn, byddwn yn sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig o ran hamdden yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Nodwyd ein bod hefyd yn awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau trwy ein darpariaeth llyfrgelloedd, a golygai hynny fwy o weithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach, gwell a di-dor i bobl leol i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Sut gwnaethom ni hyn yn 2016/17?

Fe wnaeth Cyngor Ynys Môn addo	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni	CAMG
Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn	<ul style="list-style-type: none"> • Gostyngiad o 41% yng nghostau rhedeg y Canolfannau Hamdden rhwng 2012/13 a 2016/17 • 464,095 o ymwelwyr â'r Canolfannau Hamdden • 3017 o gwsmeriaid Debyd Uniongyrchol newydd • 3513 o aelodaeth pobl iau • 112,928 o gyfranogwyr (pobl ifanc) wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau datblygu chwaraeon • 58% o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi cyflawni'r safon nofio Cyfnod Allweddol 2 Cenedlaethol • 74,038 o gyfranogwyr mewn sesiynau 5x60 • 227 o bobl ifanc wedi cymhwyso trwy chwaraeon. • 229 o bobl wedi cwblhau'r Cynllun Cenedlaethol Cyfeirio i Ymarfer a 211 NERS Lefel 4. • 2300 o bobl nawr yn dilyn Môn Actif ar Facebook a Twitter 	
Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar	<ul style="list-style-type: none"> • Opsiynau Debyd Uniongyrchol newydd, wedi eu teilwra, ar gael i gwsmeriaid • Incwm Debyd Uniongyrchol wedi cynyddu i dros £60,000 y mis. • Gwell cyfleusterau yn y Canolfannau Hamdden – er enghraifft, ystafell bwysau estynedig yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a gwaith cynnal a chadw ar y cyrtiau sboncen a'r pyllau nofio. • Gwell cydweithio rhwng ysgolion a'r Cynllun Llysgenhadon Ifanc 	


benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol		
Anogaeth i ddatblygu a chefnogi'r ddarpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau	<ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni wedi trosglwyddo i Bartneriaeth Llangefni (tan fis Mehefin 2018) • Parc Caergybi – wedi'i allanoli i Gyngor Tref Caergybi ym mis Gorffennaf 2017. • Bydd y swyddogaeth hamdden yn gyfrifol am ardaloedd chwarae Peibio am y ddwy flynedd nesaf fel rhan o gytundeb gydag Orthios. • Cae Pêl-droed Holyhead Hotspur nawr yn cael ei reoli gan Glwb Pêl-droed Holyhead Hotspur. • Cae Chwarae Bae Trearddur– mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Chyngor Cymuned Bae Trearddur ynglŷn â rheolaeth y safle yn y dyfodol. 	
Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu'r gwasanaeth Llyfrgelloedd	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhawyd un rownd o ymgynghori cyhoeddus yn 2015 • Gobeithio cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r modelau (wedi eu costio) a ffefrir yn hwyr yn 2017 • Bydd ymgynghoriad gyda chydran-ddeiliaid yn digwydd tua canol 2017 	
Ymchwilio i opsiynau ynglŷn â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yn berthnasol)	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cyfleoedd i gynghorau tref a chymuned a thrydydd partïon eraill fynegi diddordeb a chyflwyno cynigion busnes • Mae trafodaethau pellach yn digwydd gyda grwpiau cymunedol i annog gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau cynladwyedd y safleoedd hyn at y dyfodol • Bydd unrhyw opsiynau hyfyw yn cael eu profi a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2017, os bydd trafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb ynghylch gweithio mewn partneriaeth wedi cael eu cwblhau 	

Tabl 13 Disgrifiad o'r DP	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	Tuedd Bl ar Fl	Chwartzel 14/15 (Safle Cymru Gyfan)
LCS/002(b): : Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol	8767	8434	7457	7520	↑	18
LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth	4029	4166	5628	5858	↑	6

Mae'r unig DP ar gyfer Hamdden yn dangos bod y sefyllfa'n gwaethygu o ran data sy'n cael ei gymharu ar lefel Cymru gyfan – gyda'n perfformiad i lawr i'r 18fed safle o gymharu â'r 16eg safle llynedd. Dyma'r achos er bod nifer y rhai sy'n cymryd rhan wedi cynyddu ac rydym yn awr yn y chwartzel isaf. Fodd bynnag, roedd nifer o resymau nad oedd modd eu rhagweld am y dirywiad mewn perfformiad yn ystod 2016/17 gan gynnwys gwaith cynnal a chadw hanfodol y bu angen ei wneud mewn tair o'r Canolfannau Hamdden a oedd yn golygu eu bod ar gau am gyfnodau ynghyd â cholli data ar gyfer allanoli cyfleusterau dan do oherwydd newidiadau yn nhrefniadau rheoli'r cyfleusterau.

Fodd bynnag, mae nifer yr ymweliadau gan y cyhoedd i'r Llyfrgelloedd yn ein rhoi yn y chwartzel uchaf am y tro cyntaf ac yn y 6ed safle ar lefel Cymru gyfan a ninnau wedi bod yn y chwartzeli isaf neu ganol ers nifer o flynyddoedd (Tabl 14).

Tabl 14



Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Fe wnaethom ddatgan fod gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Chynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Dywedom mai rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud – a gweithredu ar hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well a bydd hyn ond yn gwella eto. Fe ddywedom ni hefyd y byddem yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

Sut gwnaethom ni hyn yn?

Fe wnaeth Cyngor Ynys Môn addo	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni	CAMG
Datblygu, cytuno a llofnodi siarter cwsmer gadarn a dilys sy'n gosod disgwyliau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth y Cyngor gynnal nifer o ymarferion siopwr cudd ar y thema gwasanaeth cwsmer yn ystod y flwyddyn, gyda chanlyniadau positif yn bennaf • Teclyn Alinio Gwerth – mae grŵp o staff priodol wedi eu hadnabod i gynnal ymarfer peilot ar ba mor effeithiol yw'r Teclyn Alinio Gwerth a bydd y canfyddiadau allweddol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer 	
Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Môn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor, a chryfhau rhan y dinasyddion yn y prosesau hyn	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Bwrdd Ymgysylltu wedi'i sefydlu ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i yrru ymlaen a monitro ymgysylltiad ac ymgynghoriad ar draws y Cyngor. Mae'r Bwrdd yn cynnwys partneriaid mewnol ac allanol. • Mae'r Bwrdd Ymgysylltu wedi mabwysiadu model ymgysylltu/ymgynghori (adeiladau Cymunedol) sy'n llywio'r holl ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori yn y dyfodol 	
Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl dderbynfeydd mewnol wedi cau ac agorwyd "Cyswllt Môn" fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr Awdurdod yn 2016 • Rydym wedi cyflogi Ymgynghorwyr Cyffredinol i gefnogi, cynghori a chyfeirio yn Cyswllt Môn • Rydym wedi adleoli'r Gwasanaeth Dysgu, a Cynllunio ac Eiddo i Brif Adeilad y Cyngor ac wedi 	

gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael	cwblhau'r prosiect Gweithio'n Gallach <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi gwerthu dau adeilad Cyngor yn 2016/17 • Rydym yn archwilio opsiynau pellach i ymestyn Cyswllt Môn i'n lleoliadau yn y gymuned 	
Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig trwy weithredu ar Strategaeth Iaith Gymraeg ddatblygedig	Strategaeth Iaith Gymraeg – mae Fforwm Strategol Môn wedi bod yn gweithio'n fwriadol ers mis Medi 2016, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer blwyddyn 2.	

Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Fe wnaethom ddatgan, wrth drawsnewid ein gwasanaethau y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Ein bwriad oedd i'r Cyngor ddod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Bydd modd rhyngweithio ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol, yn electronig. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn ond eto'n ystwyth. Bydd ein systemau'n cefnogi ein blaenoriaethau a byddwn yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

Sut gwnaethom ni hyn yn 2016/17?

Fe wnaeth Cyngor Ynys Môn addo	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni	CAMG
Sicrhau bod gwasanaethau'n defnyddio technoleg yn ehangach i ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Citrix bellach ar gael i'r holl staff sy'n gweithio yn y gymuned – sy'n golygu y gall staff gysylltu gyda'r cyngor pan maent yn gweithio o'r safle • Mynediad i Lync ar gael – sy'n golygu y gall staff y cyngor gysylltu o bell • Rydym wedi cryfhau cyfleusterau fideo-gynadledda y Cyngor • Cymeradwywyd y strategaeth gweithio ystwyth yn 2016 	
Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi rhoi technoleg APPMôn ac e-ffurflenni dwyieithog ar waith yn llwyddiannus er mwyn cyflawni dyheadau'r Cyngor mewn perthynas â Rhagoriaeth Cwsmer a Newid Dulliau Cyfathrebu • Wedi cychwyn prosiect i weithredu system archebu a thalu ar-lein ar gyfer y Gwasanaeth Hamdden • Wedi cychwyn prosiect i weithredu system talu ar-lein am brydau ysgol 	
Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth yr Adain TG gefnogi ail-lansiad y System Rheolaeth Ariannol; AD/Cyflogau; mae Strategaeth Rheoli Dogfennau a Chofnodion mewn lle er mwyn mynd â'r drefn EDRMS yn ei blaen o fewn y sefydliad; mae datrysiaid soffistigedig, diogel, o bell wedi'i roi ar waith; Gwaith wedi cychwyn ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS); Gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio'r Cyfeirlyfr Tir ac 	

	Eiddo Lleol (LLPG)	
Chwilio am, a defnyddio technolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion y Cyngor a dinasyddion yr Ynys rŵan ac yn y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae TG wrthi'n datblygu ac yn cyflwyno datrysiad cadarn ar gyfer Adfer ar ôl Trychineb er mwyn cefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol i'r busnes • Mae'r awdurdod wedi caffael darparwr ffonau symudol newydd sy'n rhoi gwasanaeth llawer gwell o ran signal data ar draws yr ynys • Mae'r gwasanaethau tai ar hyn o bryd yn defnyddio technoleg symudol sy'n galluogi staff i fynd yn uniongyrchol at gwsmeriaid neu i gyflawni tasgau • Mae technolegau modern, arloesol wedi cael eu sefydlu yn lle isadeiledd craidd y Cyngor oedd wedi mynd yn hen 	
Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad	<p>Mae ystod o dechnolegau newydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus er mwyn cyflawni'r rhaglen Gweithio'n Gallach</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Wi-Fi wedi ei osod ar draws adeiladau'r Cyngor ➤ Mynediad rhwydd i'r cyhoedd ac ymwelwyr drwy NetMON ➤ Cyfleuster 'Argraffu Dilynwch Fi' diogel ➤ Microsoft Lync (Skype) ➤ Citrix a Mynediad Diogel o Bell ➤ Etarmis ar gyfer clocio i mewn / allan o bell ➤ Gweithio Symudol a 'Dewch â'ch Dyfais Eich Hun' (BYOD (BYOD)) ➤ Contract Mobile Iron/EE ➤ Rheoli Dogfennau Electronig Strategaeth wedi ei sefydlu 	


Perfformiad Corfforaethol

Dyma'r bedwaredd flwyddyn ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol – dull sy'n edrych ar y modd yr ydym yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol ac sy'n monitro'r dangosyddion iechyd corfforaethol sy'n sylfaen i holl waith y cyngor. Roedd cerdyn sgorio terfynol 2016/17 yn edrych ar y data diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ac yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol am y flwyddyn.

Mae'n dangos hefyd bod y rhaglen o welliant parhaus a sefydlwyd gan y Cyngor yn cael ei gwireddu gyda llwyddiant penodol i'w weld mewn perthynas ag absenoldebau staff:

- Mae **cyfraddau absenoldeb staff** wedi gostwng yn ddramatig – mae'r data diwedd bldwyddyn yn dangos 9.8 diwrnod fesul aelod o staff Amser Llawn Cyfatebol (FTE) ar gyfer 2016/17 sydd wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â 2015/16 (12.00 fesul FTE) a 2014/15 (11.5 fesul FTE).
- Mae hyn yn dangos bod monitro cyson ynghyd â chamau rheoli clir a diamwys ar bob lefel ar hyd a lled y cyngor (e.e. Cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb) wedi gwella ein statws. O fod yn y chwarter isaf ac, ar un adeg, yn un o'r cynghorau a oedd yn perfformio waethaf yng Nghymru, rydym bellach yn y chwarter canol uchaf ac yn 8fed yng Nghymru o ran ein ffigyrau rheoli absenoldeb. Gwelir hyn yn nhabl A isod.

Tabl A



Agwedd gorfforaethol arall sy'n cael ei monitro drwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yw **Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid** – sydd yn ymwneud a sut mae'r cyngor yn delio a chwynion gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth – a dengys dadansoddiad y cafwyd 15 o Gwynion yn ystod y flwyddyn a dim cwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O'r holl gwynion yr ymatebwyd iddynt, cadarnhawyd 3 yn llawn, cadarnhawyd 3 yn rhannol ac fe wrthodwyd yr 8 arall. Ymatebwyd i 78% o'r cwynion o fewn yr amserlen a chafwyd 6 ymateb hwyr. Mae'r perfformiad yn hyn o beth wedi gwella o gymharu â'r 64% ar ddiwedd 2015/16 ond mae ychydig yn is na'r targed o 80% a osodwyd gan y Cyngor.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ERAILL (DP nad ydynt yn ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol)


PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF

Gan edrych ar DP eraill nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol gyda blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol, roedd perfformiad wedi gwella yn ystod 2015/16 o ran y DP ar gyfer gwastraff a oedd yn cael ei ddanfon i safleoedd tirlenwi (WMT/004b) pan symudodd o'r chwarter isaf i'r chwarter canol isaf – o'r 20^{fed} i'r 13^{eg} safle (o'r 22 Awdurdod Lleol). Dyma yw'r sefyllfa hefyd ar gyfer 2016/17 – mae'r cyngor yn parhau i fod yn y 13^{eg} safle yn genedlaethol mewn perthynas â'r DP hwn.

Fodd bynnag, mewn perthynas â'r ganran o wastraff cyhoeddus a gafodd ei gasglu a'i baratoi ar gyfer ei aildefnyddio ac/neu ei ailgylchu, symudodd y cyngor o'r chwarter canol isaf (13^{eg} safle) yn 2015/16 i'r chwarter uchaf ac i'r 6^{ed} safle yng Nghymru yn 2016/17 (Tabl B).

Mae hyn yn welliant o ran perfformiad ac yn arwydd o'n bwriad i wella ymhellach dros y blynnyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod 70% o wastraff domestig Ynys Môn yn cael ei ailgylchu.


Tabl B



O ran DP Priffyrdd, gwelwyd gwelliant bychan mewn perthynas â THS/012: Y ganran o brif ffyrdd (ffyrdd dosbarth A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (ffyrdd dosbarth B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (ffyrdd dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol o 8.9 yn 2015/16 – gydag Ynys Môn yn symud o'r 14^{eg} i'r 13^{eg} safle.

Mae'r holl DP Priffyrdd wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf ac rydym yn y chwarter uchaf ar gyfer cyflwr ein ffyrdd dosbarth A a B. Mae'r ddau ddangosydd hyn ynghyd â THS/012c: Canran y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (ffyrdd dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol wedi eu cyfuno i ddarparu'r darlun cyffredinol a welir yn Nhabl C isod. Fodd bynnag, mae'r DP hwn (Tabl C) wedi gwella'n ara' deg dros y 4 blynedd diwethaf o 13.2% a'r 17^{eg} yn 2013/14, a rhagwelir y bydd yn parhau i wella.


Tabl C



O ran y Strydlun (glendid ffyrdd ac ati), mae'r ddau DP perthnasol yn dangos dirywiad yn ein perfformiad.

Mae canran y priffyrdd a archwiliwyd ac a oedd o safon uchel neu dderbyniol o safbwynt glendid (STS/005b:) wedi symud o'r 12^{fed} i'r 17^{eg} safle ac o'r chwarter canol isaf i'r chwarter gwaelod. Fodd bynnag, yn y Mynegai Glendid a weithredir yn annibynnol gan Cadwch Gymru'n Daclus, roedd Ynys Môn, yn 2016/17, yn 1^{af} drwy Gymru am Lendid Strydoedd a bydd y DP hwn yn gwella yn ystod 17/18 gyda chyflwyno trefn orfodaeth newydd. Mae'r DP ar gyfer gadael gwastraff yn anghyfreithlon (STS/006: Y canran o achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon y cafwyd gwybod amdanynt ac a gafodd eu clirio o fewn 5 niwrnod) hefyd wedi symud o'r chwarter uchaf (a'r 2^{ail} safle drwy Gymru yn 15/16) i'r chwarter canol uchaf a'r 8^{fed} safle yn 16/17 (Tabl D isod).

Tabl D



GWARCHOD Y CYHOEDD

Fe welwn ein bod yn perfformio'n dda mewn perthynas â materion gwarchod y cyhoedd, ac mai'r cyngor yw'r gorau yng Nghymru yn achos sefydliadau bwyd"sydd yn gyffredinol yn cydymffurfio gyda safonau glendid bwyd" (PPN/009) gyda 98.4 o'n sefydliadau bwyd yn cyrraedd y safon hon.

GWASANAETHAU PLANT

Cynhaliodd AGGCC Archwiliad o'r Gwasanaethau Plant yn ystod 2016/17 ac mae canlyniadau'r archwiliad hwnnw wedi dod i law ac mae'n cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer gwelliant. O'r herwydd, mae'r gwasanaeth wedi datblygu Cynllun Gweithredu ac mae ei amcanion gwella a'r targedau perfformiad cysylltiedig ar draws pob agwedd o'r gwasanaeth bellach yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn gadarn.

Perfformiad Ariannol

Cyllideb Refeniw

Gosodwyd cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2016/17 yn £ 124.037m (£ 124m yn 2015/16). Gosodwyd y gyllideb yn erbyn setliad ariannol heriol o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru a gweithredwyd targed arbedion ac effeithlonrwydd heriol o £ 3.46m er mwyn gosod y gyllideb o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei fonitro a'i reoli'n agos trwy gydol y flwyddyn a'i adrodd i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â gweithdrefnau'r cymeradwy y Cyngor. Adroddwyd ar orwario yn gynnar yn y flwyddyn ariannol (Chtr2) a rhagamcanwyd iddo fod yn £ 660k, ond rhoddwyd mesurau ar waith i geisio lleihau'r gorwariant rhagamcanol. Dangoswyd y gwaith a wnaed i leihau'r gorwariant yn rhagamcan Chtr 3 lle rhagwelwyd y byddai'r gorwariant yn £ 16k.

Roedd y cyllidebau ar gyfer 2016/17 yn cynnwys arbedion angenrheidiol o £ 3.46m, a chyflawnwyd £ 3m gyda £ 416k (12%) heb ei gyflawni, ond roedd y Gwasanaethau yn gallu gwneud y diffyg hwn i fyny trwy danwariant ar gyllidebau eraill. Mae pwyntiau pwysau clir wedi'u nodi o fewn lleoliadau y tu allan i'r sir o ran plant sy'n Derbyn Gofal mewn Gwasanaethau Plant ac Addysg, ac mae'r galw am y gwasanaeth yma wedi cynyddu'n sylweddol. Ar y cyfan, mae'r gorwariant adrannau gwasanaeth yn £ 0.853m, tra bod arbedion o fewn cyllid cyfalaf yn deillio o oedi mewn benthyca, gostyngiad yn y baich achosion gwirioneddol am gymorth o dan y cynllun Lleihau Treth Cyngor, argyfyngau cyffredinol nad ydynt wedi'u defnyddio'n llawn a nifer o addasiadau cyfrifyddu un tro wedi cyfrannu i'r tanwariant drafft cyffredinol o £0.447m. (Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau hyn yn dal i fod yn ddarostyngedig i gwblhau'r archwiliad allanol)

Rhyddhawyd £ 1m o falansau cyffredinol yn ystod y flwyddyn i gwrdd â'r rhaglen Buddsoddi i Arbed a bydd y rhaglen yn parhau yn 2017/18.

Gwariant Cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â chost darparu neu wella asedau neu wariant arall lle mae'r buddion yn para y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol dan sylw. Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £ 26.9m ar gyfer 2016/17 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a £ 11.6m ar gyfer y CRT. Hefyd, roedd ymrwymiad a ddygwyd ymlaen o £ 7.8m o 2015/16 a chynlluniau ychwanegol gwerth cyfanswm o £ 6.6m, a oedd yn bennaf yn cael eu hariannu gan grant fel Grant Lleoedd Hyfyw a Llewyrchus, Grant Galluog a Llwybr Mwy Diogel mewn Cymunedau, yn cael eu hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf yn ystod y cyfnod 2016/17. Daeth hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i £ 52.9m a gwariwyd £ 36.6 miliwn ohono. Y prif brosiectau neu gynlluniau i ddechrau yn ystod y flwyddyn oedd rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif yn Ysgol Parc Y Bont ac Ysgol Bro Rhosyr / Aberffraw, y Priffyrdd i Wylfa Newydd, lle cwblhawyd yr rhan Lon Nanner yn ystod y flwyddyn, a'r System Casglu Gwastraff Newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hefyd. Cwblhawyd Rhannau 1 a 2 o Ffordd Gyswllt Llangefni yn ystod y flwyddyn, gyda'r gwaith yn dechrau ar Rhannau 3 a 4. Y prosiect pwysig arall i'w gwblhau yn ystod y flwyddyn oedd y prosiect Gweithio'n Gallach.

Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau tanysgrifio yn gysylltiedig â chynlluniau CRT, prosiectau a ariennir drwy grantiau a phrosiectau a ariannwyd o gyfraniadau gan gyrff eraill. Er na chafodd y gwariant ei wneud yn 2016/17 mae'r arian ar gael o hyd a bydd y cynlluniau'n cychwyn yn 2018/19..

Gwybodaeth Bellach

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Swyddfa'r Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni Ynys Môn
LL77 7TW
Ffôn - 01248 752111
E-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:
www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol

Gallwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:
Gellir gweld polisiâu, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor yn:
www.ynysmon.gov.uk

Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen isod:
www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru:
www.wao.gov.uk
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:
www.cssiw.org.uk
- Estyn:
www.estyn.gov.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion

Disgrifiad	DP	Gwasanaeth	Cyfeiriad	2014/15	2015/16	2016/17	Tuedd 16/17	Chwarter 16/17
CAM/037: Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr	CAM/037	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	>	-	7.78	-4.90	↓	
STS/005b: Canran y priffyrdd a arolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbynol	STS/005b	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	>	96.3	95.08	93.40	↓	
STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith	STS/006	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	>	95.9	98.49	97.31	↓	
THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws	THS/007	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	>	72.5	73.22	75.60	↑	
THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	THS/012	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<	10.9	8.92	6.90	↑	
THS/012a: Canran prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	THS/012a	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<		2.73	2.3	↑	
THS/012b: Canran ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	THS/012b	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<		3.81	3.2	↑	
THS/012c: Canran ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	THS/012c	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<		13.35	10.1	↑	
WMT/004(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi	WMT/004b	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<	43.2	16.87	6.60	↑	
WMT/009(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan ALL a gaiff ei baratoi ar gyfer aildefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi'u gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall	WMT/009b	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	>	55.2	59.50	65.79	↑	
PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	PSR/002	Tai	<	229.5	238.91	290.00	↓	
PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	PSR/004	Tai	>	13.1	10.98	11.77	↑	
CHR/002: Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn	CHR/002	Adnoddau Dynol	<	11.5	11.99	9.80	↑	

Top Quartile - Green
Upper Median - Yellow
Lower Median - Amber
Bottom Quartile - Red

Disgrifiad	DP	Gwasanaeth	Cyfeiriad	2014/15	2015/16	2016/17	Tuedd 16/17	Chwarter 16/17
EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal ALL) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	EDU/002i	Dysgu	<	0.3	0.00	0.00	➔	
EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal ALL, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	EDU/002ii	Dysgu	<	14.3	0.00	0.00	➔	
EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	EDU/003	Dysgu	>	87.8	91.80	89.40	↓	
EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	EDU/004	Dysgu	>	83.6	84.55	87.60	↑	
EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	EDU/006ii	Dysgu	>	67.2	64.85	67.30	↑	
EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	EDU/011	Dysgu	>	598.3	571.71	549.90	↓	
EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, gan gynnwys eithriadau	EDU/015a	Dysgu	>	38.5	32.50	78.10	↑	
EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, heb gynnwys eithriadau	EDU/015b	Dysgu	>	84.6	75.00	100.00	↑	
EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	EDU/016a	Dysgu	>	94.6	94.72	95.10	↑	
EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	EDU/016b	Dysgu	>	93.4	93.53	94.40	↑	

Top Quartile - Green
Upper Median - Yellow
Lower Median - Amber
Bottom Quartile - Red

Disgrifiad	DP	Gwasanaeth	Cyfeiriad	2014/15	2015/16	2016/17	Tuedd 16/17	Chwarter 16/17
EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg	EDU/017	Dysgu	>	53.8	56.89	59.30	↑	Amber
LCL/001(b): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth	LCL/001b	Dysgu	>	4,166.4	4,053.09	5858.00	↑	Green
LCS/002(b): Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol	LCS/002b	Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd	>	8,434.0	7,456.51	7520.00	↑	Red
PLA/006(b): Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	PLA/006b	Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd	>	39.2	46.25	57.00	↑	Green
PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	PPN/009	Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd	>	97.0	98.67	98.40	↓	Green

Top Quartile - Green
Upper Median - Yellow
Lower Median - Amber
Bottom Quartile - Red

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	30 HYDREF 2017	
Pwnc:	STRATEGAETH GYFALAF 2018/19	
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH	
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)	
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES	
Rhif Ffôn:	2601	
E-bost:	rmjfi@ynysmon.gov.uk	
Aelodau Lleol:	d/b	
A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau		
<p>Er mwyn i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf 2018/19, gofynnir am arweiniad gan y Pwyllgor Gwaith ynghylch faint o gyllid i'w ryddhau, o gofio effaith y rhaglen gyfalaf ar yr elfen cyllid cyfalaf o gyllideb Refeniw'r Cyngor.</p> <p>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y pwyntiau a godir yn yr adroddiad ac wedyn gall y Swyddogion ddechrau'r gwaith o baratoi rhaglen gyfalaf 2018/19.</p>		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Ddim yn berthnasol		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu strategaeth gyllidebol y Cyngor wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ddim yn berthnasol		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Ddim yn berthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	I'w gadarnhau
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrthdodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundebau Canlyniad
7	Arall
F - Atodiadau:	
Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2017/18	
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):	

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Yn unol ag Adran 3, Rhan 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu a pharhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Cefnogir y Ddeddf gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côt).
- 1.2. Nid yw'r Côt yn nodi uchafswm benthyca ar gyfer awdurdodau, ond yn hytrach mae'n gosod egwyddorion ar gyfer pennu lefel o fenthyca fforddiadwy a sut y mae'n rhaid monitro'r lefelau hynny. Mae'r wybodaeth fonitro (dangosyddion darbodus) wedi ei chynnwys yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol, yr adolygiad canol-blwyddyn a'r adolygiad diwedd blwyddyn yr adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn bob blwyddyn.
- 1.3. Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn penderfynu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd yn 2018/19.

2. GWYBODAETH GEFNDIR

- 2.1. Gwariant cyfalaf yw gwariant i gaffael neu i greu asedau newydd neu i gynnal asedau cyfredol lle mae oes yr ased yn hwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn rhai diriaethol (adeiladau, cerbydau, isadeiledd) neu'n rhai anniriaethol (trwyddedau meddalwedd).
- 2.2. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu o'r ffynonellau canlynol:-
 - **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Swm o arian yw hwn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno.
 - **Benthyca â Chymorth** - Bydd y Cyngor yn benthyca arian gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) i ariannu'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n deillio o'r benthyca (Costau Llog ac Isafswm Darpariaeth Refeniw) yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad refeniw blynyddol, sef "Benthyca â Chymorth".
 - **Benthyca Digefnogaeth** – Unwaith eto mae'r Cyngor yn benthyg arian gan y PWLB ond rhaid iddo ariannu'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Mae prosiectau a ariennir drwy fenthyca digefnogaeth yn tueddu i fod yn brosiectau sy'n darparu arbedion refeniw a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i dalu am gostau refeniw ychwanegol sy'n deillio o'r benthyca.
 - **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn cael grantiau cyfalaf sydd yn ariannu costau prosiect yn llwyr neu'n rhannol. Fel arfer mae cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf mewn perthynas â'r gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwario.
 - **Cyfraniad Refeniw** – Gall y Gwasanaethau wneud cyfraniad o'u cyllidebau refeniw i ariannu prosiectau. Mae'r cyfraniadau hyn yn tueddu i fod ar ffurf cyllid cyfatebol i brosiectau a ariennir yn bennaf gan grant cyfalaf penodol.
 - **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio arian a gynhyrchir yn sgil gwerthu asedau i gyfrannu at ariannu'r rhaglen gyfalaf. Cynhyrchir y rhain fel arfer yn sgil gwerthu asedau dros ben (tir neu adeiladau fel arfer).
 - **Cronfeydd wrth gefn** – Gellir defnyddio arian wrth gefn i gynnal y rhaglen gyfalaf, e.e. derbyniadau cyfalaf na wnaed defnydd ohonynt.
- 2.3. Cymeradwywyd y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18 gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2017 ac fe'i crynhoir yn Nhabl 1 isod. Mae rhaglen fanylach ynghlwm yn Atodiad 2.

Tabl 1 Rhaglen Gyfalaf 2017/18	
Cynllun	Cyllideb Flynyddol 2017/18 £ '000
Cynlluniau a ymrwymwyd ddygwyd ymlaen o 2016/17	8,826
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	750
Buddsoddi mewn Asedau Cyfredol	1,551
Prosiectau Buddsoddi i Arbed	186
Cynnal Priffyrdd	761
Isadeiledd Strategol	7,524
Lliniaru Llifogydd	1,600
Cynlluniau Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol	
Safle Sipsiwn a Theithwyr	1,250
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	1,301
Cynlluniau CRT	6,865
	9,889
CYFANSWM GWARIANT	40,503
Wedi'i ariannu gan:	
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1,340
Grantiau Cyfalaf Penodol	21,258
Derbyniadau Cyfalaf	1,522
Benthyca â Chymorth	3,472
Benthyca Digefnogaeth	4,617
Cronfeydd Wrth Gefn	8,294
CYFANSWM CYLLID	40,503

2.4. Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gweithredu dull un gronfa o ran benthyca, h.y. nid ydym yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o'r CRT a gwariant o Gronfa'r Cyngor. Mae'r holl fenthyciadau yn cael eu cyfuno mewn un gronfa a rhennir y costau rhwng y ddwy gronfa a hynny'n seiliedig ar lefel y gwariant a ariennir trwy fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa hyn.

3. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

3.1. Ym mis Hydref 2016, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i'r egwyddorion canlynol mewn perthynas â'r strategaeth gyfalaf: -

- Bod y Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor
- Dyrannu swm yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i ariannu gwaith atgyweirio mawr neu i amnewid offer TG, cerbydau ac adeiladau presennol y Cyngor.
- Dyrannu swm yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl.

- Ni fydd prosiectau a ariennir o fenthycy digefnogaeth ond yn cael ei gweithredu os bydd y gostyngiad mewn costau refeniw neu'r cynnydd yn yr incwm a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a ddaw yn eu sgil.
- Bod rhywfaint o waith wynebu ffyrdd yn cael ei ariannu o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrannir yn dibynnu ar yr arian sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau sylfaenol o ran gwerth contractau, lefel yr arian sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.
- Asesir prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol er mwyn denu arian grant ar sail achos wrth achos gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo arian yn dibynnu ar y prosiect, sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r gymhareb o ran faint o arian a ddarperir gan y Cyngor a faint o arian grant a geir.

3.2 Gofynnir i'r Aelodau ystyried yr uchod ac a ydynt yn dymuno ail-gadarnhau'r egwyddorion hyn fel rhan o'r strategaeth gyfalaf ar gyfer 2018/19.

4. CYFYNGIADAU AR ARIANNU NEWYDD

4.1. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 2.2, mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu o wahanol ffynonellau sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd:-

- Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol tymor hir y Cyngor oherwydd bod unrhyw grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwariant cyfalaf. Efallai y bydd yna wahaniaethau amseru a all arwain at beidio gwario arian grant mewn un flwyddyn a'i gario drosodd o un flwyddyn i'r llall trwy fantolen y Cyngor.
- Mae Derbyniadau Cyfalaf yn arwain at droi asedau dros ben yn arian parod sydd, yn ei dro, yn creu ased newydd. Unwaith eto, nid oes gan y math hwn o gyllid fawr ddim effaith tymor hir ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond daw amser pan fyddwn wedi cael gwared ar yr holl asedau dros ben a bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn disgyn.
- Defnyddio'r gwaged yn y Cyfrif Refeniw Tai (yr incwm rhent sydd dros ben y gwariant) i ariannu gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n cael effaith ar Gronfa'r Cyngor.
- Bydd defnyddio cyllid refeniw yn lleihau gwerth yr arian a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn neu'r swm a drosglwyddir i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn h.y. mae'n troi arian dros ben yn ased newydd.
- Mae benthyca â chymorth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor sydd â goblygiadau i'r gyllideb Refeniw ar ffurf cynnydd yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) a thaliadau llog blynyddol.

4.2. Mae'r GCC yn mesur gofyniad sylfaenol y Cyngor i fenthycy i ariannu gwariant cyfalaf, h.y. y gwariant cyfalaf nad yw wedi ei ariannu eto gan dderbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf neu gyfraniadau o incwm refeniw. Ni ddylai lefel y benthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na'r gofyniad cyllido cyfalaf. Mae'r GCC yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefel y DIR a godir ar Gyfrif Refeniw'r Cyngor.

- 4.3. Mae'r DIR yn swm bach y mae'n rhaid ei godi ar y cyfrif refeniw er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau. Nid yw'r tâl DIR yn golygu bod benthyciadau yn cael eu had-dalu ar yr un pryd neu ar yr un raddfa â'r DIR mewn gwirionedd. Ad-delir benthyciadau yn unol â thelerau'r cytundebau benthyca a gellir eu hariannu o fenthyciadau newydd neu drwy ddefnyddio arian dros ben o fewn yr Awdurdod.
- 4.4. Mae'r DIR a godir i Gronfa'r Cyngor yn cael ei gyfrifo ar 4% o falans agoriadol y GCC ar gyfer pob prosiect, ar wahân i'r prosiectau hynny a ariennir drwy fenthyca digefnogaeth, lle mae'r DIR yn seiliedig ar fywyd defnyddiol yr ased. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn pennu a ellir gostwng y tâl DIR yn y tymor byr i'r tymor canol.
- 4.5. Yn ychwanegol at y DIR, bydd benthyca â chymorth neu fenthyca digefnogaeth yn arwain at godi llog ar gyfrif refeniw'r Cyngor. Wrth i'r benthyca gynyddu, bydd rhaid cyllido'r tâl llog hefyd ac mae'r llog hwn, ynghyd â'r DIR, yn gyfyngiad ar faint y gellir ei gymryd ar fenthyg.
- 4.6. Ym mhob setliad mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r setliad cyfalaf ar gyfer yr holl awdurdodau lleol ac mae hyn, yn ei dro, yn cael ei rannu rhwng y 22 awdurdod lleol, gan nodi faint fydd yn cael ei ariannu ar ffurf Grant Cyfalaf Cyffredinol a faint o fenthyca â chymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ariannu, h.y. mae'r setliad refeniw yn cynnwys swm a fydd yn cynnwys y DIR mewn perthynas â'r benthyca â chymorth yn ogystal â'r costau llog.
- 4.7. Ar gyfer 2017/18 a 2018/19, roedd y setliad o ran cyfalaf fel y dangosir yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2			
Setliad Cyfalaf 2017/18 a 2018/19 (Dros Dro)			
	2017/18	2018/19	Newid
	£ 'm	£ 'm	canrannol
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Cymru Gyfan	142,837	142,837	0%
Ffigyrau Setliad ar gyfer Ynys Môn			
Grant Cyfalaf Cyffredinol (1)	1,340	1,334	- 0.4%
Benthyca â Chymorth (2)	2,203	2,192	- 0.5%
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (1) + (2)	3,543	3,526	-0.5%
Setliad Refeniw (Elfen Gyfalaf)			
Ad-dalu Dyled (3)	2,986	2,955	-1.0%
Taliadau Llog (4)	4,670	4,575	-2.0%
Cyfanswm Cyllido Cyfalaf (3) + (4)	7,656	7,530	-1.6%

- 4.8. Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf dros dro ar gyfer 2018/19 yn £8.511m, sef £0.984m yn uwch na'r cyllid y gwnaed darpariaeth ar ei chyfer yn y setliad ac mae hyn yn adlewyrchu'r DIR ychwanegol a chostau llog y benthyca digefnogaeth sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.
- 4.9. Felly, gellir gweld bod sgôp i ariannu prosiectau newydd yn 2018/19 drwy'r cyllid a dderbynnir fel rhan o'r setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae benthyca digefnogaeth yn bosib ond, oni bai bod y prosiectau yn cynhyrchu arbedion refeniw, bydd y tâl DIR a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw ac mae'n rhaid eu hariannu trwy godi'r Dreth Gyngor yn uwch neu drwy wneud arbedion refeniw mewn manau eraill.

5. RHAGLEN YSGOLION YR 21ain GANRIF

- 5.1. Mae'r Aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion drwy'r rhaglen uchod. Bydd y rhaglen, os yw'n cyflawni'r holl amcanion a fwriadwyd ar ei chyfer, yn cymryd dros 10 mlynedd i'w chwblhau am gost cyfalaf o tua £120m. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y rhaglen gyda dwy ysgol newydd yn cael eu hadeiladu (Ysgol Cybi ac Ysgol Y Llannau) a gwaith yn cychwyn ar drydedd ysgol newydd (Ysgol Santes Dwynwen).
- 5.2. Ariennir Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar sail 50% o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% trwy fenthycia digefnogaeth. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grant (67%) a benthycia â chymorth (33%). Nid yw'r gyfradd ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer band B wedi'i chadarnhau eto ond rhagwelir y bydd yn parhau i fod yn 50% ar gyfer y cynlluniau a ariennir yn draddodiadol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model buddsoddi ar y cyd ar gyfer Band B (MIM) lle caiff cost gyfalaf y prosiect ei hariannu gan y sector preifat, gyda'r Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (disgwyllir iddo fod yn 25 mlynedd). Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y ffi rhent bob blwyddyn (disgwyllir iddo fod yn 70%).
- 5.3. Mae'r ffigyrau a welir yn Nhabl 3 isod yn seiliedig ar Raglen Amlinellol Strategol y Cyngor a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017).
- 5.4 Crynhoir y cyllid ar gyfer y rhaglen yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3					
Amcangyfrif o'r Cyllid ar gyfer Gweddill Band A a Band B Arfaethedig					
Band	Rhanbarth	Benthycia Digefnogaeth (net o dderbyniadau cyfalaf) £'m	Benthycia â Chymorth £'m	Grant LIC £'m	Cyfanswm £'m
A	Ysgol Santes Dwynwen	2.18	69	69	3.56
A	Ysgol Bro Llangefni	1.04	1.87	1.86	4.77
CYFANSWM BAND A		3.22	2.56	2.55	8.33
B	Ysgol y Graig a Thalwrn	3.71	1.27	2.58	7.56
B	Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cysylltiedig	6.80	2.39	4.86	14.05
B	Ysgolion Cynradd Lligwy	1.57	1.12	2.28	4.97
B	Ysgolion Cynradd Seiriol	2.13	1.17	2.38	5.68
CYFANSWM BAND B		14.21	5.95	12.10	32.26

- 5.5. O ystyried lefel y benthyciadau angenrheidiol, mae'n annhebygol y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn arian parod y Cyngor ei hun (benthycia mewnlol) i unrhyw raddau mawr. Felly, tybir y byddai'r holl fenthyciadau – sef rhai digefnogaeth a chyda chymorth – yn cael eu gwneud trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus dros gyfnod o amser sy'n cyfateb i fywyd disgwylliedig yr ased (50 mlynedd).
- 5.6. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.1, bydd benthyciadau â chymorth neu digefnogaeth ychwanegol yn cynyddu GCC y Cyngor a fydd, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl blynyddol DIR, ar y cyfrif refeniw ac yn arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

- 5.7.** Byddai'r benthyciad digefnogaeth ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu 50 mlynedd a llog blynyddol o 2.5%) yn arwain at gostau ariannu cyfalaf ychwanegol i'r gyllideb refeniw o £639k. Mae'r cyflwyniad Band B yn nodi y byddai'r gwaith cyfalaf arfaethedig yn arwain at arbedion net o £272k ar gyfer y gyllideb Ysgolion. Mae hyn yn gadael diffyg net o £368k y flwyddyn y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ariannu. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 1% ychwanegol yn lefel y Dreth Gyngor.
- 5.8.** Dylid nodi y bydd cyflawni'r prosiectau Band B yn dileu'r angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni dros y blynyddoedd yn y gwahanol ysgolion. O ran yr ysgolion hynny a fyddai'n cau neu'n cael eu haddasu o dan y cynigion Band B, amcangyfrifir fod y costau cynnal a chadw sydd wedi cronni yn dod i gyfanswm o oddeutu £5.5m. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor wedi adnabod cyllideb i wneud y gwaith hwn a byddai'n rhaid ei ariannu naill ai o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol neu trwy Fenthycia wedi'i Gefnogi neu trwy Fenthycia Digefnogaeth. Petai'r Cyngor yn defnyddio'r Grant Cyfalaf Cyffredinol neu Fenthycia wedi'i Gefnogi, ni fyddai hynny'n cynyddu'r costau refeniw ond byddai'n ond yn gadael ychydig o gyllid ar gyfer prosiectau eraill a chan gofio bod yr ymrwymadau eraill (a nodir yn Nhabl 5 isod) yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn, nid yw'n ymddangos fod hwn yn opsiwn ymarferol.
- 5.9.** Byddai'n rhaid, felly, defnyddio'r drefn Benthycia Digefnogaeth i ariannu'r costau ond ni fyddai hynny'n denu unrhyw gyfraniad na chymorth gan Lywodraeth Cymru. Byddai'n rhaid i'r cyfnod ad-dalu ar gyfer unrhyw fenthyciad fod yn gysylltiedig â gweddill oes ddefnyddiol yr ased a byddai hynny'n llai na'r 50 mlynedd a fyddai'n cael ei ddefnyddio mewn adeilad newydd. At ddibenion yr adroddiad hwn, tybir y byddai'r cyfnod ad-dalu yn 30 mlynedd. Gyda llog blynyddol o 2.5%, byddai'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol yn tua £320k y flwyddyn.
- 5.10.** Byddai costau refeniw ychwanegol wrth i'r cynlluniau Band C a Band CH gael eu cyflawni.

6. AMCANGYFRIF O'R ARIAN SYDD AR GAEL AR GYFER 2018/19

- 6.1.** Gan mai un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys tra'n lleihau'r gostyngiad yng nghyllidebau gwasanaethau, mae'n rhesymol i'r Cyngor leihau'r cynnydd sydd ei angen yn y gyllideb cyllido cyfalaf. Bydd angen darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid ei gadw ar lefel sy'n cael ei ariannu drwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthycia â chymorth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei ariannu drwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.
- 6.2.** Ni ddylid ond ystyried benthycia digefnogaeth (y tu allan i raglen ysgolion yr 21^{ain} ganrif) pan fo modd gwneud gostyngiad yng nghyllideb y gwasanaeth perthnasol sy'n fwy na'r DIR a'r costau llog.
- 6.3.** Ar hyn o bryd, ni wyddys beth fydd lefel y benthycia â chymorth a'r grant cyfalaf cyffredinol ond disgwylir iddo fod yn debyg i ddyraniad 2017/18 h.y. £1.3m fel grant cyfalaf cyffredinol a £2.2m fel benthycia â chymorth.
- 6.4.** Yn ychwanegol at y cyllid hwn, byddai adnoddau ar gael i ariannu prosiectau CRT drwy'r Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr (£2.66m) a thrwy unrhyw gyllid sydd ar gael yng nghronfeydd wrth gefn y CRT ei hun.
- 6.5.** Bydd grantiau penodol sydd wedi eu cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sydd ar gael yn dilyn bidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r Cyngor gyfrannu rhywfaint o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol er mwyn gallu denu arian grant. Mae'r grantiau sydd wedi cael eu nodi ar hyn o bryd fel ffynonellau cyllid ar gyfer 2018/19 yn cynnwys:-
- Ffordd Gyswllt Llangefni – fel bod modd cwblhau'r cynllun;
 - Llwybr Diogelach yn y Gymuned – cyllid grant 100%;
 - Cynllun Lliniaru Llifogydd yn Miwmares – cyllid tua 85%;
 - Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth – cyllid tua 85%;

- Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi – cyllid ar gyfer Cam 2;
- Safle Parhaol i Deithwyr a Sipsiwn – cais heb ei gyflwyno hyd yma;
- Isadeiledd Llangefni – 99% o'r cyllid trwy grantiau;
- Isadeiledd Caergybi – trafodaethau'n parhau ynghylch lefel cyfraniad y Cyngor.

- 6.6.** Mae lefel y derbyniadau cyfalaf yn dibynnu ar ba asedau ddaw ar gael i'w gwerthu. Mae'r derbyniadau a geir yn sgil gwerthu rhai o'r asedau wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi cychwyn, e.e. mae arian a geir o werthu hen safleoedd ysgol wedi ei neilltuo ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. O ganlyniad, ni ellir neilltuo'r holl dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn 2018/19 i ariannu prosiectau cyfalaf newydd. Amcangyfrifir y bydd £500k ar gael o dderbyniadau cyfalaf i gyllido prosiectau cyfalaf.
- 6.7.** Fel y nodwyd eisoes, rhaid i unrhyw fenthycy digefnogaeth gynhyrchu incwm / arbedion gwariant refeniw ychwanegol i ariannu'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DIR a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a ariennir drwy fenthycy digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul un.
- 6.8.** I gloi, dylid cyfyngu'r cyllid fydd ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2018/19 i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (amcangyfrif £1.34m), benthycy â chymorth (amcangyfrif £2.2m), ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn y flwyddyn ond na chawsant eu dyrannu (amcangyfrif £0.5m). Byddai hyn yn rhoi cyllideb o tua £4.04m (mae'r ffigur terfynol yn dibynnu ar y setliad a geir gan Lywodraeth Cymru) heb gynnwys grantiau, cyllid ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a chyllid CRT.

7. YMRWYMIADAU POSIB AR GYFER 2018/19

- 7.1** Fel rhan o'r broses gynllunio, nodir ymrwymadau ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, er nad oes sicrwydd y bydd yr arian yn cael ei ryddhau mewn gwirionedd ar gyfer y prosiect penodol. Dangosir yr ymrwymadau posib ar gyfer 2018/19, ynghyd â'r ffynhonnell gyllido bosib, yn Nhabl 4 isod: -

Tabl 4						
Ymrwymadau Cyfalaf Posib 2018/19						
Cynllun	Cost 2018/19 £	Ariennir gan				
		Llithriad o 2017/18 £'000	Grantiau / Cyllid Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Derbyniadau Cyfalaf heb eu dyrannu £'000	Benthycy â chymorth / digefnogaeth £'000
Porth Ymwelwyr Ynys Gybi	353		323		30	
Lôn Newydd Wylfa	12,000		12,000			
Ffordd Gyswllt Llangefni	2,975		2,677		298	
Isadeiledd Strategol Caergybi	1,370	35	1,335			
Isadeiledd Strategol Llangefni	3,357	35	3,322			
Cynlluniau Lliniaru Lifogydd	400		340			60
Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	1,858	970	450			438
Neuadd y Farchnad Caergybi	1,086		1,086			
CYFANSWM	23,399	1,040	21,533	0	328	498

7.2 Os dilynir yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yn 2016/17 ac a nodir ym mharagraff 3.1 mewn perthynas ag asedau cyfredol ac os bydd lefel y cyllid yn gyson â 2017/18 (ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant), byddai'r ymrwymadau ychwanegol ar gyfer 2018/19 fel y dangosir nhw yn Nhabl 5 isod:-

Tabl 5 Cyllid Posib i Gynnal Asedau Cyfredol					
Cynllun	Ffynhonnell Gyllido				
	Gofyniad Cyfalaf Posib	Grant Cyfalaf Cyffredinol	Benthyca â Chymorth	Derbyniadau Cyfalaf sydd heb eu dyrannu	Cyfanswm Cyllid
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	0.750	0.750			0.750
Mynediad i'r Anabl - Addysg	0.300	0.300			0.300
Cerbydau	0.150	0.150			0.150
Isadeiledd TG	0.418		0.418		0.418
Gwaith Adnewyddu Ysgolion	0.500		0.500		0.500
Gwaith Adnewyddu – Arall	0.400		0.400		0.400
Ailwynebu Priffyrdd	0.699	0.140	0.387	0.172	0.699
CYFANSWM	3.217	1.340	1.705	0.172	3.217

7.3. Yn ogystal â'r dyraniadau uchod, mae yna nifer o gynlluniau posib eraill y gall bod angen eu cyllido. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cerbydau Graeanu newydd – mae'r cerbydau graeanu yn cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol a bydd angen rhai newydd. Amcangyfrifir y bydd angen 3 o rai newydd, pob un yn costio rhwng £120k a £150k.
- Yng nghyllideb gyfalaf 2017/18, dyrannwyd swm o £200k i brosiectau Buddsoddi i Arbed llai. Nid yw'r prosiectau hyn yn sgorio'n dda o gymharu â'r prosiectau mwy ond maent o fudd i'r Cyngor oherwydd eu bod yn dod ag arbedion refeniw e.e. boeleri a goleuadau newydd.
- Gwaith gwella ac adnewyddu i gartrefi preswyl yr henoed. Gofynnwyd am £100k y llynedd ond roedd y cais yn aflwyddiannus ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i storfa cegin er mwyn medru cyflawni arbedion refeniw arfaethedig posib.
- Mae'r system ffôn gyfredol yn agos at ddiwedd ei oes ddefnyddiol ac efallai y bydd angen ei newid. Cost amcangyfrifedig £250k.
- Cyflwynodd y Gwasanaethau Hamdden ddau gais y llynedd ar gyfer cae pêl-droed 3G newydd yn Llangefni ac i uwchraddio'r offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Gallai'r ddau gynllun hyn gael eu hariannu o fenthyca digefnogaeth os yw'r incwm refeniw ychwanegol yn ddigonol i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf.

7.4 Yn ogystal â'r ffynonellau cyllido a nodir uchod, mae gan y Cyngor gronfa gyfalaf wrth gefn, a adeiladwyd o gyllidebau refeniw oedd heb eu gwario beth amser yn ôl. Mae'r balans presennol sydd heb ei ymrwymo yn y gronfa yn £0.5m. Defnyddir y gronfa hon yn bennaf i ariannu cynlluniau sy'n codi yn ystod y flwyddyn, nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol, lle mae cyfraniad bychan gan y Cyngor yn caniatáu mynediad i gyllid grant neu pan fydd gwaith brys yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. gosod boeleri newydd. Mae cadw balans yn y gronfa hon yn angenrheidiol ac yn ddefnyddiol ond gellid rhyddhau £0.25m yn 2018/19 i ariannu rhywfaint o'r pwysau ychwanegol a nodir yn 7.3 uchod.

8. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT GYCHWYNNOL CRONFA'R CYNGOR 2018/19

8.1. Yn seiliedig ar baragraffau 6 a 7, byddai rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2018/19 fel y dangosir yn Nhabl 6 isod. Bydd y rhaglen gyfalaf CRT yn cael ei hariannu trwy fenthycia neu o arian wrth gefn y gronfa a bydd y cynlluniau a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf yn cael eu penderfynu i ddechrau gan y Bwrdd Gwasanaethau Tai.

Tabl 6		
Rhaglen Gyfalaf Amlinellol 2018/19		
Rhaglen Gyfalaf Amlinellol 2018/19 (ac eithrio Ysgolion yr 21ain Ganrif, CRT a phrosiectau a gyllidir gyda grant)		
Cyllid	£'m	Sylw
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1.340	Hwn yw dyraniad 2017/18
Benthycia â Chymorth	2.203	Hwn yw dyraniad 2017/18
Derbyniadau Cyfalaf	0.500	Amcangyfrif
CYFANSWM	4.043	
Prosiectau a gyllidir yn 2018/19		
Ymrwymadau o 2017/18	0.826	Tabl 4
Cynnal Asedau Cyfredol	3.217	Tabl 5
CYFANSWM	4.043	

9. ARGYMHELLION

9.1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhellion canlynol fel rhan o'r strategaeth gyfalaf :-

1. Ailgadarnhau egwyddorion y strategaeth gyfalaf a nodir ym mharagraff 3.
2. Ystyried sut i ariannu costau cyllido cyfalaf net ychwanegol ym Mand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel y nodir ym mharagraff 5.
3. Cadarnhau y bydd y cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2018/19 yn cael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthycia â chymorth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynir.
4. Bod yr ymrwymadau prosiect cyfredol (Tabl 5) a'r cyllid ar gyfer adnewyddu / uwchraddio asedau cyfredol ar gyfer 2018/19 fel y gwelir yn Nhabl 6.

**Dadansoddiad o Dabl 1
Rhaglen Gyfalaf 2017/18**

Cynllun	Cyllideb Blynyddol 2017/18 £'000
Gweithredu CCIS	65
Cynllun Prynu Gorfodol	200
Porth Twristiaeth Ynys Gybi	1,050
Priffyrdd Wylfa Newydd	4,097
Lôn Gyswllt Llangefni	3,414
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	750
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol	300
Cerbydau	150
TGCh - Seilwaith Craidd	150
TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron	100
TGCh – Mewnfudo i System Legacy	50
TGCh - Trwyddedau MS	101
Adnewyddu Asedau Cyfredol – Ysgolion	500
Adnewyddu Asedau Cyfredol – heb fod yn Ysgolion	200
Buddsoddi i Arbed -Traeth Coch	75
Buddsoddi i Arbed - Effeithlonrwydd Ynni yn y Canolfannau Hamdden	111
Cynnal a Chadw Priffyrdd	761
Isadeiledd Strategol Caergybi	5,001
Isadeiledd Strategol Llangefni	2,523
Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares	800
Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth	800
Cynllun Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol - Seiriol	1,000
Cynllun Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol - Garreglwyd	250
Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	1,301
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Cybi	502
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Rhyd y Llan	1,545
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Brynsiencyn	217
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Parc y Bont	169
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Santes Dwynwen	3,591
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Llangefni	675
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Seiriol	166
CRT – Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol	2,800
CRT – Gwaith Adnewyddu a Gynlluniwyd	6,585
CRT – Cerbydau Uned Cynnal a ChadwTai	144
CRT – Eiddo	110
CRT – Ailfodelu Llawr y Dref	250
CYFANSWM GWARIANT	40,503
Ariannwyd gan:-	
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1,340
Grant Cyfalaf Penodol	21,258
Derbyniadau Cyfalaf	1,522
Benthyca Gyda Chefnogaeth	3,472
Benthyca Digefnogaeth	4,617
Arian Wrth Gefn	8,294
CYFANSWM CYLLIDEB	40,503

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	30 Hydref 2017
Pwnc:	Tai Gofal Ychwanegol yn Ardal Seiriol
Aelod(au) Portffolio:	Llinos Medi Hughes
Pennaeth Gwasanaeth:	Alwyn Rhys Jones
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Alwyn Jones 01248752707 alwynjones3@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Carwyn Elias Jones Alun Roberts Lewis Wyn Davies

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Mae swyddogion yn awgrymu bod cyfnod o ymgysylltiad yn cael ei gynnal yn lleol yn ardal Seiriol yn ystod Tachwedd 2017 mewn perthynas â thri o faterion, sef :-

- 1) Datblygu tai gofal ychwanegol yn Ardal Seiriol er mwyn darparu o leiaf 39 o fflatiau hunan-gynhaliol yn unol â modelau darpariaeth a gymeradwywyd yn genedlaethol.
- 2) Y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y datblygiad hwn yw safle cyfredol Ysgol Gynradd Biwmares naill ai wedi ei gyd-leoli gydag ysgol wedi ei haddasu neu fel yr unig ddefnydd ar gyfer y tir hwn.
- 3) Bod y cyngor yn mynd ar ôl opsiynau i gyllido'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai fel bod y datblygiad yn cael ei ychwanegu at y stoc dai yn y sir gan ddarparu llety hanfodol ar gyfer pobl hŷn.

Rhesymau

Rhesymau dros ddatblygu Gofal Ychwanegol

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion gofal a llety pobl hŷn yn cael eu bodloni mewn modd sy'n sicrhau eu hurddas a'u lles. Mae rhai o'r cyfrifoldebau hyn yn statudol ac mae eraill yn rhan o ethos ac ymagwedd gyffredinol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol yn Ynys Môn. Wrth i anghenion a disgwyliadau/dyheadau pobl hŷn newid ac wrth i'r adnoddau sydd ar gael leihau, rhaid newid y modd y darperir gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Yn Ynys Môn, rydym yn rheoli'r newid hwn drwy ein Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Oedolion.

Elfen allweddol o'r Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Oedolion yw ailgyflunio'r modd y darperir llety, gan symud i ffwrdd oddi wrth ofal preswyl "traddodiadol" tuag at fodel Tai Gofal Ychwanegol. Mae'r rhesymau am y newid hwn wedi cael eu disgrifio yn yr adroddiad a gyflwynwyd eisoes i'r pwyllgor hwn ar 2 Gorffennaf 2015¹ ac o'r herwydd, nid oes bwriad i ymhelaethu ymhellach yn yr adroddiad hwn.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Rhagfyr, 2013, y byddai, fel rhan o'i gynllun corfforaethol, yn targedu buddsoddiad yn y dyfodol tuag at ddatblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol ac y byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector annibynnol i sicrhau bod dewis ar gael o ran sefydliadau preswyl. Gwnaed cynnydd da yn hyn o beth – mae Penucheldre wedi hen sefydlu ac mae model gofal 24 awr wedi bod ar gael ers Ebrill 2016. Yn yr un modd, mae Hafan Cefni wrthi'n cael ei ddatblygu a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn Mehefin 2017. Bydd hyn yn darparu 63 o fflatiau hunan-gynhaliol gyda mynediad i ofal 24 awr.

Rhesymau dros ffafrio'r safle hwn

Ym mis Hydref 2015, gwnaed ymrwymiad i ystyried opsiynau ar gyfer safleoedd yn Ne Ynys Môn er mwyn datblygu Tai Gofal ychwanegol. Nodwyd Ardal Seiriol fel y lleoliad a oedd yn cael ei ffafrio petai safleoedd ar gael yn y cyffiniau. Yn ystod 2016, comisiynwyd arolwg o wahanol safleoedd drwy Wasanaethau Eiddo'r Cyngor a roes sylw i wahanol ffactorau a fyddai'n cefnogi datblygiad o'r fath. Roedd y ffactorau a ddylanwadodd ar yr asesiad hwn yn cynnwys:-

Caniatâd Cynllunio – Ystyried y tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio

Addasrwydd y safle ar gyfer y datblygiad – Yn seiliedig ar y lleoliad ffisegol, cyfyngiadau ac amodau y gwyddys amdanynt ar y safle

Hwylustod – Rhoddwyd sylw i ba mor agos oedd y safleoedd at ganol y dref o safbwynt cysylltiadau i gerddwyr, y gallu i gael at y safle gyda neu heb gerbydau.

Cost – Rhoddwyd sylw hefyd i werth y tir datblygu, naill ai'r gost o'i brynu neu golli incwm o werth yr ased yn sgil unrhyw fwriad i gael gwared arno. Ystyriwyd hefyd effaith y costau o glirio'r safle lle y oedd adeiladau neu strwythurau eisoes ar y safle.

Argaeledd ac Amseriad – Mae safleoedd tir glas nad ydynt wedi eu datblygu eisoes o bosib ar gael yn sydyn iawn ar gyfer eu datblygu; fodd bynnag, nid yw safleoedd tir llwyd neu safleoedd sy'n cael eu defnyddio'n barod neu sydd wedi ei datblygu eisoes ar gael mor rhwydd.

1 Alwyn Jones, 2 Gorffennaf 2015, Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith: Llety ar gyfer Oedolion Hŷn - Haulfre

Gwasanaethau – Y prif ystyriaethau dan y maen prawf hwn yw agosrwydd a lleoliad y draeniau ar gyfer dŵr budr a dŵr wyneb.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys yn Atodiad A. Yn yr adroddiad, amlygwyd mai'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio oedd yr un i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ar safle'r ysgol gynradd gyfredol a naill ai ei gyd-leoli gyda'r ysgol gan sicrhau defnydd effeithiol o'r tir, neu fel arall, fel yr unig denant. Cafodd dau leoliad ar y safle eu hasesu, sef lleoliad y ganolfan ddydd sydd bellach yn wag, a safle y tu cefn i'r ysgol. Er bod y cyntaf ar y blaen o ryw ychydig ar ôl yr asesiad cychwynnol, daeth yn amlwg yn ystod y cyfnod dylunio cynnar, bod mynediad i'r lleoliad yn anodd ac nad oedd lle arno ond ar gyfer adeilad bychan. Nid oedd y problemau hynny'n bodoli gyda datblygu y tu cefn i'r ysgol ac mae'n gwneud gwell defnydd o'r ardal hon gyda'r posibilrwydd y bydd modd dylunio adeilad sy'n gydnaws â statws rhestredig yr ysgol ac o bosib yn caniatáu ar gyfer rhannu cyfleusterau arlwyo gyda'r ysgol.

Rhesymau am ddatblygu'r safle drwy'r CRT

Mae cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn tueddu i fod yn ddatblygiadau mwy sy'n cynnwys 40 – 70 o unedau sydd, yn hanesyddol wedi cael eu hariannu drwy'r Grant Tai Cymdeithasol (SHG).

Yn ddiweddar, mae llai o SHG wedi bod ar gael ar gyfer datblygu tai gofal ychwanegol oherwydd byddai angen oddeutu £4.5m o SHG ar gyfer pob datblygiad.

Ers Ebrill 2015, mae'r CRT wedi bod yn ariannu ei hun ac o ganlyniad, gellir yn awr sicrhau arian drwy'r cap benthyca CRT ac o Ebrill 2018 ymlaen, bydd modd ymgeisio am gyllid o'r Grant Cyllid Tai (HFG) sy'n fath o gyllid cyfalaf sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan Lywodraeth Cymru.

Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth a'r ffaith fod gan y Gwasanaethau Tai Dîm Datblygu Mewnol, byddai'n rhesymol i'r Gwasanaethau Tai ddatblygu'r cynllun tai gofal ychwanegol nesaf ar gyfer yr Ynys.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Disgrifiwyd yn Rhan A

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r cyfnod ymgysylltu hwn yn anelu at ddatblygu nod allweddol y Cynllun Corfforaethol ac felly mae'n arwyddocâd strategol.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Trafodwyd gyda'r UDA ac maent yn gefnogol i'r cyfnod ymgysylltu
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Fel yr uchod
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Fel yr uchod
4	Adnoddau Dynol (AD)	D/B
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	<p>[Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol -2 Hydref 2017]</p> <p>Penderfynwyd fod y Pwyllgor yn cefnogi cynnal cyfnod o ymgysylltu'n lleol yn ardal Seiriol yn ystod mis Tachwedd, 2017 ynglŷn â'r materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol i ddarparu lleiafswm o 39 o fflatiau hunangynhaliol yn unol â'r modelau darpariaeth a gymeradwywyd yn genedlaethol • Mai'r lleoliad a ffafrir ar gyfer y datblygiad hwn yw safle presennol Ysgol Biwmares naill ai fel cyfleuster wedi'i leoli ar y cyd ag ysgol wedi'i haddasu, neu fel y prif ddefnydd ar gyfer y tir hwn • Bod y Cyngor yn mynd ar ôl opsiynau i ariannu'r datblygiad trwy'r Cyfrif Refeniw

		<p>Tai fel bod y datblygiad yn dod yn stoc tai cyngor ychwanegol o fewn y sir gan ddarparu llety hollbwysig i bobl hŷn.</p> <p>CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIR: Y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i gyflwyno crynodeb o'r adborth o'r broses ymgysylltu i'r Pwyllgor hwn cyn y caiff ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.</p>
9	Aelodau Lleol	<p>Trafodwyd gydag Aelodau Lleol. Gofynnodd yr Aelodau Lleol, fel rhan o'r ymgysylltiad, eu bod yn dymuno gweld Cyfarfod Cyhoeddus i gyd-fynd â'r cynlluniau ymgysylltu cyfredol. Nododd Aelodau Lleol fod hwn yn fater o ddiddordeb lleol sylweddol i drigolion Seiriol.</p>
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:
Atodiad A - Adroddiad ar Ddewis Safle

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Adroddiad Dewis Safle

Prosiect Gofal Ychwanegol Seiriol



Paratowyd gan: Barry. W. Jones BSc (Hons) MRICS
Uwch Swyddog Prisio

Adroddiad Dewis Safle – Prosiect Gofal Ychwanegol Seiriol

Cynnwys

	Tudalen
Pwrpas	2
Cwmpas	2
Dadansoddiad Safle	
Safle 1 – Ysgol Gynradd Biwmares	4
Safle 2 – Canolfan Gofal Dydd Biwmares	5
Safle 3 – Carchar Biwmares	6
Safle 4 – Bryn Tirion, Biwmares	7
Safle 5 – Haulfre, Llangoed	8
Safle 6 – Hen Glwb Cymdeithasol Biwmares	9
Safle 7 – Seiriol Lairds,	10
Cynllunio Lle	11
Gwybodaeth gychwynnol ynglŷn â Chostau	11
Matrics Dewis Safle	12
Argymhellion	13
Atodiad 1 - Cynllun	14

Awdur: Barry. W. Jones BSc (Hons) MRICS
Uwch Swyddog Prisio
Cyngor Sir Ynys Môn


Arwyddwyd: Dyddiad:

Pwrpas

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran y grŵp Prosiect Gofal Ychwanegol er mwyn archwilio ac argymell safle addas ar gyfer datblygu cynllun tai gofal ychwanegol wedi ei adeiladu o'r newydd yn ward Seiriol, Ynys Môn. Seiliwyd yr argymhellion ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan dîm rheoli'r Grŵp Prosiect.

Cwmpas

Cafodd nifer o safleoedd eu nodi yn dilyn astudiaeth ddesg fanwl o'r tir sydd ar gael sydd â'r potensial i gael ei ddatblygu, yn agos i gyfleusterau allweddol ac o fewn pellter cerdded/teithio rhesymol yn ogystal â chynnig mynediad rhwydd i drafnidiaeth gyhoeddus leol. Gan mai ychydig iawn o gyfleusterau sydd yn Llangoed, dim ond yr opsiynau ym Miwmares all ateb y gofynion penodol hyn yn llawn. Mae'r holl safleoedd a ystyriwyd ym Miwmares wedi eu lleoli o fewn 600m i'r cyfleusterau canol tref mwyaf perthnasol megis siop, llyfrgell, meddygfa a fferyllfa (fel y gwelir o'r darlun isod (Darlun 1)).



Darlun 1 – Canol Tref Biwmares

Mae chwech o'r safleoedd a nodwyd yn eiddo rhyddfrait i'r Cyngor ac un mewn perchnogaeth breifat.

Rhestrir y safleoedd sy'n cael eu hystyried yn yr adroddiad fel a ganlyn:

- Safle 1 – Ysgol Gynradd Biwmares (eiddo'r Cyngor)
- Safle 2 – Hen Ganolfan Gofal Dydd, Biwmares (eiddo'r Cyngor)
- Safle 3 – Bryn Tirion, Biwmares (eiddo'r Cyngor)
- Safle 4 – Carchar Biwmares (eiddo'r Cyngor)
- Safle 5 – Heulfre, Llangoed (eiddo'r Cyngor)
- Safle 6 – Hen Glwb Cymdeithasol Biwmares (eiddo preifat)

Safle 7 – Seiriol – Lairds, Biwmares (eiddo preifat)

Ymgynghorwyd â nifer o Wasanaethau mewnol y Cyngor ynglŷn â photensial pob safle o ran datblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd. Darparwyd mewnbwn yn bennaf gan Wasanaeth Eiddo'r Cyngor o safbwynt perchnogaeth tir ac agweddau pensaernïol, gyda Phrifyrdd a Pholisi Cynllunio'n darparu arbenigedd ychwanegol. Mae'r Gwasanaeth Prifyrdd wedi rhoi gwybodaeth am fynediad prifyrdd a draenio a derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI).

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion canlynol:

Gareth W. Thomas – Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio
 Huw Percy – Prif Beiriannydd (Prifyrdd)
 David F. Jones – Rheoli Datblygu (Cynllunio)
 Dave Jump – Uwch Swyddog Cynllunio a Chadwraeth
 Sean Pritchard – Syrfëwr Adeiladu

Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) wedi darparu sylwadau polisi cynllunio ar bob un o'r safleoedd sydd dan ystyriaeth. Ar hyn o bryd mae'r tîm UPCC yn gweithio tuag at fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2016 ac mae'n debygol iawn y bydd rhaid rhoi sylw i'r datblygiad Gofal Ychwanegol arfaethedig o dan y polisi hwnnw.

Mae pob un o'r safleoedd yn nhref Biwmares wedi'u lleoli oddi fewn i ffiniau cynllunio diffiniedig Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Nid yw'r un o'r safleoedd dan ystyriaeth wedi eu dynodi ar gyfer unrhyw bwrpas penodol yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn na'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

Nid ymddengys fod yr un o'r safleoedd o ddiddordeb ecolegol sylweddol, ond byddai cynnal archwiliad priodol ar gyfer ystlumod (sydd wedi eu gwarchod o dan Reoliadau Cynefinoedd 2010 ayb) yn darparu gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo i benderfynu ar unrhyw achos sy'n golygu dymchwel adeiladau presennol. Yn yr un modd, mae adar sy'n nythu'n cael eu gwarchod gan y gyfraith, felly byddai'n rhaid cynnal arolwg ar unrhyw adeiladau, coed neu wrychoedd cyn eu dymchwel neu osgoi gwneud gwaith yn ystod y tymor nythu.

Safle 1 – Safle Ysgol Gynradd Biwmares

Disgrifiad – Mae'r safle'n mesur oddeutu 2.07 hecтар (5.13 acer) ac mae wedi cael ei ddatblygu'n rhannol i ddarparu adeilad ysgol deulawr sydd ag arwynebedd o thua 2025m² ynghyd â chaeau chwarae. Mae'r safle eisoes ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n bosib y bydd ar gael mewn cyfnod rhesymol o amser. Lleolir y safle cyfan oddi fewn i ffiniau datblygu, fodd bynnag mae'r ysgol yn adeilad rhestredig Gradd II ac nid oes modd ei ddymchwel.



Darlun 2 – Ysgol Gynradd Biwmares

Penseiri – Mae'r safle'n ddigon mawr ar gyfer adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol, fodd bynnag mae'r adeilad yn un rhestredig Gradd II felly mae cyfyngiadau ar sut y gellid ei addasu. Serch hynny, mae'r safle mewn lleoliad da iawn gyda llefydd tu allan da a digon o le ar gyfer parcio a cherbydau danfon nwyddau, ond nid yw'n gyfleus o ran pellter cerdded i ganol y dref a'i gyfleusterau. Byddai'n rhaid i unrhyw waith addasu ar yr adeilad fod yn sensitif i gofrestrriad Gradd II yr adeilad ac mae nifer o stepiau yn lefelau'r llawr o fewn yr adeilad presennol y byddai'n rhaid eu hystyried.

Priffyrdd – Mae'r safle hwn yn dderbyniol o ran y briffordd sy'n arwain tuag ato. Lleolir y safle ar lwybr bws ac mae cysylltiadau da i gyfeiriad y dref, fodd bynnag mae cryn dipyn o daith ar droed.

Draenio – Mae trefniadau draenio'r rhan o'r safle sydd wedi ei ddatblygu'n barod yn ddigonol, er efallai y byddai angen darpariaeth ychwanegol ar gyfer gwanhau dŵr wyneb fel rhan o ddyluniad y cynllun.

Cynllunio - Lleolir yr eiddo oddi fewn i'r ffin ddatblygu yng Nghynllun Lleol Ynys Môn, y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu. Fodd bynnag mae rhai cyfyngiadau oherwydd bod yr adeilad yn un rhestredig.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig – Mae'r ysgol yn adeilad rhestredig gradd II ond gellid ystyried addasu'r adeilad mewn modd sensitif iawn gydag estyniad(au) modern o ansawdd uchel. Byddai hynny'n golygu datblygiad sensitif iawn a mwy costus na datblygiad ar safle tir llwyd neu dir glas.

Fodd bynnag, gellid datblygu rhan fechan o'r tiroedd ar ochr chwith y safle fel rhan o ddatblygiad yr eiddo cyfagos, sef 'Canolfan Ofal Dydd Biwmares'.

Safle 2 – Canolfan Ofal Dydd Biwmares

Disgrifiad – Eiddo a adnabyddir fel Canolfan Ofal Dydd Biwmares sy'n ffinio ar gaeau chwarae Ysgol Biwmares. Mae'r safle'n mesur oddeutu 0.16 hectar (0.41 acer) ac mae'r adeilad yn ymestyn i 215 m². Mae'r eiddo'n terfynu ar gae chwarae Ysgol Biwmares sy'n cynnig cyfle i ymestyn arwynebedd y safle er mwyn creu datblygiad mwy. Cafwyd gwybodaeth y gellid ystyried rhannu rhai gwasanaethau a chyfleusterau gyda'r Ysgol gyfagos, yn amodol ar ystyriaethau'n ymwneud â'r dyluniad arfaethedig, perchnogaeth a materion cyfreithiol.



Darlun 3 – Canolfan Ofal Dydd Biwmares

Penseiri – Efallai nad yw'r safle'n ddigon mawr ar gyfer adeiladu Cyfleuster Gofal Ychwanegol a byddai angen ymgorffori rhan o dir yr Ysgol gyfagos mewn unrhyw ddatblygiad.

Priffyrdd – Mae'r safle wedi ei leoli ar lwybr bws ac mae cysylltiadau da i gyfeiriad y dref, er ei bod gryn bellter ar droed. Ystyrir bod y ffordd fynediad yn addas hyd at gyffordd Maes Hyfryd ond mae'n rhy gul ar ôl hynny a byddai angen lledu'r ffordd gan ddefnyddio rhan o gaeau chwarae Ysgol Gynradd Biwmares sydd gerllaw ac sydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn (sy'n rhan o diroedd yr ysgol).

Draenio – Mae'r safle presennol wedi ei wasanaethu'n briodol. Byddai datblygiad ychwanegol yn ychwanegu at y llwyth, ond credir y byddai'r system ddraenio yn ymdopi petai system ddigonol ar gyfer gwanhau dŵr wyneb yn rhan o ddyluniad y cynllun. Efallai y byddai angen system wanhau dŵr wyneb ychwanegol fel rhan o ddyluniad y cynllun.

Cynllunio – Mae'r eiddo oddi fewn i'r ffin ddatblygu yng Nghynllun Lleol Ynys Môn, y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a'r Cynllun Datblygu ar y Cyd sy'n esblygu.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig - Nid yw'n adeilad rhestredig ond mae'n rhan o osodiad hanfodol yr ysgol gyfagos. Er bod hwn yn safle tir llwyd byddai'n rhaid ei ddatblygu mewn modd sensitif oherwydd ei fod yn agos i'r Adeilad Rhestredig.

Safle 3 – Bryn Tirion, Biwmares

Disgrifiad – Datblygiad bach o fyngalos gwarchod yr awdurdod lleol ar ffordd bengaead yw Bryn Tirion ac mae'n mesur oddeutu 0.92 hectar (2.27 acer). Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal breswyl sefydledig ond mae'r ffyrdd yn gul ac mae llefydd parcio yn brin. Mae pob un o'r byngalos yn cael eu dal ar gytundebau tenantiaeth ddiogel felly nid yw'r eiddo ar gael yn rhwydd i'w datblygu.



Darlun 4 - Bryn Tirion, Biwmares

Penseiri – Mae'n bosib nad yw'r safle'n ddigon mawr ar gyfer cyfleuster gofal ychwanegol a phrin yw'r lle tu allan ar gyfer gardd a pharcio. Mae cyfyngiadau hefyd o ran gosodiad unrhyw ddatblygiad gerllaw eiddo arall oherwydd materion megis edrych dros ayb. Gallai danfon deunyddiau / nwyddau fod yn anodd oherwydd natur y ffyrdd.

Priffyrdd – Cysylltiadau ar droed da i ganol y dref. Fodd bynnag, mae'r ffordd fynediad yn gul ac yn anaddas ar gyfer traffig ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiad mwy.

Draenio – Mae'r safle presennol wedi ei wasanaethu'n briodol. Byddai datblygiad ychwanegol yn ychwanegu at y llwyth, ond credir y byddai'r system ddraenio yn ymdopi petai system ddigonol ar gyfer gwanhau dŵr wyneb yn rhan o ddyluniad y cynllun. Efallai y byddai angen system wanhau dŵr wyneb ychwanegol fel rhan o ddyluniad y cynllun.

Cynllunio – Lleolir y safle o fewn ardal breswyl sefydledig ac mae oddi fewn i'r ffin ddatblygu a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn, y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu. Fodd bynnag, gallai'r tai sydd o gwmpas y datblygiad achosi problemau o ran unrhyw gynigion datblygu gan eu bod mor agos i'r safle.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig – Mae’r safle hwn yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ond ychydig tu allan i’r ardal gadwraeth arbennig ddynodedig. Mae’r safle’n ffinio â Bryn Cottage sydd tu fewn i’r ardal gadwraeth arbennig. Mae rhai adeiladau rhestredig yn yr ardal o gwmpas ond byddai’n anodd asesu effaith posib datblygiad arfaethedig ar osodiadau Adeiladau Rhestredig gan nad oes mwy o fanylion ar gael ar hyn o bryd.

Safle 4 – Carchar Biwmares

Disgrifiad – Adeilad hanesyddol Gradd 1 yr hen garchar wedi ei leoli yn agos at ganol tref Biwmares. Mae’r safle’n mesur oddeutu 0.17 hectar ac mae 0.42 hectar wedi ei ddatblygu’n llawn. Mae’r lonydd sy’n arwain at yr eiddo yn gul iawn ac mae prinder llwybrau cerdded.



Darlun 5 – Carchar Biwmares

Penseiri – Nid ystyrir fod y safle’n ddigon mawr ac mae’r adeilad presennol yn adeilad rhestredig Gradd I.

Priffyrdd - Safle yng nghanol y dref ond mae’r lonydd o’i amgylch yn gul ar gyfer cerbydau, heb sôn am draffig adeiladu. Mae prinder o lwybrau cerdded o gwmpas y safle.

Draenio – Mae rhan y safle sydd wedi’i ddatblygu’n barod yn cael ei wasanaethu’n ddigonol, fodd bynnag bydd datblygiad ychwanegol yn cynyddu’r llwyth a gallai hynny olygu y byddai angen gwella’r system ddraenio.

Cynllunio – Mae’r eiddo oddi fewn i’r ffin ddatblygu yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn, y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a’r Cynllun Datblygu ar y Cyd sy’n esblygu. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddatblygiad yn anodd iawn oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig Gradd 1, mae’n agos i eiddo gerllaw ac mae’r lonydd yn gul.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig - Mae'r adeilad a'r safle hwn yn Heneb Restredig, Adeilad Rhestredig Gradd I, mewn Ardal Gadwraeth arbennig ddynodedig, mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac wedi ei leoli ymysg nifer o Adeiladau Rhestredig ac yn rhan hanfodol o osodiad Castell Biwmares sydd wedi ei ddynodi yn Heneb Restredig, Adeilad Rhestredig Gradd I a Safle Treftadaeth y Byd. Nid yw'n amhosib datblygu'r safle ond byddai'r broses o baratoi ceisiadau Caniatâd Heneb Restredig (Cadw) a Chaniatâd Adeilad Rhestredig (Cadw) yn gymhleth iawn ac yn gostus i'w paratoi ac nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r ceisiadau'n llwyddiannus.

Safle 5 - Haulfre, Llangoed

Disgrifiad – Cyfleuster cartref gofal sydd ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol mewn tiroedd sy'n mesur oddeutu 8.41 hectar (20.79 acer).



Darlun 6 - Haulfre, Llangoed

Penseiri – Mae'r safle'n ddigon mawr ar gyfer datblygiad ar raddfa fawr, fodd bynnag, mae'n bosib y byddai cyfyngiadau ar sut y gellid ei addasu oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig Gradd II ac mae'n debygol y byddai'n ddrud iawn i'w adnewyddu neu i ddymchwel rhannau mawr ohono. Lleolir y safle mewn lleoliad da iawn gydag ardaloedd tu allan da a digon o le parcio ac ar gyfer cerbydau danfon nwyddau. Fodd bynnag, nid oes opsiwn i breswylwyr gerdded i'r dref.

Priffyrdd – Mae gwasanaeth bws i bentref Llangoed, fodd bynnag mae'r safle dan sylw tu allan i'r pentref ac nid oes llwybrau cerdded yn cysylltu'r safle â'r pentref. Mae'r lôn yn gul ar gyfer cerbydau a cherbydau adeiladu.

Draenio - Mae rhan y safle sydd wedi'i ddatblygu'n barod wedi ei wasanaethu'n ddigonol. Bydd datblygiad pellach yn cynyddu'r llwyth, ond credir y byddai'r system draenio yn ymdopi pe ymgorfforwyd system wanhau dŵr wyneb digonol yn nyluniad y cynllun.

Cynllunio – Mae'r eiddo y tu allan i ffin ddatblygu Cynllun Lleol Ynys Môn a'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd ond fe'i dynodir yn glwstwr cefn gwlad yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu. Mae'r tir wedi ei ddynodi fel lleoliad cefn gwlad sydd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae defnydd wedi ei sefydlu ar y safle ond gallai materion godi yn ymwneud ag adeilad rhestredig.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig – Mae hen Stablau Haulfre a'r Adeiladau Allanol yn Adeiladau Rhestredig Gradd II. Nid yw'r adeiladau eraill ar y safle wedi eu rhestru ac yn amlwg mae lle, gyda chaniatâd cynllunio priodol, i ystyried y safle hwn yn ofalus gan fod y safle yn un mor fawr.

Safle 6 – Clwb Cymdeithasol, Biwmares

Disgrifiad - Hen glwb cymdeithasol mewn perchnogaeth breifat sy'n agos i ganol tref Biwmares. 0.07 Hectar, 0.237 acer. Mae'r safle'n cynnwys 2 eiddo canol teras ynghyd â hen adeilad y clwb cymdeithasol yn y cefn. Mae mynediad yn broblem oherwydd natur y lonydd a'r garejys sydd mewn perchnogaeth breifat yng nghefn yr adeilad. Mae lle yn gyfyngedig hefyd oherwydd bod y safle yn ymyl yr Eglwys.



Darlun 7 – Clwb Cymdeithasol, Biwmares

Penseiri – Mae siâp y safle yn afreolaidd braidd ac nid ymddengys ei fod yn ddigon mawr. Efallai y byddai cyfyngiadau hefyd o ran gosodiad y datblygiad gyferbyn â'r Eglwys. Gallai costau dymchwel fod yn broblem ynghyd â materion sylweddol o ran danfon nwyddau'r contractwr i'r safle a chreu ardaloedd storio. Yn ogystal nid oes lle tu allan ar gyfer gardd na pharcio.

Prifffyrdd – Safle yng nghanol y dref, ond mae Steeple Lane yn gul ac nid oes llwybr troed ar ei hyd. Byddai'n anodd i gerbydau a thraffig adeiladu gael mynediad.

Draenio – Mae rhan y safle sydd wedi'i ddatblygu'n barod wedi ei wasanaethu'n ddigonol, fodd bynnag bydd datblygiad ychwanegol yn cynyddu'r llwyth a gallai hynny olygu y byddai angen gwella'r system ddraenio.

Cynllunio – Tu fewn i’r ffin ddatblygu yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn, y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a’r Cynllun Datblygu ar y Cyd sy’n esblygu. Mae’n rhaid i’r eiddo gael ei ddatblygu mewn modd sensitif sy’n gweddu i gymeriad a natur yr adeiladau rhestredig gerllaw.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig - Safle sydd wedi achosi problem ers amser maith oddi mewn i Ardal Gadwraeth ddynodedig arbennig, yn yr AHNE, yn rhan o osodiad nifer o Adeiladau Rhestredig ac yn rhan o osodiad hanfodol Castell Biwmares sy’n Heneb Restredig ddynodedig, Adeilad Rhestredig Gradd I ac yn Safle Treftadaeth y Byd.

Safle 7 – Seiriol – Lairds, Llanfaes

Disgrifiad – Safle mewn perchnogaeth breifat sy’n ymestyn i oddeutu 5.96 Hectar (14.73 Acer). Mae nifer o adeiladau diwydiannol ar y safle fyddai’n rhaid eu dymchwel ac mae’n debygol fod rhannau o’r tir wedi’i lygru.



Darlun 8 – Seiriol – Lairds, Llanfaes

Penseiri – Safle mawr a allai fod yn addas i’w ddatblygu yn amodol ar dderbyn caniatâd statudol. Costau dymchwel adeiladau’n debygol o fod yn uchel serch hynny, ac mae’n debygol fod y tir wedi’i lygru. Fodd bynnag mae’n safle da iawn o ran llefydd tu allan da a digon o le parcio ac ar gyfer cerbydau danfon nwyddau, ond ni fyddai’n bosib i breswylwyr gerdded i’r dref.

Priffyrdd – Mae’r safle’n gyfleus o ran gwasanaeth bws ond mae’n bell o dref Biwmares ar droed. Mae’r rhwydwaith ffyrdd yn dderbyniol, fodd bynnag nid oes llwybr troed ar hyd y ffordd i dref Biwmares.

Draenio – Nid oes gwasanaethau ar y tir ond mae cysylltiadau dŵr budr a dŵr wyneb ar gael o dan y briffordd sy’n mynd i Lanfaes. Bydd datblygiad ychwanegol yn cynyddu’r llwyth, ond credir y byddai’r system ddraenio o dan y briffordd yn ymdopi pe ymgorfforwyd system ddigonol i wanhau dŵr wyneb yn nyluniad y cynllun.

Cynllunio – Nid yw'r safle oddi fewn i'r ffin ddatblygu yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd ond mae wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd 'Cyflogaeth'. Bydd Llanfaes yn cael ei ailddosbarthu fel clwstwr cefn gwlad yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu ac nid oes dynodiad ar gyfer y safle dan sylw.

Tir sydd wedi ei ddatblygu'n flaenorol mewn lleoliad cefn gwlad sydd wedi ei ddynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Cadwraeth / Adeilad Rhestredig - Mae rhan o'r safle yn Heneb Restredig (Hen Briordy) ac mae wedi'i leoli tu fewn i'r AHNE ac mae Gorchmynion Gwarchod Coed oddi fewn i'r safle. Dim adeiladau rhestredig ac mae'r safle tu allan i'r Ardal Gadwraeth ond, serch hynny, mae rhai cyfyngiadau oherwydd yr Heneb Restredig a'r Gorchmynion Gwarchod Coed.

Cynllunio Lle

Darparodd Pensaer y Cyngor asesiad cynllunio lle ar gyfer cyfleuster arfaethedig tebyg yn ardaloedd Amlwch a Llangefni.

Daeth i'r casgliadau a ganlyn:-

- Amcangyfrifir y byddai datblygiad **56** uned angen adeilad **6,600m²**.
- Amcangyfrifir y byddai datblygiad **48** uned angen adeilad **5,825m²**.
- Amcangyfrifir y byddai datblygiad **40** uned angen adeilad **5,055m²**.

Cyngor Cychwynnol ynglŷn â Chostau

Cafwyd data ynglŷn â chostau adeiladu gan Wasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig (BCIS). Cyhoeddir mynegai costau adeiladu yn chwarterol ar gyfer gwahanol fathau o eiddo ar sail arwynebedd llawr yn ôl metr sgwâr. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys ffioedd proffesiynol, gwaith allanol a chronfeydd wrth gefn, ond maent yn cynnwys costau cyffredinol, elw a chostau cychwynnol y prif gontractwyr. Nid yw data'r BCIS yn cynnwys categori penodol ar gyfer cyfleusterau 'Gofal Ychwanegol' yn bennaf oherwydd na chafodd sampl digonol ei ddadansoddi. Ystyrir mai'r math tebycaf o eiddo yw:-

BCIS - Tai Gwarchod gyda siopau, tai bwyta neu debyg - Cofnodir y raddfa adeiladu bresennol fel £1,432/m² (wedi ei ail-gyfrifo ar gyfer rhanbarth Cymru o ystadegau cenedlaethol).

Er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith allanol ac elfennau wrth gefn y cynllun byddwn yn cynghori cynyddu'r raddfa hon i £1,600/m².

Datblygiad **56** uned = **£10.56 m**

Datblygiad **48** uned = **£9.32 m**

Datblygiad **40** uned = **£8.09 m**

Amcangyfrifir lwfans ar gyfer ffioedd proffesiynol a ffioedd prosiect yn ôl 9% o'r costau adeiladu.

Dewis Safle a Matrics Sgorio

Yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn, lluniwyd matrices er mwyn sgorio pob un o'r safleoedd sydd dan ystyriaeth yn erbyn nifer o feini prawf, gyda'r bwriad o leihau'r opsiynau. Rhoddwyd pwysau cyfartal i bob un o'r meini prawf.

Caniatâd Cynllunio – Ystyried y tebygolrwydd y bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar sail naill ai polisiâu presennol neu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu. Rhoddwyd sgôr i bob safle, gyda 5 yn golygu'r mwyaf tebygol o gael caniatâd cynllunio ac 1 y lleiaf tebygol.

Addasrwydd y safle ar gyfer ei ddatblygu – Yn seiliedig ar leoliad ffisegol, cyfyngiadau ac amodau sy'n hysbys ynglŷn â'r safle. Rhoddwyd sgôr i bob safle, gyda 5 yn dynodi'r mwyaf addas ac 1 y lleiaf addas.

Mynediad – Ystyriwyd pa mor agos yw'r safleoedd i ganol y dref o ran cysylltiadau i gerddwyr, y gallu i gael mynediad i'r tir gyda, a heb, gerbydau. Rhoddwyd sgôr i bob safle, gyda 5 yn dynodi'r mynediad mwyaf ffafriol ac 1 y mynediad lleiaf ffafriol.

Cost – Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i werth y tir ar gyfer datblygu, naill ai'r gost prynu neu'r golled o ran colli incwm o werth yr ased yn sgil y posibilrwydd o gael gwared ohono. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i effaith costau clirio'r safle os oes adeiladau neu strwythurau yno'n barod. Rhoddwyd sgôr i bob safle rhwng 5, sy'n dynodi'r rhataf, ac 1, y dryfaf.

Argaeledd ac Amseru – Mae'n debygol y byddai safleoedd tir glas sydd heb eu datblygu o'r blaen ar gael i'w datblygu mewn amser byr; fodd bynnag, bydd angen mwy o amser i safleoedd tir llwyd, safleoedd wedi eu meddiannu neu safleoedd sydd wedi ei datblygu'n barod ddod ar gael. Rhoddwyd sgôr i bob safle rhwng 5, sy'n dynodi safleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd, ac 1, ar gyfer y safleoedd na fyddai ar gael am amser hir.

Gwasanaethau – Ystyrir bod argaeledd cyflenwadau trydan a dŵr yn debyg ar gyfer pob opsiwn. Prif ystyriaeth y maen prawf hwn yw pa mor agos ac ym mhle y lleolir draeniau dŵr budr a dŵr wyneb. Rhoddwyd sgôr rhwng 5, lle gwyddys bod cysylltiadau draenio addas ar gael, ac 1, lle nad oes darpariaethau addas.

	Safle 1 – Ysgol Gynradd Biwmares	Safle 2 – Canolfan Gofal Dydd Biwmares	Safle 3 – Carchar Biwmares	Safle 4 – Bryn Tirion, Biwmares	Safle 5 – Haulfre, Llangoed	Safle 6 – Hen Glwb Cymdeithasol Biwmares	Safle 7 – Lairds, Seiriol
Tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio	4	5	2	3	4	4	3
Addasrwydd y safle	3	4	1	3	4	2	3
	5	3	2	3	3	3	4

Mynediad i ac o'r safle							
Cost neu werth y tir	4	5	2	3	2	3	2
Argaeledd ac Amseru	3	5	2	1	3	4	3
Mynediad i wasanaethau presennol	4	4	4	4	4	3	2
Cyfanswm	23	26	13	17	20	19	17

	Safle 1 – Ysgol Gynradd Biwmares	Safle 2 – Canolfan Gofal Dydd Biwmares	Safle 3 – Carchar Biwmares	Safle 4 – Bryn Tirion, Biwmares	Safle 5 – Haufre, Llangoed	Safle 6 – Hen Glwb Cymdeithasol Biwmares	Safle 7 – Seiriol Lairds
	4	5	2	3	4	4	3
Tebygolrwydd o gael Caniatâd Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r eiddo wedi ei leoli oddi fewn i derfynau datblygu lleol. Adeilad Rhestredig Gradd II felly nid oes modd ei ddimchwel. Byddai'n rhaid i'r datblygiad arfaethedig / addasu'r ysgol fod yn sensitif i gymeriad rhestredig Gradd II yr adeilad. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r eiddo'n ffinio ag Ysgol Biwmares ac oddi fewn i'r ffin ddatblygu lleol. Nid yw'r eiddo'n adeilad rhestredig a byddai'n addas i'w ddatblygu. Mae defnydd o'r adeilad fel cyfeuster gofal dydd wedi ei sefydlu'n barod. 	<ul style="list-style-type: none"> Yn annhebygol o dderbyn caniatâd cynllunio i ddatblygu'r safle oherwydd bod yr eiddo'n adeilad rhestredig Gradd 1. Adeiladau gerllaw yn agos i'r safle. Lonydd cul yn arwain at y safle ac o'i gwmpas. 	<ul style="list-style-type: none"> Lleolir y safle mewn ardal breswyl sefydledig oddi fewn i ffiniau datblygu lleol. Ystyrir bod ei leoliad yn agos i anheddau cyfagos yn achosi problemau. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r eiddo tu allan i'r ffin ddatblygu lleol gan fod yr ardal wedi ei dynodi yn glwstr cefn gwlad. Mae defnydd o'r adeilad fel cyfeuster gofal dydd wedi ei sefydlu'n barod. Byddai'n rhaid i'r datblygiad fod yn sensitif i gymeriad rhestredig gradd II yr adeiladau oddi fewn i'r cwrtil. 	<ul style="list-style-type: none"> Lleolir yr eiddo oddi fewn i'r ffin ddatblygu lleol. Y safle gerllaw nifer o adeiladau rhestredig a Safleoedd Treftadaeth y Byd (megis Castell Biwmares a'r Eglwys). Y safle wedi'i leoli oddi fewn i ardal gadwraeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r safle wedi'i gynnwys oddi fewn i ffiniau datblygu presennol, fodd bynnag fe'i dynodir ar gyfer defnydd "Cyflogaeth". Bydd y dynodiad 'Defnydd Cyflogaeth' yn cael ei golli yn y Cynllun Datblygu ar y Cyd sy'n esblygu (sy'n debygol o gael ei fabwysiadu yn 2017). Rhan o'r safle mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Heneb Rhestredig ar y safle a allai gyfyngu ar gynigion i ddatblygu'r safle.
	3	4	1	3	4	2	3
Addasrwydd y Safle	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle'n addas ar gyfer ei ddatblygu. Ni ellir ystyried dymchwel yr adeilad presennol oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig Gradd II. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle ar gael yn rhwydd. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y tir na'r eiddo. Mae angen lleuadu rhan o'r lôn sy'n arwain at y safle er mwyn symud ymlaen â'r datblygiad. Byddai angen rhan o gae chwarae Ysgol Biwmares ar gyfer y datblygiad. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n adeilad rhestredig Gradd I ac yn Heneb Rhestredig. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn anodd ac yn ddrud iawn. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae defnydd preswyl ar y safle'n barod, fodd bynnag mae wedi'i leoli ar ffordd gul. Mae pob eiddo yn destun tenantiaeth ddiogel. Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad arfaethedig roi ystyriaeth i edrych drosodd / pa mor agos yw eiddo cyfagos, a fyddai'n cyfyngu ar y cynigion dylunio. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r eiddo yn gartref gofal ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i'r gwaith o ail-ddatblygu'r safle fod yn sensitif i statws Rhestredig Gradd II yr adeiladau oddi fewn i'r cwrtil. Mynediad yn rhesymol ac mae'r safle wedi'i leoli ar lwybr bws. Cryn dipyn o bellter i'r dref agosaf wrth deithio ar droed. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle'n fach ac wedi'i leoli ar ffordd gul. Byddai'n rhaid i gynigion datblygu gynnwys prynu'r garejys cyfagos, a gallai hynny fod yn anodd ac yn gostus. Mae'r eiddo mewn perchnogaeth breifat. 	<ul style="list-style-type: none"> Safle tir llwyd sy'n bodoli'n barod, fodd bynnag mae tu allan i ffiniau datblygu lleol. Nid oes gwasanaethau draenio ar y safle. Mae'r tir wedi'i lygru. Mae'r safle mewn perchnogaeth breifat a byddai'n costio'n ddrud i brynu a datblygu'r safle.
	5	3	2	3	3	3	4
Mynediad i ac o'r Safle	<ul style="list-style-type: none"> Bernir bod y lonydd sy'n arwain at y safle yn dda ac yn addas ar gyfer yr ailddatblygiad. Mae'r safle wedi'i leoli ar lwybr bws ac mae cysylltiadau da i'r dref. 	<ul style="list-style-type: none"> Bernir bod y lonydd sy'n arwain i Ysgol Biwmares sydd gerllaw yn addas, fodd bynnag mae'r lôn rhwng yr ysgol a'r eiddo dan sylw yn gul. Mae angen lleuadu'r lôn rhwng yr ysgol a'r eiddo mewn mannau. Mae'r safle wedi ei leoli ar lwybr bws ac mae cysylltiadau rhesymol i mewn i'r dref. 	<ul style="list-style-type: none"> Yr eiddo'n agos i ganol y dref. Mae'r lonydd sy'n arwain at ac o gwmpas y safle yn rhy gul ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Nid oes llwybrau troed o gwmpas y safle. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle'n weddol agos at ganol y dref, fodd bynnag mae'r lôn sy'n arwain ato yn gul iawn ac yn anaddas ar gyfer y traffig ychwanegol a grëir gan ddatblygiad mawr. 	<ul style="list-style-type: none"> Yn gyffredinol mae'r rhwydwaith priffyrdd sy'n arwain at y safle yn foddhaol ac mae gwasanaeth bws i bentref Llangoed. Mae'r safle tu allan i bentref Llangoed a phellter sylweddol o dref Biwmares a'i gyfeusterau. Nid oes llwybrau troed yn arwain o'r pentref i'r safle. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle'n agos at ganol y dref, fodd bynnag mae Steeple Lane yn gul ac nid oes llwybr troed ar ei hyd. Mynediad cyfyngedig ar gyfer cerbydau a thraffig adeiladu. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle'n gyffwrdd ar gyfer y gwasanaeth bws ond yn bell o dref Biwmares ar droed. Mae'r ffyrdd yn dderbyniol ond nid oes llwybrau troed arnynt yn arwain i dref Biwmares.
	4	5	2	3	2	3	2
Cost neu werth y tir	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Ynys Môn sydd berchen ar yr eiddo. Mae'r eiddo werth tua £280,000. Mae cost y datblygiad yn debygol o fod yn uwch oherwydd statws rhestredig Gradd II yr eiddo. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Ynys Môn sydd berchen ar yr eiddo. Mae'r adeilad werth tua £140,000. Byddai costau cilio'r safle yn debygol o fod yn gymharol rhesymol. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Ynys Môn sydd berchen ar yr eiddo ac mae werth dros £120,000. Mae cost y datblygiad yn debygol o fod yn uchel iawn oherwydd statws rhestredig Gradd II yr adeilad. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Ynys Môn sy'n berchen ar yr eiddo. Mae'r eiddo werth tua £400,000 ar hyn o bryd. Mae'r holl eiddo yn destun tenantiaeth ddiogel. Mae'n debyg y byddai costau ail-gartrefu tenantiaid yn uchel. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Ynys Môn sydd berchen ar yr eiddo. Yn ddiweddar cafodd yr eiddo ei brisio a rhoddwyd gwerth o £740,000 arno fel endid gweithredol gyda chyfarpar llawn. Cost datblygu strwythurau rhestredig yn debygol o fod yn uchel. 	<ul style="list-style-type: none"> Eiddo preifat. Mae'r eiddo werth tua £120,000. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn golygu prynu'r 10 garej gyfagos. Gwerthwyd un garej am £30,000 yn ddiweddar. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle mewn perchnogaeth breifat ac mae'n ymestyn i oddeutu 35 acer. Byddai'n debygol o gostio mwy na £1,500,000 i brynu'r safle. Costau datblygu'n debygol o fod yn uchel iawn oherwydd costau dymchwel / cilio'r safle a materion amgylcheddol.
	3	5	2	1	3	4	3
Argaeledd ac Amseru	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r eiddo'n weithredol ar hyn o bryd ac nid yw'n debygol o fod ar gael tan 2020. 	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac mae ar gael yn awr. 	<ul style="list-style-type: none"> Ar hyn o bryd defnyddir y safle fel amgueddfa ac mae'n annhebygol o fod ar gael yn y dyfodol agos. Rhagwelir gwrthwynebiad lleol sylweddol i unrhyw gynigion datblygu. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae tenantiaid ym mhob un o'r eiddo preswyl sy'n rhan o'r safle. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle'n weithredol ar hyn o bryd. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae hen adeilad y clwb cymdeithasol ar gael, fodd bynnag, byddai angen y garejys tu ôl i'r adeilad fel rhan o unrhyw ailddatblygiad, ac mae'r rheiny mewn perchnogaeth breifat. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r safle ar gael ar hyn o bryd ond ni fydd yn cael ei dynodi fel "safle cyflogaeth" pan fydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn y misoedd/blwyddyn i ddod.
	4	4	4	4	4	3	2
Mynediad i wasanaethau presennol	<ul style="list-style-type: none"> Mae prif gyflenwadau i'r safle. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae prif gyflenwadau i'r safle, fodd bynnag mae angen cynnal arolwg i gadarnhau pa mor addas ydynt. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae prif gyflenwadau i'r safle, fodd bynnag mae angen cynnal arolwg i gadarnhau pa mor addas ydynt. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae prif gyflenwadau i'r safle, fodd bynnag mae angen cynnal arolwg i gadarnhau pa mor addas ydynt. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae prif gyflenwadau i'r safle, fodd bynnag mae angen cynnal arolwg i gadarnhau pa mor addas ydynt. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae prif gyflenwadau'n arwain at y safle ond nid yw'r draenau'n addas ar gyfer datblygiad mawr. 	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes unrhyw brif ddraenau i'r safle nac yn agos i'r safle.
Cyfanswm	23	26	13	17	20	19	17


Argymhellion

O'r holl safleoedd a ystyriwyd, fy marn i yw y dylid ffafrio safle'r hen Ganolfan Ofal Dydd, ynghyd â rhan o'r tir yn union y tu ôl iddo sy'n ffurfio rhan o gae chwarae'r Ysgol Gynradd gyfagos, ar gyfer datblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn ward Seiriol. Hwn hefyd oedd y safle mwyaf ffafriol gan swyddogion y Gwasanaethau Cynllunio, Priffyrdd a Phensaerniaeth wrth i mi ymgynghori â hwy.

Roedd sgoriau Opsiynau 1 a 2 yn debyg iawn yn y matrices gan ddefnyddio'r meini prawf cychwynnol; fodd bynnag, rwyf yn ffafrio safle'r Ganolfan Ofal Dydd am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r safle ar gael yn rhwydd ac ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn, a bernir nad oes defnydd iddo bellach.
2. Hwn yw'r safle mwyaf ffafriol o safbwynt Cynllunio, Priffyrdd a Phensaerniol.
3. Gellir ymestyn y safle i diroedd yr Ysgol Gynradd gyfagos sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.
4. Nid oes unrhyw wasanaethau yn gweithredu ar y safle sy'n golygu y byddai'r safle ar gael i'w ddatblygu yn gynt na'r safleoedd eraill.
5. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ac nid yw'r adeilad wedi ei leoli oddi fewn i ardal gadwraeth.
6. Mae darpariaeth gwasanaethau ar y safle.
7. Mae'r safle wedi ei leoli gerllaw llwybr bws.

Atodiad 1 – Argymhelliad – Hen Safle Canolfan Gofal Dydd



Canolfan Gofal Dydd Biwmares (tu fewn i'r llinell goch) ynghyd â rhan o gae'r ysgol gyfagos (tu fewn i'r llinell las)

Cyfanswm yr arwynebedd – oddeutu 0.49 Hectar (1.2 Acer)

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	30 Hydref 2017
Pwnc:	Moderneiddio Ysgolion Môn – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Anstatudol yn ardal Seiriol
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd R. Meirion Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Delyth Molyneux
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Delyth Molyneux
Aelodau Lleol:	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Carwyn Jones Cynghorydd Alun Roberts

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

CEFNDIR

Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2016, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:

- Awdurdodi'r swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes i'w galluogi i gynnal proses ymgynghori anffurfiol neu anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne Ddwyrain (Seiriol) Ynys Môn
- Yna paratoi nifer o opsiynau posib ar y ffordd ymlaen.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol yn ardal Seiriol, cynghorwyr lleol a gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 19 Mehefin 2017 tan 30 Gorffennaf 2017.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion dros y cyfnod hwn:-

Ysgol	Cyfarfod gyda				
	Dyddiad (yn 2017)		Staff	Llywodraethwyr	Rhieni
Llangoed	Dydd Llun	26 Mehefin	3.45yh	5.15yh	6.30yh
Beaumaris	Dydd Mawrth	27 Mehefin	3.45yh	5.00yh	6.00yh
Llandegfan	Dydd Mercher	28 Mehefin	3.30yh	5.00yh	6.00yh

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o sylwadau bob un o'r cyfarfodydd a nodir uchod a sylwadau ysgrifenedig a anfonwyd at y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dadansodwyd yr opsiynau hyn ac fe'u sgoriwyd yn yr adroddiad. Mae rhan 11 o'r adroddiad yn argymhell 2 brif opsiwn i'w ymgynghorir arnynt yn ystod y broses ymgynghori

statudol. Ceir grynodedb o'r pwyntiau sydd wedi sgorio uchaf yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol:

1. Opsiwn 2 - Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio (79 pwynt)
2. Opsiwn 3 - Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt)

Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan swyddogion ac aelodau etholedig, awgrymir y dylai'r opsiwn dewisol fod yn seiliedig ar gau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni cyfredol i ddatgan dewisiad a chael mynediad i naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod Lleol a Chod Mynediad i Ysgolion Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, argymhellir y dylid adolygu'r dalgylchoedd cyfredol yn ward Seiriol. Yn drydydd, dylid ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan yn y dyfodol.

Felly, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, awgrymir mai geiriad y cynnig i'w ymgynghori arno yw:

- Cau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Beaumaris, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion, ac i :
- Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
- Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac
- Ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

1. Weithredu'r argymhelliad yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol:
2. Awdurdodi swyddogion Dysgu Gydol Oes i fynd allan i ymgynghori'n statudol ar y cynnig dan sylw, h.y.
 - Cau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Beaumaris, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion, ac i :
 - Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
 - Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac
 - Ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Roedd 28 opsiwn penodol wedi eu hystyried yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae sylwadau uwch swyddogion wedi eu hymgorffori yn y cynnig sy'n cael ei argymhell i'r Pwyllgor Gwaith.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Mae swyddogion Cyllid wedi cyfrannu at yr amcangyfrifon cost sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae sylwadau'r swyddog monitro wedi eu hymgorffori yn y cynnig sy'n cael ei argymhell i'r Pwyllgor Gwaith.
5	Adnoddau Dynol (AD)	Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac adnoddau dynol eraill cydnabyddedig. Os oes angen cymorth AD o ran ymgynghori efallai bydd angen adeiladu capasiti'r uned er mwyn gallu cynnwys hwn yn y llwyth gwaith. Dylid cynnwys costau diswyddo mewn unrhyw gynlluniau.
6	Eiddo	Mae swyddogion Eiddo wedi cyfrannu yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Ni dderbyniwyd sylw
8	Sgriwtini	Cyflwynwyd sylwadau a llythyr gan Gorff Llywodraethol Ysgol Beaumaris i'r Pwyllgor Craffu gan Gadeirydd y Llywodraethwyr yn ei gyfarfod ar 02/10/17 (Atodiad 16). Yn ogystal, cyflwynwyd sylwadau a phapur gan Rhian Jones ar ran Pwyllgor Ymateb Ymgynghorol

		<p>Ysgol Gynradd Biwmares (Atodiad 17). Anfonodd y Pennaeth Dysgu ymateb i'r ddau ar 18/10/17 (Atodiad 18).</p> <p>Trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017. Mae'r cofnodion drafft yn datgan: Penderfynwyd bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn derbyn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol ac yn cymeradwyo'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith. • Yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn perthynas â'r opsiynau a ffafir, sef cynnal ymgynghoriad statudol ar y canlynol – <p>Opsiw 2 - Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ysgol ac o bosibl ffedereiddio nhw;</p> <p>Opsiw 3 - Cau Ysgol Beaumaris rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.</p>
9	Aelodau Lleol	Gweler yr Atodiadau
10	Unrhyw gyrrff allanol / arall/eraill	Gweler yr Atodiadau

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Ddim yn berthnasol
2	Gwrthdodi	Bydd asesiad effaith yn cael ei gwblhau afel rhan o'r broses ymgynghori yn unol â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015
3	Trosedd ac Anhrefn	Ddim yn berthnasol
4	Amgylcheddol	Bydd materion amgylcheddol yn cael ystyriaeth ddyledus
5	Cydraddoldebau	Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei baratoi, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, ar gyfer y cyfnod ymgynghori statudol
6	Cytundebau Canlyniad	Ddim yn berthnasol
7	Arall	Ddim yn berthnasol

FF - Atodiadau:

1. Diffiniad Cyngor Sir Ynys Môn o Ysgolion Cynradd yr Unfed Ganrif ar Hugain
2. Llythyr safonol Beaumaris
3. Llythyr Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Beaumaris
4. Llythyr gan Bennaeth Mewn Gofal Ysgol Gynradd Beaumaris
5. Llythyr gan C.D.C.C. (WPPA)
6. Llythyr gan Gyngor Tref Beaumaris
7. Llythyr gan Bennaeth Ysgol Llandegfan
8. Llythyr gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llandegfan
9. Llythyr gan Bwyllgor y Cylch Meithrin
10. Llythyr gan Arweinydd y Pwyllgor y Cylch Meithrin
11. Llythyr gan Aelod Etholedig lleol
12. Llythyr gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llangoed
13. Llythyr gan Lywodraethwr Ysgol Gynradd Llangoed
14. Llythyr gan Llywodraethwr Ysgol Gynradd Llangoed
15. Llythyr gan Aelodau Etholedig lleol
16. Llythyr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan Gorff Llywodraethu Beaumaris
17. Llythyr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan Bwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Beaumaris
18. Llythyr gan y Pennaeth Dysgu mewn ymateb i 16 ac 17 uchod.

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

1. Dogfen Ymgynghori Anstatudol
2. Cofnodion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gynhaliwyd ar 2 Hydref 2017
3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 20 Mehefin, 2016.
4. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
5. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

SWYDDOGOL – OFFICIAL

**YMGYNGHORIAD ANSTATUDOL – ARDAL SEIRIOL
NON-STATUTORY CONSULTATION – SEIRIOL AREA**

19 Mehefin – 30 Gorffennaf 2017 / 19 June – 30 July 2017



**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
ADRAN DYSGU GYDOL OES / LIFELONG LEARNING DEPARTMENT**

Rhif	CYNNWYS	TUDALEN
1.	RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR	3
2.	GYRWYR NEWID	3
3.	Y BROSES YMGYNGHORI	5
4.	SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI	6
5.	YMATEBION O YSGOL BEAUMARIS	11
6.	YMATEBION O YSGOL LLANDEGFAN	15
7.	YMATEBION O YSGOL LLANGOED	16
8.	YMATEBION ERAILL	18
9.	DADANSODDIAD OPSIYNAU	18
10.	YSTYRIAETHAU ARIANNOL	75
11.	ARGYMHELLIAD	77

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r addysg orau bosibl i'r holl blant a phobl ifanc ar yr ynys.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu braf sy'n cymhell plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol ac i ddatblygu sgiliau bywyd, yn flaenoriaeth uchel.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc gan dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel
- gwella ymhellach ar safonau arweinyddiaeth ac ansawdd y dysgu a'r addysgu,
- darparu ysgolion a safonau sector arweiniol ymhob cymuned.

I gyflawni'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon bydd angen uno ysgolion drwy gyfuniad o ffedereiddio ysgolion, ad-drefnu dalgylch helaeth drwy aillfodelu adeiladau ysgol sydd yno'n barod neu godi ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i'r pwrpas.

2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal:

Codi safonau addysgol

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i godi safonau'n sylweddol os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 100 (neu 105) o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd a mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddsbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

Lleihau nifer llefydd gweigion

Yn Ionawr 2016, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 12.6%. Er hynny, mae 32% o lefydd gweigion yn y 3 ysgol dan sylw, sydd dipyn mwy na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgygliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828 ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2016-17 [£4,721 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeilad ysgol ddiweddaraf - Ysgol y Graig - a ddefnyddir fel meincnod] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, manau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd a diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth ddirprwy bennaeth neu uwch dim rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd bron i 50% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol

Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn

cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal, cynghorwyr lleol a gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 19 Mehefin 2017 tan 30 Gorffennaf 2017.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion dros y cyfnod hwn:-

Ysgol	Dyddiad (yn 2017)		Cyfarfod gyda		
			Staff	Llywodraethwyr	Rhieni
Llangoed	Dydd Llun	26 Mehefin	3.45	5.15	6.30
Beaumaris	Dydd Mawrth	27 Mehefin	3.45	5.00	6.00
Llandegfan	Dydd Mercher	28 Mehefin	3.30	5.00	6.00

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniat cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Beth bynnag fydd canlyniad yr ymgynghori anstatudol a statudol fydd yn dilyn, efallai byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn unrhyw ysgol gynradd newydd.

Cyflwynwyd sylwadau a llythyr gan Gorff Llywodraethol Ysgol Beaumaris i'r Pwyllgor Craffu gan Gadeirydd y Llywodraethwyr yn ei gyfarfod ar 02/10/17 (Atodiad 16). Yn ogystal, cyflwynwyd sylwadau a phapur gan Rhian Jones ar ran Pwyllgor Ymateb Ymgynghorol Ysgol

Gynradd Biwmares (Atodiad 17). Anfonodd y Pennaeth Dysgu ymateb i'r ddau ar 18/10/17 (Atodiad 18).

Trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017. Mae'r cofnodion drafft yn datgan: Penderfynwyd bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol –

- Yn derbyn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol ac yn cymeradwyo'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.
- Yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn perthynas â'r opsiynau a ffafrir, sef cynnal ymgynghoriad statudol ar y canlynol –

Opsiwn 2 - Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ysgol ac o bosibl ffedereiddio nhw;

Opsiwn 3 - Cau Ysgol Beaumaris rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.

4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Crynoir sylwadau o bob un o'r cyfarfodydd isod. Roedd pryderon am swyddi ac effaith posib Wylfa Newydd ar niferoedd ysgolion yn codi yn y cyfarfodydd yn y tair ysgol.

Ysgol Beaumaris

- Holwyd am leihau arwynebedd yr ysgol ac am y cyfleusterau tai gofal ychwanegol.
- Cludiant.

Ysgol Llandegfan

- Holodd nifer am un ysgol gynradd newydd yn lle'r tair, ei lleoliad posib ac am y camau nesaf yn broses ymgynghori.
- Cludiant i'r ysgol newydd posib a phryder am deithio ar lonydd bach, cul.
- Gofynnwyd pam mae Ysgol Llandegfan yn rhan o'r broses hyn?
- Penderfyniad wedi ei wneud
- Pryder am yr effaith posib o gau'r ysgol ar addysg cyn ysgol yn y pentref

Ysgol Llangoed

- Gofynnwyd pam mae Ysgol Llangoed yn rhan o'r broses hyn?
- Byddai cau'r ysgol yn wastraff o adnodd cymunedol a ni fyddai unrhyw fudd addysgol nac economaidd yn deillio o hynny

Gweler **Atodiad 1** am ddiffiniad Cyngor Sir Ynys Môn o Ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Cyflwynwyd rhai syniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori sef:

Ysgol Beaumaris

- i. “Cymryd drosodd yr ysgol fel endid sydd yn rhannol wedi ei chyllido gan y wladwriaeth ac yn rhannol gan y sector breifat”.

Ysgol Llandegfan

- ii. Cau Ysgol Llangoed a symud y disgyblion i Ysgol Beaumaris ac ehangu Ysgol Llandegfan
- iii. Cau Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio
- iv. Cau Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd
- v. Ystyried ysgol fawr yn agos at Borthaethwy

Ysgol Llangoed

- vi. Sefydlu ysgol gyfrwng Gymraeg yn Biwmares, [Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed i fod yn ddwyieithog] “fel ysgol Y Garnedd”
- vii. Lleihau Ysgol Biwmares / cael ysgol newydd iddi?
- viii. Ystyried system drydyddol.
- ix. Ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac Ysgol Beaumaris a trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan.
- x. Ymestyn Ysgol Llangoed, cau Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed

O'r syniadau a gyflwynwyd uchod a'r syniadau amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori anstatudol, yr opsiynau mwyaf tebygol yw'r rhai a ganlyn. Noder - rhestrwyd rhai syniadau mwy nac unwaith gan eu bod wedi eu cyflwyno gan fwy nag un rhanddeiliad:

Rhif	Syniad	Sylwadau	Ystyriaeth bellach?
i	Cymryd drosodd yr ysgol [Beaumaris] fel endid sydd yn rhannol wedi ei chyllido gan y wladwriaeth ac yn rhannol gan y sector breifat”.	Byddai hyn yn golygu bod angen cael partner o'r sector breifat fyddai'n anodd ofnadwy o ystyried yr ôl groniad cynnal a chadw uchel sydd ar Ysgol Beaumaris.	Na
ii	Cau Ysgol Llangoed a symud y disgyblion i Ysgol Beaumaris ac ehangu Ysgol Llandegfan	Nid oedd hwn yn opsiwn yn y ddogfen ymgynghori	Bydd – gweler isod
iii	Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio	Amrywiad ar opsiynau 6.1.5 a 6.1.6	Bydd – gweler isod
iv	Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol	Amrywiad ar opsiynau 6.1.5 a 6.1.6	Bydd – gweler isod

	arall ac adolygu'r dalgylchoedd		
v	Ystyried ysgol fawr yn agos at Borthaethwy	Ni fyddai unrhyw ysgol gynradd newydd yn gallu bod yn agosach na 2 filltir o Ysgol Y Borth gan fyddai dalgylchoedd yn croesi. Er hynny, mae un ysgol newydd yn lle'r tair yn opsiwn yn y ddogfen ymgynghori sef opsiwn 6.4.1.	Bydd – gweler isod
vi	Sefydlu ysgol gyfrwng Gymraeg yn Biwmares, [Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed i fod yn ddwyieithog] “fel ysgol Y Garnedd”	Mae pob un o ysgolion cynradd Môn yn ysgolion dwyieithog. Yn ôl Deddf Addysg 1998, mae gan rieni'r dewis i ba ysgol byddent yn danfon eu plant. Ni all yr Awdurdod fynnu fod plant yn symud ysgol yn unol â'r model sydd wedi ei gynnig.	Na
vii a	Lleihau Ysgol Biwmares	Opsiwn 6.1.8 yn y ddogfen ymgynghori	Bydd – gweler isod
vii b	Ysgol newydd i Biwmares	Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cyllido ysgol i lai na 150 o blant a 37 oedd yn yr ysgol yn 2017.	Na
viii	Ystyried system drydyddol h.y. addysgu'r plant ieuengaf hyd at 9 oed; ysgol fwy hyd at 16 oed ac yna coleg cymunedol	Byddai angen newid mawr yn y trefniadaeth ysgolion i wireddu hyn.	Na
ix	Ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan	Amrywiad ar opsiwn 6.1.7	Bydd – gweler isod
x	Ymestyn Ysgol Llangoed, cau Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed	Amrywiad ar opsiwn 6.1.7	Bydd – gweler isod

Ystyriwch pwyntiau ii, iii, iv, v, vii a, ix ac x ymhellach yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal, rhestrwyd opsiynau yn y ddogfen ymgynghori:

Rhif	Rhif (yn y ddogfen ymgynghori)	Syniad	Sylwadau	Ystyriaeth bellach?
Ysgol Beaumaris				
xi	6.1.1	Dim newid	Ni ellir cadw pethau fel y maen nhw	Na
xii	6.1.2	Ffedereiddio gydag ysgol(ion) arall/eraill		Bydd – gweler isod
Xiii	6.1.3	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol	Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwaith cynnal a chadw yn unig.	Na
Xiv	6.1.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwaith adnewyddu.	Bydd – gweler isod

Xv	6.1.5	Cau a throsglwyddo'r disgyblion a disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llandegfan		Bydd – gweler isod
Xvi	6.1.6	Cau a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llangoed		Bydd – gweler isod
Xvii	6.1.7	Ymestyn Ysgol Beaumaris, cau Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris		Bydd – gweler isod
Xviii	6.1.8	Lleihau arwynebedd Ysgol Beaumaris o 2028 m ² i tua 1070m ²	Annhebygol iawn fyddai Llywodraeth Cymru yn cyllido hyn gan nad yw'r niferoedd yn hyfyw. Er hynny efallai gellir ei gyllido o ffynonellau eraill.	Bydd – gweler isod
Ysgol Llandegfan				
Xix	6.2.1	Gadael pethau fel maen nhw	Ni ellir cadw pethau fel y maen nhw	Na
Xx	6.2.2	Ffedereiddio gydag ysgol(ion) arall/eraill		Bydd – gweler isod
Xxi	6.2.3	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol	Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwaith cynnal a chadw yn unig.	Na
Xxii	6.2.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwaith adnewyddu.	Bydd – gweler isod
Xxiii	6.2.5	Cau Ysgol Beaumaris, trosglwyddo'r plant i Ysgol Llandegfan		Bydd – gweler isod
Ysgol Llangoed				
Xxiv	6.3.1	Gadael pethau fel maen nhw	Ni ellir cadw pethau fel y maen nhw	Na
xxv	6.3.2	Ffedereiddio gydag ysgol(ion) arall/eraill		Bydd – gweler isod
Xxvi	6.3.3	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol	Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwaith cynnal a chadw yn unig.	Na
Xxvii	6.3.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido gwaith adnewyddu.	Bydd – gweler isod
Xxviii	6.3.5	Adeiladu estyniad, cau Ysgol Beaumaris a		Bydd – gweler isod

		throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed	
xxix	6.4.1	Adeiladu ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed	Bydd – gweler isod

Ystyrir pwyntiau xii, xiv, xv, xvi, xvii, xviii, xx, xxii, xxiii, xxv, xxvii, xxviii ac xxix ymhellach yn yr adroddiad hwn.

I grynhoi felly, mae 20 opsiwn ar ôl sef:

1. Cau Ysgol Llangoed a symud y disgyblion i Ysgol Beaumaris ac ehangu Ysgol Llandegfan
2. Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio
3. Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.
4. Ystyried ysgol fawr yn agos at Borthaethwy
5. Lleihau Ysgol Biwmares
6. Ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan
7. Ymestyn Ysgol Llangoed, cau Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed
8. Ffedereiddio [Ysgol Beaumaris] gydag ysgol(ion) arall/eraill
9. Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol [Beaumaris]
10. Cau [Ysgol Beaumaris] a throsglwyddo'r disgyblion a disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llandegfan
11. Cau [Ysgol Beaumaris] a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llangoed
12. Ymestyn Ysgol Beaumaris, ac Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris
13. Lleihau arwynebedd Ysgol Beaumaris o 2028 m² i tua 1070m²
14. Ffedereiddio [Ysgol Llandegfan] gydag ysgol(ion) arall/eraill
15. Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol [Llandegfan]
16. Cau Ysgol Beaumaris, trosglwyddo'r plant i Ysgol Llandegfan
17. Ffedereiddio [Ysgol Llangoed] gydag ysgol(ion) arall/eraill
18. Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol [Llangoed]
19. Adeiladu estyniad [ar Ysgol Llangoed], cau Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed
20. Adeiladu ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed

Er bod nifer o randdeiliaid wedi dweud nad oedd yr Awdurdod wedi crybwyll y Cynllun Datblygu ar y Cyd (JLDP), roedd y ddogfen ymgynghori anstatudol yn trafod yr angen posib am dai ychwanegol yn ardal Seiriol.

Ar gyfer ysgolion cynradd ardal Seiriol, ystyriwyd effaith posib tai newydd yn ystod y cyfnod 2018-2026 (cyfnod y Cynllun Datblygu ar y Cyd (JLDP)) yn nalgylch pob ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol. Byddai hyn yn helpu deall beth fyddai'r twf ychwanegol tebygol yn y dalgylch.

Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi nifer y datblygiadau tai (sy'n seiliedig ar y Cynllun Datblygu ar y Cyd (JLDP)) gyda 0.17, ceir amcangyfrif o nifer y disgyblion ychwanegol fydd eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol honno dros y cyfnod dan sylw.

	Nifer tai	Nifer plant
Llandegfan	33	6
Beaumaris	80	14
Llangoed	46	8
	159	28

O ystyried y llefydd gweigion yn yr ysgolion, gweler bydd lle i'r disgyblion yn Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llangoed ond bydd Ysgol Llandegfan yn parhau i fod yn llawn neu'n orlawn dros y blynyddoedd nesaf.

5. YMATEBION O YSGOL BEAUMARIS

- 5.1 Derbyniwyd 131 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol yn ogystal a deiseb electronig roedd 271 wedi ei llofnodi (gweler rhan 5.4 isod) a deiseb ar bapur roedd 272 wedi ei llofnodi (gweler rhan 5.5 isod)
- 5.2 Roedd 81 (62%) o'r ymatebion ar ffurf llythyr safonol oedd yn gofyn i unigolion "wrthwynebu'n gryf unrhyw gynigion a fyddai'n arwain at gau Ysgol Gynradd Beaumaris". Gweler copi o'r llythyr safonol yn [Atodiad 2](#).
- 5.3 O ran gweddill yr ymatebion, roedd yr ymatebion ar y ffurf ganlynol:
Llythyr - 35 ymateb (27%)
Ffurflen – 9 ymateb (7%)
E-bost – 6 ymateb (5%)
- 5.4 Derbyniwyd deiseb electronig ac erbyn 20 Medi 2017, roedd 272 wedi ei llofnodi.. Roedd rhai o'r rai lofnododd y ddeiseb wedi anfon ymateb i'r ymgynghori yn ogystal. Roedd y ddeiseb yn gofyn i gadw Ysgol Beaumaris ar agor a bod y llofnodwyr yn "gwrthwynebu unrhyw gynnig fyddai'n golygu cau Ysgol Gynradd Beaumaris".
- 5.5 Yn ogystal, derbyniwyd deiseb ar bapur "i wrthwynebu cau Ysgol Gynradd Beaumaris" ac i "wrthwynebu'n gryf unrhyw gynnig a fyddai'n arwain at gau Ysgol Gynradd Beaumaris". Roedd 272 o lofnodion ar y ddeiseb. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar Fedi 26 2017.

- 5.6 O ran yr holl ymatebion, barn 26 ymatebydd (20%) oedd mai ysgol yw calon y gymuned / yn holl bwysig i'r gymuned ac y byddai'r dref yn dioddef petai'r ysgol yn cau a bod yr ysgol yn dod a'r gymuned at ei gilydd.
- 5.7 Roedd 25 ymatebydd (19%) o'r farn na fyddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd i symud i'r ardal ac y byddai cau Ysgol Beaumaris yn "niweidio" neu "lladd y gymuned".
- 5.8 Effaith posib arall o gau Ysgol Beaumaris yn ôl 17 ymatebydd (13%) yw byddai'r gymuned yn heneiddio ac y byddai'n arwain at fwy o dai gwyliau yn y dref. Effaith posib arall cau'r ysgol yn ôl 9 ymatebydd (7%) yw na fyddai plant yn gallu cerdded i'r ysgol ac y byddai hyn yn gwaethygu'r broblem o ordewdra. Roedd 6 ymatebydd (5%) o'r farn fod "pob tref angen ysgol" neu'n "haeddu ysgol gynradd". Os bydd Ysgol Beaumaris yn cau, barn 8 ymatebydd (6%) oedd na fyddai'r rhieni yn danfon eu plant i Langoed.
- 5.9 Roedd 11 ymatebydd (8%) yn amheus o'r ffigurau cynnal a chadw am yr ysgol a grybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori ac roedd un ymatebydd yn gofyn sut oedd cysoni hyn gydag adroddiad Estyn yn 2014 oedd yn dweud fod cyflwr yr adeilad yn dda. Roeddent hefyd yn teimlo fod yr Awdurdod wedi esgeuluso'r ysgol a bod hyn wedi arwain at yr ôl groniad uchel.
- 5.10 Effaith posib arall o gau Ysgol Beaumaris yn ôl 6 ymatebydd (5%) yw "byddai cau'r ysgol yn rhwystro swyddi / cyflogaeth rhag dod i Beaumaris" neu'n "effeithio ar fusnesau".
- 5.11 Roedd 7 ymatebydd (5%) o'r farn fod angen mwy o dai fforddiadwy yn Beaumaris a bod "angen teuluoedd a phobl ifanc" ar y dref.
- 5.12 Gweler isod sylwadau eraill dderbyniwyd a'r nifer o ymatebwyr oedd yn cyflwyno neu gytuno gyda'r sylw:

Sylw	Nifer	%
Cefnogi Opsiwn 6.1.8	10	8%
Adeilad hyfryd, golygfeydd / digon mawr i 200	4	3%
Cau arwain at fwy o deithio / mwy o straen ar ysgolion eraill	4	3%
Angen denu mwy o deuluoedd ifanc	3	2%
Lonydd allan o Beaumaris yn annibynadwy / mynd a phlant rhywle arall / ddim ar fws	3	2%
Sut pigo plant i fyny os nad gyrru	3	2%
Angen ysgol i dref lewyrchu, bydd cau yn arwain at golli pobl	3	2%
Cau yn effeithio ar blant a'r amgylchedd cymdeithasol / hawl gan blant i gael ei addysgu	3	2%
Mwy o ail gartrefi / effaith ar brisiau tai	3	2%
Cau Ysgol Llangoed a symud y plant i Ysgol Beaumaris	3	2%
Dogfen wedi ei gogwyddo tuag at gau Beaumaris	2	2%
Wedi colli darpariaethau e.e. Banciau, Post, carchar a llys dan fygythiad	2	2%
Angen mwy o wybodaeth ar TGY	2	2%
Sibrydion fod yr ysgol yn cau yn tanseilio'r Playgroup / ei ddyfodol	2	2%
Ailfodelu'r ysgol yn lle TGY / meddwl gellid cael hyd i bres i adnewyddu'r ysgol	2	2%

Poblogaeth a plant yn cynyddu	2	2%
Cefnogi Opsiwn 6.1.2	2	2%
Cefnogi Opsiwn 6.4.1	2	2%
Cau ddim yn gwneud y dref yn ddeniadol	1	1%
Defnyddio ystafelloedd gwag at bethau eraill;	1	1%
Amau niferoedd plant	1	1%
Toriadau yn fyrweledol ac yn arwain at amddifadedd	1	1%
Cefnogi'r Band Pres	1	1%
Ddim yn gweld fod y Cyngor yn meddwl yn gydlynus	1	1%
Pam adeiladu TGY ar ôl cau cartrefi'r henoed o'r blaen	1	1%
Yn barod, 3 stad i'r henoed yn Beaumaris	1	1%
Dymuniadau'r plant	1	1%
Lleoliad yr ysgol newydd posib?	1	1%
A oes strategaeth leol i ddenu gwaith / busnesau, angen plant a rhieni ifanc i gael cymdeithas weithgar?	1	1%
Beth am AAA	1	1%
Colli ysbryd cymunedol	1	1%
Rhannu'r gymuned	1	1%
Efallai symud o Beaumaris os ddim ysgol yno	1	1%
Dim tai fforddiadwy yn Beaumaris felly wedi symud oddi yno	1	1%
Pam mynd a phlant allan o Beaumaris	1	1%
Dylai CSYM fuddsoddi yn y cymunedau	1	1%
Wedi penderfynu yn barod	1	1%
Plant angen ysgol leol	1	1%
Bydd plant yn poeni lle i fynd	1	1%
Bydd rhai yn mynd i ysgol gwahanol i'w ffrindiau	1	1%
Cau Llangoed, gwerthu'r tir a'i ddefnyddio ar gyfer tai fforddiadwy	1	1%
Mewnbwn staff?	1	1%
Dim gofal plant yn Beaumaris wedyn?	1	1%
Gyrru teuluoedd i ffwrdd	1	1%
Cyfeillgarwch gyda phlant eraill yn cael ei ffurfio yn yr ysgol	1	1%
Adfer Ysgol Gynradd Beaumaris	1	1%
Cau Beaumaris a ffedereiddio Llandegfan a Llangoed	1	1%
Am barhau i archwilio opsiynau i alluogi YGB i aros ar agor	1	1%

- 5.13 Derbyniwyd llythyr gan Is-gadeirydd y Llywodraethwyr. Gweler ei sylwadau yn [Atodiad 3](#).
- 5.14 Roedd llythyr gan y Pennaeth Mewn Gofal yn gefnogol i leihau arwynebedd yr ysgol er mwyn "iddi barhau ar y safle a phob pentref arall yn cael cadw eu hysgol". Gweler sylwadau'r Pennaeth Mewn Gofal yn [Atodiad 4](#).
- 5.15 Gofynnwyd am farn ymatebwyr ar yr opsiynau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori anstatudol. Roedd rhai ymatebwyr o blaid mwy mag un opsiwn:

Rhif yr Opsiwn (yn y ddogfen ymgyngori)	Opsiwn	Nifer	%
6.1.1	Gadael pethau fel y maent	1	1%
6.1.2	Ffedereiddio gydag ysgol(ion) arall/eraill	4	4%
6.1.3	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol	0	0%
6.1.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	0	0%
6.1.5	Cau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan	0	0%
6.1.6	Cau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed	0	0%
6.1.7	Ymestyn Ysgol Beaumaris, cau Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris	0	0%
6.1.8*	Lleihau arwynebedd Ysgol Beaumaris o 2028m ² i tua 1070m ² i gymryd	4	4%

NODER - Petai opsiwn 6.1.8 yn digwydd, byddai lle i rywfaint o dai gofal ychwanegol tu ôl i'r ysgol. Er hynny, byddai'r safle yn brysur iawn a felly'n beryglus yn ystod y cyfnod adeiladu. Ar gyngor swyddogion diogelwch sy'n annibynnol o'r Awdurdod, byddai angen gwacau'r ysgol a lleoli disgyblion Ysgol Beaumaris ar safle arall am y cyfnod adeiladu sef o leiaf blwyddyn. Byddai hyn yn gost ychwanegol i'r Awdurdod.

- 5.16 O ran barn yr ymatebwyr am y ddwy ysgol arall dan ystyriaeth, roedd 2 ymatebydd (2%) o du Ysgol Beaumaris o blaid opsiwn 6.2.2 sef ffedereiddio Ysgol Beaumaris gydag ysgol(ion) eraill sef Llandegfan yn yr achos yma
- 5.17 Roedd 2 ymatebydd (2%) o du Ysgol Beaumaris o blaid opsiwn 6.2.2 sef ffedereiddio Ysgol Beaumaris gydag ysgol(ion) eraill sef Llangoed yn yr achos yma
- 5.18 Ceir darpariaeth Feithrin ar y safle sy'n ariannol annibynnol o'r ysgol a'r awdurdod ond sy'n aelod o Gymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru (CDCC neu WPPA). Gweler eu sylwadau yn [Atodiad 5](#).
- 5.19 Derbyniwyd lythyr gan Gyngor Tref Beaumaris. Roedd y Cyngor yn bleidiol o ddatrysiad fyddai'n cadw'r dair ysgol. Gweler ei sylwadau yn [Atodiad 6](#).
- 5.20 Derbyniwyd lythyr gan dri aelod etholedig y ward. Roedd y 3 aelod yn dweud fod "angen dybryd ar yr ardal am fwy o dai cymdeithasol ac am gynllun corfforaethol ar gyfer De Ddwyrain Môn" ac am "strategaeth ymroddedig i roi cyfle i'r ardal ffynnu yn gymdeithasol ac yn economaidd". Yn ogystal, roeddent yn gofyn i "gadw'r dair ysgol ar draws y ward ac i fuddsoddi ynddynt". Gweler eu sylwadau yn [Atodiad 15](#).

6. YMATEBION O YSGOL LLANDEGFAN

- 6.1 Derbyniwyd 20 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol.
- 6.2 Roedd yr ymatebion ar y ffurf ganlynol:
Llythyr - 7 ymateb (35%)
Llythyr safonol - 0 ymateb (0%)
Ffurflen ymateb – 10 ymateb (50%)
E-bost – 3 ymateb (15%)
- 6.3 Roedd 10 o'r rhai a ymatebodd (50%) yn datgan eu cefnogaeth am opsiwn 6.2.1 sef "Gadael pethau fel y maent". Roedd y 4 yn dweud fod angen mwy o le ar yr ysgol ar gyfer nifer cynyddol o blant.
- 6.4 Nid oedd un o'r ymatebwyr o blaid ffedereiddio. Er hynny, roedd 2 ymatebydd (10%) o blaid opsiwn 6.2.3 sef " Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol" a roedd 2 ymatebydd (10%) o blaid opsiwn 6.2.4 sef " Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol".
- 6.5 Roedd 4 ymatebydd (20%) o blaid opsiwn 6.2.5 sef "Cau Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan". Gweler isod grynhoad o ymatebion o du Ysgol Llandegfan:

Rhif yr Opsiwn (yn y ddogfen ymgyngori)	Opsiwn	Nifer	%
6.2.1	Gadael pethau fel y maent	10	50%
6.2.2	Ffedereiddio gydag ysgol(ion) eraill	0	0%
6.2.3	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol	2	10%
6.2.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	2	10%
6.2.5	Cau [Ysgol Beaumaris] a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan	4	20%

- 6.6 Nid oedd cefnogaeth ymhlith yr ymatebwyr i opsiwn 6.2.2 sef ffedereiddio Ysgol Llandegfan gydag ysgol gynradd arall.
- 6.7 Gweler sylwadau'r Pennaeth ar ran y staff yn [Atodiad 7](#).
- 6.8 Gweler sylwadau Cadeirydd y Llywodraethwyr yn [Atodiad 8](#).
- 6.9 Ceir dwy ddarpariaeth Feithrin ar y safle - mae un yn cael ei redeg gan y Cylch Meithrin a'r llall gan Gymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru (CDCC neu WPPA). Mae'r ddwy yn ariannol annibynnol o'r ysgol a'r awdurdod. Gweler sylwadau Pwyllgor y Cylch Meithrin ac Arweinydd y Cylch Meithrin yn [Atodiadau 9 ac 10](#).
- 6.10 O ran yr opsiynau sy'n ymwneud a'r ddwy ysgol arall dan ystyriaeth, roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi opsiynau eraill fel y dangosir yn y tabl isod:

Rhif yr Opsiwn (yn y ddogfen ymgynghori)	Ysgol dan sylw	Opsiwn	Nifer	%
6.1.1	Beaumaris	Gadael pethau fel y maent	1	5%
6.1.3	Beaumaris	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol	1	5%
6.1.5	Beaumaris	Cau a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llandegfan	2	10%
6.1.6	Beaumaris	Cau a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llangoed	7	35%
6.3.1	Llangoed	Gadael pethau fel y maent	1	5%
6.3.4	Llangoed	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	3	15%
6.3.5	Llangoed	Adeiladu estyniad, cau Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed	1	5%

Nid oedd cefnogaeth i opsiwn 6.4.1 sef adeiladu ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac ysgol Llangoed nac am unrhyw opsiwn arall.

- 6.11 Derbyniwyd llythyr gan dri aelod etholedig y ward. Roedd y 3 aelod yn dweud fod “angen dybryd ar yr ardal am fwy o dai cymdeithasol ac am gynllun corfforaethol ar gyfer De Ddwyrain Môn” ac am “strategaeth ymroddedig i roi cyfle i'r ardal ffynnu yn gymdeithasol ac yn economaidd”. Yn ogystal, roeddent yn gofyn i “gadw'r dair ysgol ar draws y ward ac i fuddsoddi ynddynt”. Gweler eu sylwadau yn [Atodiad 15](#).

7. YMATEBION O YSGOL LLANGOED

- 7.1 Derbyniwyd cyfanswm o 50 o ymatebion gan randdeiliaid.

Rhif yr Opsiwn (yn y ddogfen ymgynghori)	Opsiwn	Nifer	%
6.3.1	Gadael pethau fel y maent	5	10%
6.3.2	Ffedereiddio gydag ysgol(ion) arall / eraill	2	4%
6.3.3	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol	1	2%
6.3.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	10	20%
6.3.5	Adeiladu estyniad, cau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed	9	18%

- 7.2 Roedd yr ymatebion ar y ffurf ganlynol:
 Llythyr - 32 ymateb (64%)
 Llythyr safonol - 0 ymateb (0%)
 Ffurflen ymateb – 13 ymateb (26%)
 E-bost – 5 ymateb (10%)

O ran yr opsiynau sy'n ymwneud a'r ddwy ysgol arall dan ystyriaeth ysgolion eraill, roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi opsiynau eraill fel y dangosir yn y tabl isod:

Rhif yr Opsiwn (yn y ddogfen ymgynghori)	Ysgol dan sylw	Opsiwn	Nifer	%
6.1.1	Beaumaris	Gadael pethau fel y maent	3	6%
6.1.5	Beaumaris	Cau a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llandegfan	4	8%
6.1.6	Beaumaris	Cau a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llangoed	7	14%
6.1.8	Beaumaris	Lleihau arwynebedd Ysgol Beaumaris o 2028 m ² i tua 1070m ² i gymryd	4	8%
6.2.1	Llandegfan	Gadael pethau fel y maent	6	12%
6.2.3	Llandegfan	Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol	1	2%
6.2.4	Llandegfan	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol	1	2%

- 7.3 Nid oedd cefnogaeth i opsiwn 6.4.1 sef adeiladu ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed nac am unrhyw opsiwn arall. Dywedodd un rhanddeiliad na ellir “cyfiawnhau'r gost cyfalaf yma” o gwbl.
- 7.4 Roedd nifer (10 ymatebydd, 20%) yn crybwyll y ffaith fod nifer o'r disgyblion yn cerdded i'r ysgol a bod hyn yn lleihau allyriadau carbon
- 7.5 Teimlad rhai (3 ymatebydd, 6%) oedd bod ardal Seiriol / “cornel de ddwyrain Môn” yn colli gwasanaethau fel mae pethau ac yn “isel ar restr” y Cyngor Sir. Er hynny, eu gobaith oedd y byddai'r ysgol yn aros ar agor. Ond pe byddai'r ysgol yn cau, roedd un ymatebydd (2%) yn holi beth fyddai'r Awdurdod yn ei wneud o ran adeiladau gwag ac y byddai hynny'n arwain at deuluoedd yn symud allan o'r ardal ac felly byddai poblogaeth y dref yn mynd yn hŷn.
- 7.6 Roedd 2 ymatebydd (4%) o blaid cau Ysgol Beaumaris ac i'r disgyblion “fynd i'r ddwy ysgol arall” ac i'r ysgolion hyn “gael eu gwella”.
- 7.7 Dywedodd 2 ymatebydd (4%) fod y tai fforddiadwy yn Llangoed yn golygu fod angen cefnogaeth i'r pentref i dyfu. Barn un rhanddeiliad arall oedd dylid gwella'r parcio o gwmpas yr ysgol a'r “drop-off”.
- 7.8 Canmolodd 2 ymatebydd arall (4%) yr ysgol tra dywedodd 2 ymatebydd arall (4%) byddai cau Ysgol Llangoed yn groes i'r Ddeddf Llesiant 2015.
- 7.9 Barn 5 ymatebydd (10%) oedd bod Ysgol Llangoed yn allweddol i gadw'r “Iaith Gymraeg i fynd” a byddai'n “ddisynnwyr a thu hwnt i amgyffred rhywun i gau Ysgol Llangoed o ystyried nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050”.
- 7.10 Yn **Atodiad 11**, gweler sylwadau aelod etholedig lleol gylchredwyd yn lleol. Datganodd 8 ymatebydd (16%) eu cefnogaeth o'r pwyntiau yn y llythyr.

- 7.11 Derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd y Llywodraethwyr. Gweler y llythyr yn **Atodiad 12**.
- 7.12 Yn ogystal, derbyniwyd llythyrau gan ddwy lywodraethwraig yn yr ysgol. Gweler eu sylwadau yn **Atodiadau 13 ac 14**.
- 7.13 Derbyniwyd llythyr gan dri aelod etholedig y ward. Roedd y 3 aelod yn dweud fod “angen dybryd ar yr ardal am fwy o dai cymdeithasol ac am gynllun corfforaethol ar gyfer De Ddwyrain Môn” ac am “strategaeth ymroddedig i roi cyfle i’r ardal ffynnu yn gymdeithasol ac yn economaidd”. Yn ogystal, roeddent yn gofyn i “gadw’r dair ysgol ar draws y ward ac i fuddsoddi ynddynt”. Gweler eu sylwadau yn **Atodiad 15**.

8. YMATEBION ERAILL

- 8.1 Er nad oes rheidrwydd statudol ar yr Awdurdod i ymgynghori’n anstatudol, yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Ranbarthol sef GWe;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol David Hughes.

9. DADANSODDIAD OPSIYNAU

Yn y cyfarfodydd ymgynghori ac yn ystod gweddill y cyfnod ymgynghori, cyflwynwyd yr awgrymiadau canlynol yn y tabl sy’n awgrymu newidiadau posib i’r cyfluniad presennol:

- Sefydlu ysgol gyfrwng Cymraeg yn Biwmares, a’r ddwy arall yn ddwyieithog, fel ysgol Y Garnedd
- Lleihau Ysgol Biwmares / cael ysgol newydd iddi?
- Ystyried system drydyddol.
- Ystyried ysgol fawr yn agos at Borthaethwy

Mae’r dadansoddiad opsiynau yn canolbwyntio ar y 9 opsiwn a amlinellwyd, sef rhai oedd yn y ddogfen ymgynghori ac eraill gododd yn ystod yr ymgynghori. Rhestrir yr opsiynau isod:

Opsiwn	Rhif yn y ddogfen ymgynghori anstatudol	
1	-	Cau Ysgol Llangoed a symud y disgyblion i Ysgol Beaumaris ac ehangu Ysgol Llandegfan
2	-	Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio
3	-	Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.
4	-	Ystyried ysgol fawr yn agos at Borthaethwy
5	-	Lleihau Ysgol Biwmares
6		Ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llandegfan
7		Ymestyn Ysgol Llangoed, cau Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed
8	6.1.2	Ffedereiddio [Ysgol Beaumaris] gydag ysgol(ion) arall/eraill
9	6.1.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol [Beaumaris]
10	6.1.5	Cau [Ysgol Beaumaris] a throsglwyddo'r disgyblion a disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llandegfan
11	6.1.6	Cau [Ysgol Beaumaris] a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Beaumaris i Ysgol Llangoed
12	6.1.7	Ymestyn Ysgol Beaumaris, ac Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Beaumaris
13	6.1.8	Lleihau arwynebedd Ysgol Beaumaris o 2028 m ² i tua 1070m ²
14	6.2.2	Ffedereiddio [Ysgol Llandegfan] gydag ysgol(ion) arall/eraill
15	6.2.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol [Llandegfan]
16	6.2.5	Cau Ysgol Beaumaris, throsglwyddo'r plant i Ysgol Llandegfan
17	6.3.2	Ffedereiddio [Ysgol Llangoed] gydag ysgol(ion) arall/eraill
18	6.3.4	Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol [Llangoed]
19	6.3.5	Adeiladu estyniad [ar Ysgol Llangoed], cau Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed
20	6.4.1	Adeiladu ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed

Gwerthusir pob un o'r opsiynau hyn a'u sgorio allan o 10 yn erbyn y gyrwyr newid a amlinellir isod.

1. Codi safonau addysgol
2. Lleihau nifer llefydd gweigion
3. Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl
4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib
5. Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch
6. Cynyddu capasiti arweinyddol
7. Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol
8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
9. Ffactorau daearyddol a theithio
10. Costau
11. Argaeledd tir

Mae'r gwerthusiadau cyffredinol yn cael eu cyflwyno yn yr adran ganlynol. Mae angen ystyried y sylwadau canlynol ochr yn ochr â'r sylwadau canlynol.

- Gellir dosbarthu rhai o'r ysgolion dan sylw fel ysgolion bach h.y. ysgolion sydd a llai na 100 o ddisgyblion megis Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llangoed. Os yw nifer y disgyblion all-ddalgylch yn cael eu hystyried, yna mae nifer y disgyblion lleol yno yn is sydd yn golygu nad yw cynnal ysgolion o'r maint yma yn gynaliadwy.
- Gwyddys fod materion parcio yn broblemus mewn rhai o'r ysgolion cynradd dan sylw. Bydd angen i unrhyw ail-gyflunio mynd i'r afael â hyn.
- Yn rhai o'r cyfarfodydd, nododd rhanddeiliaid y byddai cau unrhyw ysgol yn cael effaith sylweddol posib ar y pentref neu'r dref.
- Cododd effaith posib ad-drefnu ar faint dosbarthiadau yn cynyddu ym mhob un o'r cyfarfodydd. Mae angen ei ystyried ochr yn ochr â'r ymateb a ddarparwyd yn y cyfarfodydd sef y byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod maint dosbarthiadau yn aros islaw disgwyliadau Ll.C.

Cyflwynir dadansoddiad manwl ar gyfer pob un o'r opsiynau a nodir yn y rhan isod.

Noder - Os gweithredir opsiwn sy'n golygu cyfuno disgyblion o ddwy ysgol neu fwy, mae'r dalgylch newydd yn debygol o fod yn ddalgylch cyfunol. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod yr hawl a'r pwerau i newid dalgylchoedd ysgolion. Gellir newid y rhain yn dilyn gweithredu unrhyw argymhelliad neu argymhellion fydd yn deillio o'r ymgynghoriad.

Opsiwn 1:

Cau Ysgol Llangoed a symud y disgyblion i Ysgol Beaumaris ac ehangu Ysgol Llandegfan

Tudalen 142

Rhif	Gyrrwr	Meini Prawf o fewn y gyrrwyr	Sylwebaeth	Sgôr.
1.	Codi safonau addysgol	<p>Maint ysgol [100 neu fwy]</p> <p>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau</p> <p>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill</p> <p>Lleihau nifer dosbarthiadau oedrannau cymysg sydd gyda mwy na 2 grŵp oed.</p> <p>Codi safonau ymhellach</p>	<p>Byddai gan Ysgol Beaumaris tua 120-130 o blant. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran helaeth o'r wythnos. Ni fuasai'r ysgol yn ffurfio uwch dim rheoli i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.</p> <p>Byddai hyd at 4 ystafell ddosbarth yn yr ysgol fyddai yn ei dro yn cynnig rhywfaint o gyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinwyr ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.</p> <p>Efallai byddai dosbarthiadau oedran cymysg mwy na dau oedran yn yr ysgolion ar wahân i'r posibilrwydd o gyfuno grwpiau oedran ar gyfer cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Rhagwelir byddai ysgolion o'r maint hyn yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol fyddai yn ei dro yn arwain a chodi safonau ar draws yr ystod gallu.</p>	7
2.	Lleihau nifer llefydd gweigion	<p>Cyfraniad at leihau llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod fel bod llefydd gweigion yn 15% yn yr Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol</p> <p>Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn</p>	<p>Mewn ysgol gynradd newydd i tua 120-130 o ddisgyblion, rhagwelir byddai 13-23 o lefydd gweigion ond byddai'n sicrhau fod yr ysgol rhwng 84% a 91% llawn. Byddai hyn yn sicrhau bod llefydd yn yr ysgol i'r plant yn ôl y rhagolygon. Os gadewir pethau fel mae nhw, byddai llefydd gweigion ar draws yr ardal yn parhau yn gymharol uchel. Felly byddai'r opsiwn hwn yn lleihau llefydd gweigion. Arweiniad Llywodraeth Cymru yw y dylid cynllunio ar gyfer 10% o lefydd gweigion. Os byddai'r opsiwn hwn yn cael ei wireddu, byddai llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod tua 9%. Un risg i hyn fyddai penderfyniad rhai rhieni i ddewis ceisio am le mewn ysgolion y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd.</p>	6

3.	Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl	Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y pen yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod. Hyn yn arwain at arbedion cyllidol gan hefyd defnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon	Byddai sefydlu ysgol gynradd newydd o'r maint yma yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal. Fe fyddai hefyd yn lleihau cost cyfartalog i fod yn is na cyfartaledd yr Awdurdod sef £4,109 am 2016/17. Byddai arbedion gros blynyddol o gwmpas £112,000	8
4.	Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib	Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau o fewn yr adeilad ac allan Mannau chwarae addas Ardaloedd staffio a gweinyddu priodol Cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf.	Ni fyddai llawer o newid yn yr amgylchedd dysgu. Buasai'r cyfleusterau dosbarth yn debyg i'r presennol. Ni fyddai newid yn y manau chwarae ar gyfer disgyblion o wahanol oedran. Byddai swyddfeydd ar gyfer y Pennaeth a staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA'r athrawon yn debyg i'r hyn sydd yno ar hyn o bryd. Buasai'r rhwydwaith TGCh yn debyg i'r hyn sydd yno ar hyn o bryd.	6
5.	Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch	Cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar lefel yr ardal. Materion iechyd a diogelwch- 1. diogelwch mynediad i'r safle a'r adeilad 2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr 3. Cyffredinol	Byddai cynyddu'r niferoedd yn Ysgol Beaumaris yn lleihau'r ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu trefn i sicrhau bod cynnal a chadw cyfnodol yn cael sylw priodol. Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn sicrhau bod materion diogelwch yr adeilad yn cael sylw. Byddai'r dyluniad yn rhoi sylw priodol i drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant/cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw priodol i faterion yn ymwneud a pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer man gollwng addas ar gyfer bysiau.	7
6.	Cynyddu capasiti arweinyddol	Capasiti'r ysgol i ddarparu amser digyswllt digonol. Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli.	Byddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran helaeth o'r wythnos. Ni fyddai'r ysgol yn ffurfio uwch dim rheoli i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.	2

7.	Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol	Darpariaeth cyn ac ôl-ysgol e.e. clybiau brecwast, clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant. Gweithgareddau haf a phenwythnos Darpariaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol.	Fe fyddai'r cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol ac unrhyw weithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol. Fe fyddai'r adnoddau parhau i fod yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol e.e. neuadd o faint digonol ar gyfer gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo gan y Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau cadw'n heini.	5
8.	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.	Byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw benodiadau i'r ysgol newydd yn gwbl ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref sydd wedi'i osod yn yr ardal yn gyfredol mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. Er hynny, byddai Ysgol Beaumaris yn parhau i fod yn ysgol ddwyieithog	6
9.	Ffactorau daearyddol a theithio	Pellter teithio. Cyfeiriad teithio Costau cludiant	Byddai cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Beaumaris yn cynyddu pellter ac amser teithio ar gyfer nifer o blant. Byddai nifer y plant sydd yn gallu cerdded i'r ysgol yn lleihau. Mae'n bosib hefyd byddai cyfeiriad teithio i'r ysgol newydd yn gallu bod yn groes i gyfeiriad teithio'r rheini i'r gwaith. Fe fyddai costau cludiant yn uwch na'r rhai cyfredol.	4
10.	Costau		Cost i CSYM ei gyllido, Cost blynyddol y benthyciad, costau cludiant, costau diswyddo ac o bosib costau cyfrifioldebau ychwanegol i ryddhau pennaeth newydd	3
11.	Argaeledd tir		Mae'r tir a'r ysgol ar gael yn barod	10
	Cyfanswm			64

Opsiwn 2: Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio

Rhif	Gyrrwr	Meini Prawf o fewn y gyrrwr	Sylwebaeth	Sgôr.
1.	Codi safonau addysgol	<p>Maint ysgol [100 neu fwy]</p> <p>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau</p> <p>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill</p> <p>Lleihau nifer dosbarthiadau oedrannau cymysg sydd gyda mwy na 2 grŵp oed.</p> <p>Codi safonau ymhellach</p>	<p>Amcangyfrifir byddai tua 170 o blant yn Ysgol Llandegfan. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle na fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos ac efallai byddai dirprwy bennaeth. Gallai'r ysgol ffurfio uwch dim rheoli i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.</p> <p>Amcangyfrifir byddai gan Ysgol Llangoed tua 95 o blant. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos ond byddai pennaeth cynorthwyol yn parhau yno. Byddai'r uwch dim rheoli yn parhau i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.</p> <p>Byddai o leiaf 6 ystafell ddosbarth yn y naill a 4 yn y llall yn yr ysgol fyddai yn ei dro yn cynnig rhywfaint o gyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinwyr ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.</p> <p>Efallai byddai dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgolion ar wahân i'r posibilrwydd o gyfuno grwpiau oedran ar gyfer cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Rhagwelir byddai ysgolion o'r maint hyn yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol fyddai yn ei dro yn arwain a chodi safonau ar draws yr ystod gallu.</p>	7
2.	Lleihau nifer llefydd gweigion	<p>Cyfraniad at leihau llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod fel bod llefydd gweigion yn 15% yn yr Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol</p> <p>Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn</p>	<p>Rhagwelir byddai llefydd gweigion yn llai na 5% yn y ddwy fyddai'n sicrhau fod yr ysgolion dros 90% llawn. Byddai hyn yn sicrhau bod llefydd yn yr ysgol i'r plant yn ôl y rhagolygon. Arweiniad Llywodraeth Cymru yw y dylid cynllunio ar gyfer 10% o lefydd gweigion. Os byddai'r opsiwn hwn yn cael ei wireddu, byddai llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod tua 9%. Un risg i hyn fyddai penderfyniad rhai rhieni i ddewis ceisio am le mewn ysgolion y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd.</p>	6

3.	Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl	Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y pen yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod. Hyn yn arwain at arbedion cyllidol gan hefyd defnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon	Byddai sefydlu ysgol gynradd newydd o'r maint yma yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal. Fe fyddai hefyd yn lleihau cost cyfartalog i fod yn is na cyfartaledd yr Awdurdod sef £4,109 am 2016/17. Byddai arbedion gros blynyddol o gwmpas £112,000	8
4.	Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib	Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau o fewn yr adeilad ac allan Mannau chwarae addas Ardaloedd staffio a gweinyddu priodol Cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf.	Byddai gwelliant yn yr amgylchedd dysgu a'r cyfleusterau dosbarth. Ni fyddai newid yn y manau chwarae ar gyfer disgyblion o wahanol oedran. Byddai swyddfeydd ar gyfer y Pennaeth a staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA'r athrawon yn debyg i'r hyn sydd yno ar hyn o bryd. Buasai'r rhwydwaith TGCh yn debyg i'r hyn sydd yno ar hyn o bryd.	7
5.	Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch	Cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar lefel yr ardal. Materion iechyd a diogelwch- 1. diogelwch mynediad i'r safle a'r adeilad 2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr 3. Cyffredinol	Byddai opsiwn hwn yn Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed yn lleihau'r ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu trefn i sicrhau bod cynnal a chadw cyfnodol yn cael sylw priodol. Byddai'n gwella materion diogelwch yn y ddwy ysgol. Byddai'r dyluniad yn rhoi sylw priodol i drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant/cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw priodol i faterion yn ymwneud a pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer man gollwng addas ar gyfer bysiau.	9
6.	Cynyddu capasiti arweinyddol	Capasiti'r ysgol i ddarparu amser digyswllt digonol. Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli.	Yn Ysgol Llandegfan, ni fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos ac efallai byddai dirprwy bennaeth yno. Gallai'r ysgol ffurfio uwch dim rheoli i arwain ar yr addysgu a'r dysgu. O ran Ysgol Llangoed, byddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran helaeth o'r wythnos ond byddai'r pennaeth cynorthwyol yn parhau. Byddai'r ysgol yn parhau efo'r uwch dim rheoli i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.	9

7.	Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol	Darpariaeth cyn ac ôl-ysgol e.e. clybiau brecwast, clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant. Gweithgareddau haf a phenwythnos Darpariaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol.	Fe fyddai'r cyfleusterau yn Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol ac unrhyw weithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol. Fe fyddai'r adnoddau parhau i fod yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol e.e. neuadd o faint digonol ar gyfer gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo gan y Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau cadw'n heini.	5
8.	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.	Byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw benodiadau i'r ysgol newydd yn gwbl ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref sydd wedi'i osod yn yr ardal yn gyfredol mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. Er hynny, byddai Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed yn parhau i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.	10
9.	Ffactorau daearyddol a theithio	Pellter teithio. Cyfeiriad teithio Costau cludiant	Byddai cau Ysgol Beaumaris yn cynyddu pellter ac amser teithio ar gyfer nifer o blant. Byddai nifer y plant sydd yn gallu cerdded i'r ysgol yn lleihau. Mae'n bosib hefyd byddai cyfeiriad teithio i'r ysgol newydd yn gallu bod yn groes i gyfeiriad teithio'r rheini i'r gwaith. Fe fyddai costau cludiant yn uwch na'r rhai cyfredol.	4
10.	Costau		Cost i CSYM ei gyllido, Cost blynyddol y benthyciad, costau cludiant, costau diswyddo ac o bosib costau cyfrifioldebau ychwanegol i ryddhau pennaeth newydd. Efallai fyddai ffedereiddio yn y dyfodol yn arwain at fwy o arbedion.	4
11.	Argaeledd tir		Mae'r tir a'r ysgol ar gael yn barod	10
	Cyfanswm			79

Opsiwn 3: Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd

Tudalen 148

Rhif	Gyrrwr	Meini Prawf o fewn y gyrrwr	Sylwebaeth	Sgôr.
1.	Codi safonau addysgol	<p>Maint ysgol [100 neu fwy]</p> <p>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau</p> <p>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill</p> <p>Lleihau nifer dosbarthiadau oedrannau cymysg sydd gyda mwy na 2 grŵp oed.</p> <p>Codi safonau ymhellach</p>	<p>Amcangyfrifir byddai tua 170 o blant yn Ysgol Llandegfan. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle na fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos ac efallai byddai dirprwy bennaeth. Gallai'r ysgol ffurfio uwch dim rheoli i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.</p> <p>Amcangyfrifir byddai gan Ysgol Llangoed tua 95 o blant. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos ond byddai pennaeth cynorthwyol yn parhau yno. Byddai'r uwch dim rheoli yn parhau i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.</p> <p>Byddai o leiaf 6 ystafell ddosbarth yn y naill a 4 yn y llall yn yr ysgol fyddai yn ei dro yn cynnig rhywfaint o gyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinwyr ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.</p> <p>Efallai byddai dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgolion ar wahân i'r posibilrwydd o gyfuno grwpiau oedran ar gyfer cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Rhagwelir byddai ysgolion o'r maint hyn yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol fyddai yn ei dro yn arwain a chodi safonau ar draws yr ystod gallu.</p>	7
2.	Lleihau nifer llefydd gweigion	<p>Cyfraniad at leihau llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod fel bod llefydd gweigion yn 15% yn yr Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol</p> <p>Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn</p>	<p>Rhagwelir byddai llefydd gweigion yn llai na 5% yn y ddwy fyddai'n sicrhau fod yr ysgolion dros 90% llawn. Byddai hyn yn sicrhau bod llefydd yn yr ysgol i'r plant yn ôl y rhagolygon. Arweiniad Llywodraeth Cymru yw y dylid cynllunio ar gyfer 10% o lefydd gweigion. Os byddai'r opsiwn hwn yn cael ei wireddu, byddai llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod tua 9%. Un risg i hyn fyddai penderfyniad rhai rhieni i ddewis ceisio am le mewn ysgolion y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd.</p>	6

3.	Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl	Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y pen yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod. Hyn yn arwain at arbedion cyllidol gan hefyd defnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon	Byddai sefydlu ysgol gynradd newydd o'r maint yma yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal. Fe fyddai hefyd yn lleihau cost cyfartalog i fod yn is na cyfartaledd yr Awdurdod sef £4,109 am 2016/17. Byddai arbedion gros blynyddol o gwmpas £112,000	8
4.	Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib	Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau o fewn yr adeilad ac allan Mannau chwarae addas Ardaloedd staffio a gweinyddu priodol Cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf.	Byddai'r ysgol gynradd estynedig yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Buasai'r cyfleusterau newydd yn cynnwys ystafell(oedd) dosbarth o faint digonol, golau naturiol da, toiledau o safon dda ac yn agos at y dosbarthiadau ayb. Cynllunnir go gyfer ardaloedd addysgu a dysgu tu allan i'r dosbarthiadau. Byddai angen sicrhau manau chwarae pwrpasol ar gyfer disgyblion o wahanol oedran. Ni fyddai llawer o newid yn swyddfeydd ar gyfer y Pennaeth a staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA'r athrawon. Ni fyddai llawer o newid o ran rhwydweithio gydag adnoddau TGCh yn integredig yng nghynllun pob ystafell ddosbarth.	7
5.	Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch	Cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar lefel yr ardal. Materion iechyd a diogelwch- 1. diogelwch mynediad i'r safle a'r adeilad 2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr 3. Cyffredinol	Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau'r ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu trefn i sicrhau bod cynnal a chadw cyfnodol yn cael sylw priodol. Byddai materion diogelwch yr adeilad yn cael sylw priodol. Byddai'r dyluniad yn rhoi sylw priodol i drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant/cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw priodol i faterion yn ymwneud a pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer man gollwng addas ar gyfer bysiau.	8
6.	Cynyddu capasiti arweinyddol	Capasiti'r ysgol i ddarparu amser digyswllt digonol. Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli.	Yn Ysgol Llangoed, byddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran helaeth o'r wythnos ond byddai pennaeth cynorthwyol yn parhau yno. Byddai'r uwch dim rheoli yn parhau i arwain ar yr addysgu a'r dysgu.	2

7.	Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol	Darpariaeth cyn ac ôl-ysgol e.e. clybiau brecwast, clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant. Gweithgareddau haf a phenwythnos Darpariaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol.	Fe fyddai'r cyfleusterau yn yr ysgol estynedig yn parhau i fod addas ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol ac unrhyw weithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol. Er hynny, byddai'r opsiwn hwn yn golygu colli 1 adeilad ysgol fel adnodd cymunedol. Fe fyddai'r adnoddau hefyd yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol e.e. neuadd o faint digonol ar gyfer gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo gan y Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau cadw'n heini.	5
8.	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.	Byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw benodiadau i'r ysgol newydd yn gwbl ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref sydd wedi'i osod yn yr ardal yn gyfredol mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog.	10
9.	Ffactorau daearyddol a theithio	Pellter teithio. Cyfeiriad teithio Costau cludiant	Byddai cau Ysgol Beaumaris yn cynyddu pellter ac amser teithio ar gyfer y plant sydd yno. Byddai nifer y plant sydd yn gallu cerdded i'r ysgol yn lleihau. Mae'n bosib hefyd byddai cyfeiriad teithio i'r ysgol newydd yn gallu bod yn groes i gyfeiriad teithio'r rheini i'r gwaith. Fe fyddai costau cludiant yn uwch na'r rhai cyfredol.	4
10.	Costau		Cost i CSYM ei gyllido, Cost blynyddol y benthyciad, costau cludiant, costau diswyddo ac o bosib costau cyfrifoldebau ychwanegol i ryddhau pennaeth newydd	7
11.	Argaeledd tir		Byddai angen prynu tir i ymestyn yr ysgol	10
	Cyfanswm			73

10. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Ceir manylion ariannol yn y tabl isod:-

Opsiwn	Cost cyfalaf	Arbedion refeniw	Costau cludiant	Arbedion net	Derbynion cyfalaf	Cost net y prosiect	Cost i'w gyllido	Cost blynyddol
1	£1,671,000	£61,474	£26,000	£35,474	£364,000	£1,307,000	£471,500	£20,416
2	£1,330,000	£112,000	£27,000	£85,000	£342,000	£988,000	£323,000	£13,986
3	£1,330,000	£112,000	£27,000	£85,000	£342,000	£988,000	£323,000	£13,986
4 a 20	£7,300,000	£133,000	£83,000	£50,000	£1,394,000	£5,906,000	£2,256,000	£97,685
5	£200,000	£0	£0	£31,000	£0	£200,000	£100,000	£4,330
6	£1,671,000	£150,063	£83,000	£67,063	£706,000	£965,000	£129,500	£5,607
7	£1,400,000	£174,721	£110,000	£64,721	£1,030,000	£370,000	£0	£0
8	£0	£39,000	£0	£39,000	£0	£0	£0	£0
9	£971,000	£0	£0	£0	£0	£971,000	£485,500	£21,022
10	£700,000	£112,000	£27,000	£85,000	£342,000	£358,000	£8,000	£346
11	£630,000	£109,000	£26,000	£83,000	£342,000	£288,000	£0	£0
12	£2,620,000	£42,000	£135,000	£-93,000	£1,052,000	£1,568,000	£258,000	£11,171
13	£200,000	£31,000	£0	£31,000	£0	£200,000	£100,000	£4,330
14	£0	£15,000	£0	£15,000	£0	£0	£0	£0
15	£38,000	£0	£0	£0	£0	£38,000	£19,000	£823
16	£700,000	£112,000	£27,000	£85,000	£342,000	£358,000	£8,000	£346
17	£0	£21,000	£0	£21,000	£0	£0	£0	£0
18	£107,000	£0	£0	£0	£0	£107,000	£53,500	£2,317
19	£630,000	£109,000	£26,000	£83,000	£342,000	£288,000	£0	£0
4 a 20	£7,300,000	£133,000	£83,000	£50,000	£1,394,000	£5,906,000	£2,256,000	£97,685

Crynoir y sgoriau yn y tabl isod:

	Newydd							Beaumaris						Llandegfan			Llangoed			Newydd
Gyrwyr	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	19	20
1. Codi safonau addysgol	7	7	7	10	2	10	10	2	2	6	7	10	2	6	6	6	3	3	6	10
2. Lleihau nifer y llyfdd gweigion	6	6	6	6	4	6	6	4	4	6	6	6	4	6	6	6	6	6	6	6
3. Lleihau'r amrywiaeth mewn cost y disgybl	8	8	8	8	2	8	8	8	6	8	8	8	2	6	6	8	8	6	8	8
4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib	6	7	7	10	6	7	7	6	7	7	7	7	6	6	7	7	6	6	7	10
5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch	7	9	9	10	7	8	8	6	8	8	8	8	7	6	8	8	6	8	8	10
6. Cynyddu capasiti arweinyddiaeth	2	9	9	10	2	10	10	2	2	5	2	8	2	2	2	8	2	2	2	10
7. Defnydd cymunedol o'r adeilad	5	5	5	4	7	4	4	7	7	5	5	4	7	7	7	5	7	7	5	4
8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	6	10	10	10	5	10	10	5	5	10	10	10	5	8	8	10	6	8	10	10
9. Ffactorau daearyddol a theithio	4	4	4	3	8	3	2	7	7	4	4	2	8	7	7	4	7	7	4	3
10. Costau	3	4	4	0	8	7	7	7	6	6	9	3	8	9	9	6	7	8	7	0
11. Argaeledd tir	10	10	10	0	10	0	0	10	10	10	10	0	10	10	10	10	10	10	10	0
Cyfanswm	64	79	79	71	61	73	72	64	64	75	76	66	61	73	76	78	68	71	73	71

Y pwyntiau sydd wedi sgorio uchaf yw:

1. Opsiwn 2 - Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffedereiddio (79 pwynt)
2. Opsiwn 3 - Cau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni i anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt)

Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan swyddogion ac aelodau etholedig, awgrymir y dylai'r opsiwn dewisol fod yn seiliedig ar gau Ysgol Beaumaris a rhoi dewis i'r rhieni cyfredol i ddatgan dewisiad a chael mynediad i naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod Lleol a Chod Mynediad i Ysgolion Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, argymhellir y dylid adolygu'r dalgylchoedd cyfredol yn ward Seiriol. Yn drydydd, dylid ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan yn y dyfodol.

Felly, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, awgrymir mai geiriad y cynnig i'w ymgynghori arno yw:

- Cau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Beaumaris, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion, ac i :
- Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
- Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac
- Ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

11. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

1. Weithredu'r argymhelliad yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol:
2. Awdurdodi swyddogion Dysgu Gydol Oes i fynd allan i ymgynghori'n statudol ar y cynnig dan sylw, h.y.
 - Cau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Beaumaris, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion, ac i :
 - Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
 - Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac
 - Ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

Ysgolion Cynradd yr Unfed Ganrif ar Hugain

Mae'n debygol bydd unrhyw ysgol newydd yn Ysgol Gynradd yn yr Unfed Ganrif. Mae Cyngor Môn yn ystyried ysgol gynradd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain fel un sy'n gallu darparu'r canlynol:

Cyfleusterau Addysgu a Dysgu

Mannau addysgu addas sy'n cynnwys digon o:

- Ystafelloedd dosbarth sydd o faint addas gydag ymdeimlad o ofod a golau (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Cyfleusterau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys ardaloedd tu allan (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Mannau ymarferol arbenigol, gan gynnwys ardal ar gyfer gweithgareddau technoleg a chelfyddydol
- Offer TGCh modern
- Cyfleusterau storio digonol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Mynediad i ystafell adnoddau dysgu (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Ystafelloedd llai ar gyfer grwpiau llai e.e. targedu ac A.A.A.
- Man dysgu yn yr awyr agored ar dir yr ysgol
- Neuadd ysgol a chyfleusterau ciniawa ac o faint priodol. (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu). Gan ddibynnu ar faint yr ysgol, gall hyn fod yn neuadd ysgol defnydd deuol. Efallai y bydd angen lloriau sbring ar gyfer neuaddau ysgol defnydd deuol. Byddai angen storfa pwrpasol i'r byrddau bwyta.

Cyfleusterau Cymunedol

Yn gallu darparu ystod o wasanaethau yn y gymuned yn ystod oriau ysgol, naill ai trwy ardaloedd a rennir neu ardaloedd pwrpasol. Dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnydd cymunedol eang gan gadw diogelu plant yn flaenoriaeth.

Cyfleusterau Chwarae

- Ardal laswelltrog breifat a diogel o faint digonol ar dir yr ysgol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Man chwarae caled (iard ysgol) o faint digonol ar gyfer capasiti'r ysgol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)

Ardaloedd Staff a Gweinyddu

- Ystafell(oedd) athrawon
- toiledau ar wahân i staff
- ardal waith i staff (CPA)
- swyddfa'r Pennaeth
- swyddfa Ysgrifennydd / Weinyddol
- ystafell Archwiliadau Meddygol neu Ystafell ar gyfer cleifion
- ystafell Adnoddau / llungopio
- ystafell gyfweld

Cyffredinol

- Adeiladau ysgol mewn cyflwr ardderchog ac yn cael eu cadw ar y lefel hon.
- Sicrhau bod mynediad ar gael i bobl anabl i'r ystod lawn o gyfleusterau
- Adeilad(au) diogel:
 - Sydd â derbynfa gydag arwyddion i ddynodi ei lleoliad
 - Y gellir eu cloi yn ystod y dydd gyda mynediad i ardaloedd a ddefnyddir gan blant trwy un pwynt mynediad a reolir
 - Gyda ffens ddiogel o gwmpas y safle ond sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus i gaeau chwarae y tu allan i oriau ysgol a system larwm lladron
 - Gyda llecyn wedi ei ffensio/amgáu ar gyfer gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen
 - Gyda chamerâu goruchwyllo - mewnol ac allanol
 - Yn cyrraedd safonau rheoliadau adeiladu sy'n gyffredol ar adeg adeiladu'r ysgol
 - Gyda systemau canfod tân a systemau chwistrellu
 - Sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) fel bod yr holl adeilad yn hygyrch i bawb.
 - Mynediad ar wahân i gerbydau a cherddwyr
 - Man troi / 'gollwng' ar gyfer bysus (lle bo'n briodol)
 - Llecyn diogel i gadw beiciau
 - Llefydd parcio digonol ble mae hynny'n bosib
 - Ni fydd unrhyw ystafelloedd dosbarth symudol neu leoedd dysgu dros dro yn rhan o ysgol newydd
 - Bod nifer briodol o ystafelloedd ymolchi / toiledau / ystafelloedd cotiau ar gyfer disgyblion
 - Dylid cynnwys y dechnoleg adnewyddadwy lle'n briodol e.e. tyrbinau gwynt, paneli solar/ffotofoltaig, cyfleusterau ailgylchu, pypiau gwres daear a / neu fwyleri tanwydd pren i sicrhau y cydymffurfir â safonau BREEAM er mwyn lleihau ôl-troed carbon.
 - Dylai pob cyfeiriad at safonau maint / gofod gydymffurfio â'r canllawiau arwynebedd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sydd yn y Bwletin Adeiladu priodol.

Atodiad 2

Enw
Cyfeiriad
Côd post

Gorffennaf 2017

Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion)
Adran Dysgu Gydol Oes,
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Syr/ Madam,

PAR: Ymgynghoriad anffurfiol ar yr ysgolion cynradd yn ardal Seiriol, 27 Mehefin 2017

Rwy'n ysgrifennu mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad anffurfiol uchod. Yr wyf yn ymwybodol o'r ddogfen ac yn dymuno gwrthwynebu'n gryf i unrhyw gynneg a fyddai'n arwain at gau'r ysgol gynradd yn Biwmares.

Rwy'n credu ei bod yn hollbwysig bod Biwmares yn cadw ei ysgol gynradd oherwydd

Bydd hyn yn bendant yn cael effaith ar y gymuned oherwydd

Felly, gofynnaf i Gyngor Sir Ynys Môn wrthod y cynneg hwn a darganfod ateb fydd ddim yn niweidiol i ddyfodol Biwmares.

Yn gywir.

Enw



26 Gorffennaf 2017

Annwyl Syr/Madam

Adolygiad Ysgolion Cynradd yn ardal Seiriol

Dymunwn dynnu eich sylw at y canlynol:

1. A allwch chi egluro'r hyn a olygir gan gynlluniau ar gyfer cyfleusterau gofal cymdeithasol yn yr ardal, sut mae'r cynlluniau hynny yn effeithio ar y penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Gynradd Beaumaris?
2. Tynnwyd sylw i'ch materion cynnal a chadw bob blwyddyn, pam y caniatawyd yr Ôl-Groniad Cynnal a Chadw i gyrraedd £ 971,000? Yn Adroddiad Estyn 2014 mae'n nodi "Mae'r adeilad a'r tiroedd o gwmpas yr ysgol mewn cyflwr da".
3. a) Nodir cost adeiladu estyniad i Ysgol Gynradd Llangoed fel £ 630,00,000 Ysgol Gynradd Llandegfan yn £ 700,000 a allwch chi esbonio pam y byddai'r gost i ymestyn Ysgol Gynradd Beaumaris yn £ 2.2 miliwn?
b) Pam y byddai angen estyniad ar Ysgol Gynradd Beaumaris pan adeiladwyd adeilad yr ysgol i ddarparu ar gyfer 260 o ddisgyblion?
4. Os oedd YGB yn cau beth yw'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad?
5. A roddwyd ystyriaeth i'r ffaith y gallai adeiladu / cwblhau Wylfa Newydd gael effaith ar niferoedd disgyblion yn ward Seiriol? Ar hyn o bryd y duedd yw bod niferoedd disgyblion yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gwyddom fod cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol yn y flwyddyn ysgol 2017/18.
6. Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at ostyngiad yn ardal Ysgol Gynradd Beaumaris, esboniwch beth mae hyn yn ei olygu?
7. Mae ymgynghoriad ar Dai Gofal Ychwanegol, sut y byddai'r datblygiad hwn yn effeithio ar Ysgol Gynradd Beaumaris?
8. Ystyried effaith iechyd a lles y plant, i'w symud ymhell oddi cartref a ffrindiau.



Is-Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Beaumaris

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
Gorffennaf 21ain 2017

Rheolwr Rhaglen(Dysgu Gydol Oes)

Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Mon

LL77 7TW

Annwyl Syr,

Rwyf yn ysgrifennu'r llythyr yma fel ymateb i Ymgynghoriad Anstatudol Ardal Seiriol. Ar ol darllen yr adroddiad fe allaf ddeall yn iawn pam fod angen newid yn yr ardal fel lleihau nifer gweigion, gwariant yn ol disgybl ac i ryw raddau codi safonau.

O edrych ar fanylion Ysgol Biwmares mae'n amlwg ei bod yn ysgol helaeth ac yn rhestredig. Dylid yn fy marn i gofio pam y mae hi'n gofrestredig – y gyntaf o'i math ar yr ynys i gymeryd plant meithrin yn 1951, yn arloesol yn ei dysgu yn y cyfnod yma ac yn dangos agweddau pensaernïol arbennig ac felly angen eu cadwar gyfer y dyfodol. O ran hanes addysg Mon felly mae'n holl bwysig ei chadw fel ysgol. Dylech fel awdurdod fod yn ymfalchio yn hyn nid ceisio ei chau.

Mae'r lleoedd gweigion yn gryn bryder i mi hefyd ac wrth gwrs mae'n rhaid ymateb i hyn. Un syniad yw y gellir eu lleihau drwy adleoli disgyblion y ddwy ysgol arall yma. Yn wir mae digonedd o le ac anodd yw credu fod angen gwario £2.6 miliwn i wneud hynny. Yma yn y dref mae digonedd o gyfleusterau ar gyfer addysg – y traeth, castell, y llys, y cwrt, Bad Achub, Y Ganolfan. ... mae'r rhain i gyd ar garreg ein drws ni. Hefyd bydd cylch Ti a Fi, Clwb ar ol Ysgol a fydd yn cymeryd mantais o addysg plant 3 oed.

Nid yw'r syniad uchod yn dilyn yr hyn mae Kirsty Williams eisiau. Fe fyddai'r syniad o haneru arwynebedd yr ysgol yn golygu y byddai cyfle i'r ysgol barhau ar y safle a phob pentref arall yn cael cadw eu hysgol. Hyn fyddai orau i dref Biwmares – ysgol yn parhau yma ac o ystyried fod nifer y disgyblion yn cynyddu ac o feddwl am y dyfodol dyma'r ateb gorau. Byddai rhannu safle a Thai Gofal yn dda ond rhaid cael mwy o wybodaeth amdan hyn gyntaf. Byddai plant yn elwa o fod a chyswllt a henoed a henoed yn bendant yn elwa o fod a phlant. Roeddem ar un adeg mewn cyswllt da a Chanolfanyr Henoed oedd ar dir yr ysgol.

Dylid yma feddwl paham mae nifer y disgyblion wedi lleihau. Rhiad edrych ar yr hyn mae'r Cyngor Sir wedi'i wneud I ddatblygu'r dref o ran tai. Nid oes tai fforddadwy wedi'i hadeiladu I rieni ifanc yma o gwbl. Rhaid I'r cyngor ystyried hyn. Pam ddim adeiladu tai fforddadwy ar dir yr ysgol?

Yn groes i'r uchod mae nifer y disgyblion yn cynyddu'n raddol – mae gennym o leiaf 12 disgybl wedi cofrestru yn y Derbyn flwyddyn nesaf a 10 yn y meithrin. Mae ystadegau'n dangos hefyd fod nifer o fabanod yn y dref ond byddai tai fforddadwy yn eu cadw yma ac o bosibl yn denu mwy.

Agweddau eraill sydd angen sylw o ddarllen y ddogfen yw yr ochr yr adeiladau. Mae'n adeilad sylweddol gyda Neuadd a Neuadd ginio, dosbarthiadau mawr gyda digonedd o olau a drws I fynd allan o bob dosbarth ond un. Yn ol un o'r swyddogion dyma un o rinweddau yr ysgolion newydd. Yma yn Biwmares ers 1951. Dywedodd Estyn yn yr arolwg ddiwethaf yn 2014 fod cyflwr yr adeilad yn dda, Felly anodd yw credu'r gost o bron i filiwn i adnewyddu'r ysgol. Sut fedrwch chi gyfiawnhau gwario £700 000 ar roi estyniad I Ysgol Llandegfan neu £630 000 Llangoed? Hefyd beth yw'r cyfiawnhad o roddi cost o £ 2.6 miliwn ar estyniad i Biwmares pryd mae digonedd o le yma'n barod (246 o blant) Wrth gwrs byddai rhaid adnewyddu ond nid ar gost o £2.6 miliwn!

Pe byddai dim un o'r syniadau uchod o gadw ysgol yn y dref yn bosibl yna rwyf yn hollol yn erbyn eu symud I Langoed neu Llandegafan. Gwell fyddai adeiladu ysgol newydd ar safle fyddai'n niwtral I'r dair ysgol.

Rwyf yn gobeithio y gwnewch ystyried pob opsiwn ac ystyried o ddifrif am addysg I ddisgyblion Biwmares yn Ysgol Biwmares.

Yn gywir iawn



Pennaeth mewn gofal Ysgol Biwmares.

GR ŴP CHWARAE LITTLE PUFFINS



26tb Gorffennaf, 2017

Annwyl Syr/Madam,

**Par. Ymgynghoriad anffurfiol ar yr ysgolion
cynradd yn ardal Seiriol, 27 Mehefin 2017**

Rydym yn ysgrifennu mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad anffurfiol uchod. Yr ydym yn ymwybodol o'r ddogfen ac yn dymuno mynegi ein dadleuon cryf yn erbyn unrhyw gynig a fyddai yn arwain at gau ysgol gynradd Beaumaris. Teimlwn nad yw ein darpariaeth wedi cael ei gynnwys na'i ystyried yn ddyledus yn yr ymgynghoriad hwn ac nid yw'n cael ei grybwyll yn unrhyw le yn y dogfennau

Yn ystod y cyflwyniad anffurfiol gan staff gan eich adran, diystyriwyd y farn gan Little Puffins gan nad oedd y plant yn cael eu hystyried yn berthnasol tan 5 oed ac mewn addysg amser llawn. Mae ein derbyniad eleni yn cyfateb i'r rhai yn y plant sy'n mynychu Cylch Chwarae Llandegfan ac eto roedd eu hystadegau wedi'u cynnwys yn y dogfen ymgynghori. Pam?

Rydym yn aelodau o Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (CDCC) ac yn elusen gofrestredig.

Rydym yn cael ei fonitro gan yr AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Safonau Cymdeithasol Cymru) ac Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)

Mae Adran Addysg Ynys Môn wedi bod yn darparu, ers tua 2009, ein lleoliad gyda grant a chefnogaeth i Athro Cyfnod Sylfaen o'r Tîm y Blynyddoedd cynnar. Mae'n hollbwysig bod Ysgol Biwmares yn parhau i fod yn agored ac yn weithredol ar gyfer Little Puffins i barhau i ddarparu'r gwasanaeth. Mae ein staff wedi bod ar yr holl Hyfforddiant Sylfaenol ers dechrau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi'n llawn ac mae ganddynt lawer

Atodiad 5

o flynyddoedd o brofiad yn gweithio gyda plant. Mae llawer o amser ac arian wedi cael ei wario gan y cyngor mewn hyfforddiant ac ariannu ein Cylch Chwarae.

Yn Little Puffins, mae'r plant rhwng 3 a 4 oed, sydd hefyd yn mynychu'r dosbarth Meithrin yn y prynhawn, yn cael eu cymryd drwy'r ysgol i'r Dosbarth Meithrin i'w trosglwyddo. Trosglwyddir unrhyw broblemau neu ddigwyddiadau neu wybodaeth berthnasol i'r Athro Meithrin. Mae'r cyswllt hwn rhwng y lleoliadau yn sicrhau pontio llyfn i'r plant fel bod trefn gyfarwydd wedi'i sefydlu. Mae'r plant wedyn yn hyderus ac yn gyfforddus gyda'r staff a'r amgylchoedd gan sicrhau bod modd trosglwyddo'n hawdd o addysg rhan amser i addysg amser llawn ym mis Medi.

Felly, gofynnwn i Gyngor Sir Ynys Môn wrthod y cynnig hwn a darganfod ateb na fydd yn niweidiol i ddyfodol Biwmares.

Yn gywir,

Staff Grŵp Chwarae Little Puffins



**TOWN HALL/NEUADD Y DREF, CASTLE STREET/STRYD Y CASTELL,
BEAUMARIS, ANGLESEY/YNYS MON LL58 8AP**

TOWN CLERK/CLERC Y DREF:

25 Gorffennaf 2017

YMGYNGHORI YSGOLION SEIRIOL

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ar gynlluniau ar gyfer addysg gynradd yn ward Seiriol. Y Mae'r Cyngor Tref wedi trafod eich dogfen ac yn dymuno ei gwneud hi'n glir eu bod yn gwrthwynebu'r cau unrhyw un o'r tair ysgol yr effeithir arnynt. Mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i greu cydlyniant cymunedol ac ni fyddai'r cyngor eisiau gweld hynny a gollwyd ar gyfer unrhyw un o'r aneddiadau yr effeithir arnynt.

Roedd y Cynghorwyr am wneud rhai pwyntiau penodol:

1. Cydnabyddir yn eang bod cau ysgol yn cael effaith negyddol ar gymuned. Dyma pam y mae diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys a rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw Biwmares yn cael ei ddsbarthu fel ysgol wledig yn ôl y cod arfaethedig, fodd bynnag, mae'n ysgol mewn cymuned gymharol fach sy'n gwasanaethu cefnwlod gwledig. O dan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae Biwmares yn a nodwyd fel Canolfan Gwasanaethau Lleol. Mae'r canolfannau o'r fath yn cael eu cydnabod gan y cynllun fel y'u darperir ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu poblogaethau eu hunain a'u heiddo dalgylchoedd. Goblygiad y dynodiad hwn yw datblygiad sy'n gwella dylid annog gallu'r canolfannau hyn i wasanaethu eu dalgylch. Y corollary yw y byddai lleihau gwasanaethau (hy cau'r ysgol ym Miwmares) yn niweidio a gallu'r ganolfan gwasanaeth leol i wasanaethu ei bwrpas ac felly dylid ei annog. Byddai cynlluniau i gau ysgol Biwmares yn hedfan yn wyneb bwriadau'r lleol cynllun datblygu a thanseilio ei gyflwyno.

2. Mae ysgolion yn rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud cymuned yn teimlo fel cymuned ac yn rhoi mae'n werth. Mae cymuned Biwmares dan fygythiad. Nifer gynyddol o wyliau cartrefi a llety gwyliau yn

Atodiad 6

gwthio pobl leol allan o'r dref ac oddi wrthynt teuluoedd a rhwydweithiau cefnogi. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gymuned yn y dref dan fygythiad ac yn peryglu tanseilio bywiogrwydd y dref yn ystod y flwyddyn. Byddai cau'r ysgol yn risg gan gyflymu'r broses hon a rhoi risg i bopeth sy'n tanategu Biwmares fel cyrchfan twristiaeth llwyddiannus a chynaliadwy

3. Amcangyfrifir bod cost ysgol uwch newydd i wasanaethu'r ardal yn £ 7 miliwn. Pryd Cwblhawyd yr arbedion refeniw amcangyfrifedig yw dim ond £ 53,000. Gyda chyfnod talu drosodd 100 mlynedd mae hyn yn anodd fel buddsoddiad da o arian cyhoeddus ar adeg pan fo'r cyhoedd mae gwariant o dan bwysau. Ymagwedd arall o ffedereiddio'r tair ysgol o dan un pennaeth ynghyd â gostyngiad yn maint Ysgol Biwmares (ac yn rhyddhau lle ar gyfer y cyfleuster gofal ychwanegol arfaethedig) yn arbed tua £ 71,000. Gan ystyried y byddai hyn yn gofyn am ollyngiad cyfalaf cyfyngedig mae'n cynrychioli llawer gwell gwerth am arian tra nad yw'n cael effaith negyddol ar blant Biwmares.

4. Tra'n derbyn nad yw dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn dosbarthu Ysgol Biwmares fel gwledig, mae Biwmares yn eistedd mewn ardal wledig. Mae Ynys Môn ei hun yn sir wledig. Gwneud cais meini prawf sy'n gweddu i amgylchedd trefol (ardaloedd cywasgedig â chludiant cyhoeddus gwell a llai pellteroedd rhwng ysgolion presennol) yn briodol yn ward Seiriol. Byddai'n well i trin pob un o'r tair ysgol fel pe baent yn holl ysgolion gwledig.

5. Rhaid ystyried effaith Wylfa B ar boblogaeth Ynys Môn. Mae'n debyg y bydd rhywfaint o fewnlif o bobl ac er y bydd llawer yn cael eu lleoli yng ngogledd y gogledd ynys bydd rhai yn edrych i fyw yn y Biwmares. Yn wir, y Cydgynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio datblygiad tai tuag at Fiwmares (yn hytrach na'r pentrefi cyfagos). Bydd angen y tai ychwanegol hyn (neu yn fwy arbennig y teuluoedd a fydd yn eu meddiannu) cyfleusterau addysg.

6. Mae Cyngor y Dref yn croesawu'r posibilrwydd bod y Cyfleuster Gofal Ychwanegol ar gyfer Seiriol gellid lleoli ward yn y dref. Fodd bynnag, nid oes angen safle'r ysgol gyfan ar gyfer cyfleuster. Mae'n eithaf ymarferol cadw'r ysgol, efallai ei fod yn llai o faint ac yn defnyddio gweddill ardaloedd o'r safle ar gyfer y cyfleuster newydd. Byddai ymagwedd o'r fath yn cyd-fynd yn dda â'r Cyd-Leol Bwriad strategol y Cynllun Datblygu o gefnogi, datblygu a gwella rôl Canolfannau Gwasanaethau Lleol.

7. Rhaid i unrhyw benderfyniad am ddyfodol yr ysgol ystyried yr iechyd hirdymor a lles anghenion y disgyblion. Mae cyngor y dref o'r farn gadarn bod angen y rhain yn cael eu diwallu orau gan ysgol yn y dref. Y manteision o allu cerdded i'r ysgol yn ogystal mae integreiddio'r ysgol gyda'r gymuned yn rhy dda i'w golli. Y manteision hyn fydd wedi'i wella gan gadw tri ysgol gymunedol yn y ward, gyda phob un wedi ei gwreiddio'n gadarn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

I grynhoi, mae'r Cyngor Tref yn ffafrio ateb sy'n cadw'r tair ysgol. O gofio'r angen i arbed costau ateb ffederal gyda phen a rennir a rhai adnoddau a rennir (e.e. athrawon arbenigol) yn cynnig ffordd gost effeithiol o ddarparu cymuned dda seiliedig ar addysg gynradd. Gwelir manteision dull o'r fath ym maes iechyd a lles disgyblion ward Seiriol ac yn iechyd a lles y cymunedau a wasanaethir.

Yr eiddoch yn gywir


Clerc y Dref



YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN
LLANDEGFAN, YNYS MON, LL59 5UW
Ffôn[Tel: 01248 713431 Fax: 01248 715468
E-bost/Email: [REDACTED]
Pennaeth / Headteacher: [REDACTED]

Annwyl Reolwr Rhaglen,

Gorffennaf 19eg, 2017

Yn dilyn cyfarfodydd Ymgynghori Anstatudol ar Addysg yn Ward Seiriol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Llandegfan, ysgrifennaf ar ran staff yr ysgol yn nodi eu barn a'u teimladau clir hyn a nodir yn y ddogfen ac awgrymiadau o ran opsiynau sydd yn cael eu cynnig ar gyfer y ward.

Er yn cydnabod fod angen edrych ar foderneiddio yn gyffredinol ar draws addysg, y teimlad unfrydol o ran y staff yw fod y sefyllfa o fewn ein hysgol ni yn gryfder sydd wedi eu selio ar sawl ffactor sef:

- Mae rhifau disgyblion Ysgol Llandegfan wedi bod yn sefydlog ers blynyddoedd maith, ac erbyn hyn dros ei chapasiti (145 o ddisgyblion eleni yn codi i 150 ym mis Medi 2017). Mae'r ysgol ar ei thyfiant a mae rhagolygon a phatrwm hanesyddol o ran niferoedd yn dyst i hynny. Credwn fod y ffaith i'r ysgol fod yn llawn i'w chapasiti yn adlewyrchiad o'r addysg a'r cyfleon sydd yn cael eu cynnig yma yn Ysgol Llandegfan. Mae data fod 37% o ddisgyblion all-ddalgylch yn cael ei ddefnyddio yn y ddogfen fel elfen o risg, ond i'r gwrthwyneb, mae'r ffaith fod rhieni yn dewis i ddod a'u plant i'r ysgol yn siarad cyfrolau o ran beth a gynigir yma.
- Cydnabyddir safonau uchel yr ysgol yn yr adroddiad gan ESTYN a pherfformiad yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal i'r safonau uchel hyn mae llwyddiant yr ysgol o fewn sawl maes e.e. chwaraeon/perfformio, yn rhoi cyfleon i ddisgyblion i dyfu yn ddisgyblion cyflawn sydd yn cael profiadau gwerthfawr.
- Mae'r ysgol yn gonglfaen i'r gymuned yma'n Llandegfan. Mae'n chwarae rôl bwysig o dynnu'r gymuned at ei gilydd drwy achlysuron amrywiol megis Eisteddfod Llandegfan, Ras Hwyl y Pentref yn ogystal a sawl achlysur arall. Heb sefydliad addysgol o fewn y pentref credir y buasai'n cael effaith niweidiol ar fywyd y pentref a'r gymuned. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n fawr i fywyd y pentref o ran yr iaith Gymraeg ac yn falch o'r effaith addysgol drwy gadw'r iaith yn y gymuned.
- safbwynt yr opsiynau sydd yn cael eu crybwyll yn ymwneud a Ysgol Llandegfan hoffwn nodi yr isod:

- Cadw'r ysgol fel ag y mae neu addasu yr ysgol i ychwanegu at ei chapasiti — dyma yw opsiynau o'n dewis o ran addysg yma yn Llandegfan. Credwn fod cyfleon i addasu yr adeilad ac ychwanegu ati ynghyd a datblygu'r adeilad presennol ymhellach i gyd fynd a gofynion ysgolion 2lganrif. Drwy hyn y buasai addysg a safonau uchel yn parhau yn yr ardal a'r posibilrwydd o gynnig addysg i fwy o ddisgyblion o fewn yr ardal. Mae cyflwr yr adeilad fel a nodir yn yr adroddiad yn dda ac o ran ochr gyllidol mi fuasai'n gost effeithlon i ymestyn a moderneiddio yr ysgol fel adeilad.
- Ysgol Ardal - nid ydym o blaid ysgol ardal yn ward Seiriol. Credir os buasai Ysgol Ardal yn cael ei adeiladu yn nghanol y ward yna credir ni fuasai teuluoedd o Landegfan / Borth sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn.o bryd yn ystyried cludo eu plant i ganol y ward. Tebygolrwydd y sefyllfa y buasai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion agosach i'r fir mawr.
- Ffederaleiddio - credwn gyda Ysgol maint Ysgol Llandegfan fod angen pennaeth llawn amser i arwain a rheoli yn effeithiol. Mi fuasai sefyllfa o rannu pennaeth rhwng ysgolion yn bwysau mawr ar y drefn arwain a rheoli a fydd yn cael effaith ar eraill o fewn yr ysgol. Mae safonau cadarn yr ysgol wedi ei selio ar dim rheoli effeithiol.

Fel yr ysgol fwyaf yn ward Seiriol mae'r sefyllfa a'r trafodaethau hyn yn peri pryderon am beth sydd ar y gweill yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod, ac yn ymwybodol o'r pryderon wrth barhau gyda'r trefniant presennol, ond ar y llaw arall yn credu'n ddiamheuol bod dyfodol yr ysgol yn hynod bwysig gan ei bod yn cynnig cymaint i'w disgyblion a'i chymuned fel y nodir yn glir yn yr adroddiad o ran addysg, darpariaeth ac adeilad.

Hoffem fel staff yr ysgol nodi fod cyfraniad yr ysgol hon i'r ardal leol a'i chymuned yn amhrisiadwy a dymunir iddi barhau yn galon a chonglfaen y pentref.

Yn gywir



Pennaeth
ar ran staff Ysgol Gynradd Llandegfan

Gan: [REDACTED]
At: Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2017
Pwnc: [REDACTED]
Anfonwyd: [REDACTED]
Copi: Ymateb Corff Llywodraethu Llandegfan

Yn gyntaf, rwy'n ysgrifennu yma ar ran y corff Llywodraethol gyda'u barn. Yr wyf yn datgan personol a yn niweidiol yn y mater hwn a gallaf gadarnhau hynny yn dilyn y pwyllgor safonau ddydd Mawrth a mae caniatd wedi ei roi i mi gymryd rhan lawn yn ystod tymor y Cyngor hwn ar hyn ond i beidio â phleidleisio.

[REDACTED]

19 Gorffennaf 2017

Annwyl [REDACTED],

PAR: Ymgynghoriad Anstatudol yn Ardal Seiriol - Ymateb Corff Llywodraethol Llandegfan

Mae corff Llywodraethol Ysgol Llandegfan o'r farn clir y dylai'r Ysgol aros yn Llandegfan a chefnogir hyn gan y galw cryf a brofwyd gan rieni i'w plant gael eu haddysgu yn yr ysgol. Caiff yr Ysgol ei rheoli'n dda ac mae mewn iechyd ariannol da, mae'r safonau'n uchel ac mae'r ysgol yn cynnal diwylliant cefnogol a chroesawgar ac ethos cryf o welliant parhaus. Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithredol yn y gymuned ac wedi bod yn rhan o Ras Hwyl Llandegfan a'r Eisteddfod Llandegfan ers nifer o flynyddoedd.

Isod mae rhai sylwadau cyffredinol:

1. Mae nifer o ddisgyblion sy'n mynychu o'r tu allan i'r dalgylch, mae llawer o rieni yn gweithio ym Mangor. Gan ystyried y ffactorau hyn, gallai unrhyw fygythiad i gau ysgol Llandegfan arwain at ymfudo i ysgolion yng Ngwynedd.
2. Nid yw'r corff Llywodraethol yn cefnogi creu ysgol fawr ar sail 1) y ward gyfan nid yw ffigurau disgyblion posib gan gynnwys nifer y tu allan i'r dalgylch yn cyfiawnhau gwariant cyfalaf o'r fath, 2) mae'n annhebygol y byddai pob rhiant yn teithio mewn cyfeiriad arall i'w man gwaith, 3) o fewn Ward Seiriol mae lle i foderneiddio'r ddarpariaeth gyfredol, 4) y rhwydwaith ffyrdd o fewn ward Seirfol
Byddai angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer ysgol fawr. Er enghraifft, mae angen buddsoddiad o sawl miliwn i wella troadau Garth i fod yn addas ar gyfer y diben presennol ac i gadw Ward Seiriol yn agored.
3. Mae Llandegfan yn ysgol wir gymunedol ac yn yr anheddiad mwyaf poblog o fewn Ward Seiriol i gyd. Lleolir yr ysgol mewn lleoliad blaenllaw yng nghanol y gymuned.
4. Mae Llandegfan yn ysgol gyflawn ac mae ganddi 150 o ddisgyblion i ymrestru ym mis Medi.


Mae'r ysgol yn yn ffynnu ac yn llawn. Mae enw da a geiriau llafar yn golygu bod ceisiadau'n cael eu gwneud yn gyson ac, fel y mae nawr, mae'n debygol y bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod i lawer o grwpiau sy'n llawn.


5. Mae angen pennaeth llawn amser ar yr ysgol ac nid yw'r corff Llywodraethol yn gweld unrhyw fudd l safonau gwanhau'r gallu hwn.

Byddai'r corff Llywodraethol yn croesawu'r rhaglen modemeiddio i ddod ag Ysgol Llandegfan i fanyleb yr 21ain ganrif. Mae'r corff Llywodraethol yn gweld potensial ar gyfer ailfodelu'r ysgol a sgôp ar gyfer estyniad. Byddai'r corff Llywodraethol yn croesawu cynyddu'r cynhwysedd i 180-200 gan y byddai hyn yn galluogi athro llawn amser ychwanegol a dosbarth neilltuedig i bob blwyddyn ysgol.

Mae Corff Llywodraethol Llandegfan yn gefnogol i'r egwyddor o foderneiddio ac y byddai'n fodlon trafod cynigion a rhannu syniadau sydd gennym ar gyfer Ysgol Llandegfan.

Yn gywir,


Cadeirydd Ysgol Llandegfan ar ran y Corff
Llywodraeth


Cynghorydd Sir Ynys
M6n
Isle of Anglesey
County Councillor



Cylch Chwarae Llandegfan



14 Gorffennaf, 2017.

Par: Ymgynghori ar ddyfodol darpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol

Mae Ysgol Gynradd Llandegfan wrth galon ein cymuned, mae'n ysgol ffyniannus sy'n cynnig addysg ysgol gynradd o ansawdd uchel i tua 150 o blant. Mae'r ysgol bron yn llawn ac mae llawer o blant yn teithio o'r tu allan i'r dalgylch i fynychu'r ysgol sydd ag enw da iddi.

Mae Cylch Chwarae Llandegfan wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Llandegfan yn cynnig addysg cyn-ysgol o safon uchel i blant rhwng 2.5 a 4 oed. Rydym ni'n darparu gwasanaeth hygyrch iawn i'r gymuned yn Llandegfan. Rydym yn pryderu pe bai'r ysgol yn cau na fyddai teuluoedd gallu cael mynediad i addysg cyn-ysgol yn Llandegfan. Nid oes gan nifer o deuluoedd fynediad i gar neu sydd ar gyllideb gyfyngedig fel y byddent yn cael trafferth i gael mynediad i addysg cyn-ysgol mewn lleoliad arall.

Credwn ei bod yn hanfodol bod Ysgol Gynradd Llandegfan yn parhau ar agor fel y gall y plant yn ein cymuned barhau i fwynhau addysg gynradd ac ysgol gynradd o safon uchel yn eu pennau eu cymuned eu hunain.



Pwyllgor Cylch Chwarae Llandegfan

Grŵp Chwarae Llandegfan, Ysgol Gynradd Llandegfan. Llandegfan, Anglesey, LL59 5UW.

Ffôn: [REDACTED]

Par: Ymgynghori ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg gynradd yn ward Seriol.

18 Gorffennaf, 2017.

Fel arweinydd Grŵp Chwarae Llandegfan, yr wyf yn bryderus iawn y gallai cau fel Ysgol Gynradd Llandegfan fod yn rhan o'ch cynigion. Mae'r ysgol yn ysgol gynradd ffyniannus, sy'n cynnig addysg o ansawdd uchel, clwb brechwast a gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae Cylch Chwarae Llandegfan, Cyich Meithrin Llandegfan a Chlwb Plant Llandegfan hefyd yn yr ysgol sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr iawn yn y gymuned.

Mae Cylch Chwarae Llandegfan wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Llandegfan sy'n cynnig addysg cyn-ysgol o ansawdd uchel i blant rhwng 2.5 a 4 oed. Yr wyf yn bryderus pe byddai'r ysgol yn cau, na fyddai'r plant yn ein cymuned yn gallu cael mynediad i addysg cyn-ysgol yn Llandegfan. Mae llawer o deuluoedd ar incwm isel ac nid oes ganddynt fynediad i'w cludiant eu hunain fel y byddent yn cael trafferth cael mynediad i addysg cyn-ysgol mewn lleoliad gwahanol.

Mae'r plant sy'n mynychu Cylch Chwarae Llandegfan yn elwa o addysg cyn-ysgol o safon uchel sy'n dylanwadu ar bob maes dysgu a datblygu. Mae plant yn dysgu bod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol tra'n mynychu Cylch Chwarae Llandegfan ac maen nhw'n datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch yn ein cymuned. Mae teuluoedd hefyd yn gwneud cysylltiadau cymdeithasol ac yn datblygu rhwydweithiau cefnogi yn y gymuned.

Pe byddai Ysgol Gynradd Llandegfan yn cau, byddai'r goblygiadau ar y plant ieuengaf yn ein cymuned yn bellgyrhaeddol. Byddai llawer o blant yn cael trafferth cael mynediad i addysg cyn-ysgol a chaiff y cyfle ei wrthod i brofi manteision addysg cyn-ysgol o safon uchel. Byddai rhyngweithiadau cymdeithasol a chysylltiadau yn ein cymuned hefyd yn cael eu colli.

Rwy'n credu'n gryf y dylai Ysgol Gynradd Llandegfan barhau ar agor fel y gall plant Llandegfan a'r ardaloedd cyfagos elwa o addysg gynradd ac ysgol gynradd o ansawdd uchel yn eu cymuned.

[REDACTED]
Grŵp Chwarae Llandegfan

Ynys Mon Education Department

Annwyl Syr,

- 7 GORFF 2017

Par: Opsiwn i gau Ysgol Gynradd Beaumaris

Fel un o'r Cynghorwyr Sir etholedig ar gyfer Ward Seiriol, yr wyf yn bryderus iawn am yr opsiwn a'r bygythiad o gau neu drosglwyddo gwahanol sefydliadau sy'n eiddo i'r Cyngor Sir yn ne-ddwyrain yr ynys. Eisoës, mae'r ganolfan gofal dydd ym Miwmares wedi cau a chafodd y Ganolfan ei waredu. Mae'r bygythiad o gau Cartref Preswyl Haulfre yn Llangoed yn y dyfodol. Mae Llys a Charchar Biwmares yn y broses o gael eu dadlwytho i Gyngor y Dref, a gallai'r llyfrgell hefyd gael ei golli.

Cymuned yw hon sydd o dan fygythiad o fod wedi ei hamddifadu'n llwyr o wasanaethau hanfodol ac mae'n cael ei danseilio'n llwyr yn gymdeithasol ac yn economaidd. Bu ysgol ym Miwmares ers 1605 a byddai ei chau yn gadael un o bump tref Ynys Môn heb sefydliad addysgol ar draul ei ddinasyddion. Hefyd, gyda chymaint o ail gartrefi, bydd yn mynd yn anheddiad marw.

Mae llawer o'm hetholwyr yn teimlo bod y rhan hon o Ynys Môn yn cael ei dargedu fel ardal gyfoethog ac mae hyn yn rhoi canfyddiad anghywir i'r cyhoedd am y Cyngor Sir.

Fel Cynghorydd Sir, nid wyf yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r opsiwn i gau Ysgol Gynradd Beaumaris. Rhoddwyd y rhesymau a ganlyn gan rieni a theuluoedd am gadw ysgol ar y safle presennol:

- 1) Mae'n ysgol gymunedol sy'n mynd yn ôl yn bell.
- 2) Mae'r llywodraethwyr presennol yn yr ysgol wedi gweithio'n ddiflino i godi safonau.
- 3) Mae ethos o ddysgu a disgyblaeth reolaethol yn yr ysgol sy'n caniatáu i ddisgyblion wneud y gorau o'r broses ddysgu.
- 4) Mae'n ysgol ddwyieithog lle mabwysiadwyd y "Siarter Iaith" yn frwdfrydig.
- 5) Mae mwyafrif y plant yn cerdded i'r ysgol, gan eu bod yn byw yn agos, gan leihau'r ôl troed carbon a chynyddu ymwybyddiaeth o ffordd iach o fyw.
- 6) Yn ddemograffig, mae gan Biwmares boblogaeth sy'n heneiddio ac, er mwyn i gymuned fywiog ffynnu, rhaid i chi gael plant a theuluoedd ifanc.
- 7) Mae'r gyfradd geni wedi codi a bydd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol hon.
- 8) Bydd cau'r ysgol yn arwain at allfudiad allanol pobl ifanc a theuluoedd.

Atodiad 11

9) Mewn llawer o deuluoedd ifanc, mae angen i'r ddau riant weithio oherwydd cyflogau isel ac felly maent yn dibynnu ar gymorth teulu i fynd â phlant i'r ysgol ac o'r ysgol ac i ddarparu gofal ddiwedd y prynhawn.

10) Mae angen sefydliad addysgiadol ar dref Biwmares gan fod ysgol yno ers 1605.

Mae dadleuon cryf iawn dros gadw'r ysgol, a disgwyliaf ichi eu hastudio'n fanwl cyn gwneud penderfyniad. Byddwn yn gwerthfawrogi ymateb ysgrifenedig.

Yn gywir,


████████████████████

Bwrdd Llywodraethol
Ysgol Gynradd Llangoed
Llangoed
Ynys M6n
LL58 8NA



Cyngor Sir Ynys M6n
Adran Addysg
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7EY

10/07/2017

Annwyl 

Parthed: Opsiwn i gau Ysgol Gynradd Llangoed

Ysgrifennwn atoch fel cynrychiolwyr bwrdd Llywodraethol Ysgol Gynraadd Llangoed i ddatgan ein hanfodlonrwydd llwyr at y bygythiad o gau'r ysgol. Rydym yn herio yr opsiwn a nodir yn y ddogfen "Ymgynghori ar Fodemeiddio Ysgolion Cynradd Sir Fôn" (Ardal De Ddwyrain Môn) oherwydd y rhesymau a'r ffeithiau perthnasol a restrir isod. Dymunwn hefyd fynegi ein sion at gynnwys y ddogfen sy'n cynnwys nifer o ffeithiau camarweiniol.

Sut gellir ymateb i newidiadau sydd yn y gymdeithas, y cymunedalf a'r economi drwy gau ysgof gymunedol, lwyddiannus, mewn ardal lle anogir pobl ifanc i aros a chyfrannu at fywyd yr ardal?

Sut gellir gwella deillfannau ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn benodol dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad isel drwy gall ysgol sy'n gymysg yn gymdeithasof ac yn economaidd?

Pa reswm sydd dros anfon plant i ysgol sydd wedi sgorio 3 am yr adeilad, o'i chymharu ag Ysgol Llangoed. sydd wedi sgorio 2 am ei hadeilad?

Mae ethos yr ysgol yn ardderchog, y ddisgyblaeth yn gadarn a'r plant yn ddiogel mewn adeilad sydd wedi ei addasu ar gost sylweddol, ar gyfer plant ag anableddau.

Faint o ddisgyblion o Ysgol Beaumaris sydd wedi trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg neu i'r ffrwd ddwyieithog yn Ysgol David Hughes dros yr 20 mlynedd diwethaf o'u cymharu â disgyblion Ysgol Llangoed? Byddem ni fel IJywodraethwyr yn anhapus iawn pe bai cau Ysgol Llangoed yn arwain at fwy o blant yr ardal yn trosglwyddo i'r ffrwd Saesneg.

Sui gellir codi safon addysg plant wrth eu cludo i ysgol sydd tu allan i ddaJgy1ch yr ardal.

Sut gellir cyfiawnhau can ysgol lewyrchus sydd â nifer ei lleoedd gwcigion yn gostwng yn sylweddol? Mae 90 plentyn yn yr ysgol ar hyn o bryd a rhagolygon cryf am fwy o ddisgyblion yn y dyfodol agos, a buan lawn y bydd canran y llefydd gweigion yn gostwng i 10%. Mae canran llefydd gweigion yr ysgol eisoes yn llawer is na chanran llefydd gweigion ysgol arall dan sylw.

Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae canran disgyblion Ysgol Llangoed sydd wedi cyflawni lefel 5 neu uwch yn y Gymraeg yn uchel, er mai 8% yn unig o ddisgyblion yr ysgol sy'n dod o garner Cymraeg iaith gyntaf. Dylid tynnu sylw hefyd at berfformiad gwych disgyblion cyfnod sylfaen yr ysgol dros y tair mlynedd diweddaf.

Mae perfformiad disgyblion Ysgol Llangoed yn y pynciau craidd hefyd yn uchel.

Caiff y plant brofiadau cymdeithasol ac allgyrsiol rhagorol, y tu mewn i'r ysgol a thu allan i'r ysgol, e.e.:

Côr plant Eisteddfod Genedlaethol;

Ymweld â Haulfre, y cartref preswyl lleol, i ddiddanu'r henoed gyda charolau yn ystod cyfnod y Nadolig;

Cyngerdd N.S.P.C.C. yn Eglwys Biwmares.

Gweithiodd y llywodraethwyr presennol a'r athrawon yn galed i godi safonau ar ôl Arolwg Estyn a chyflanyd bob am o'r argymhellion yn llwyddiannus.

Mae cefnogaeth ardderchog i'r ysgol gan y gymuned, ac mae'r corff llywodraethol yn gefnogol dros ben i bob agwedd ar yr ysgol. Mae arweiniad cadarn y pennaeth, ymroddiad yr hol staff, yr athrawon a chymorthyddion, a'r gymuned gyfan i gyd yn cyfrannu at ysgol llwyddiannus a llewyrchus. Gallai'r ffaith fod yr ysgol dan fygythiad o'i chau gael effaith andwyol ar ysbryd y disgyblion, y staff, y rhieni a'r gymuned yn gyffredinol; byddai colli'r ysgol yn amddifadu'r pentref yn gymdeithasol mewn sawl ffordd.

Oherwydd y sylwadau a'r pwyntiau cryf a nodir uchod, gofynnwn i chi ddileu opsiwn 4 yn gyfan gwbl o'r ymgynghoriad, a rhoi datganiad i'r perwyl hwnnw yn y wasg.

Hyderwn y byddwch yn rhoi sylw teilwng i gynnwys y llythyr hwn ac cdrychaf ymlaen at dderbyn ymateb cadarnaol gennych.

Yr eiddoch yn gywir,

 (cadeirydd).

Parent / governor for Ysgol Llangoed

Rwy'n ysgrifennu fel rhiant a llywodraethwr Ysgol Llangoed.

Ymddengys fod yr opsiynau ar gyfer cau ysgol / syniad ysgol newydd fel un ras un ceffyl i mi.

Byddai ymestyn Biwmares yn costio 1.2 miliwn gydag arbediad refeniw blynyddol o 58 mil. Byddai ymestyn Llangoed yn costio 631,000 ac arbediad refeniw blynyddol o 106,000! Un o nodau moderneiddio ysgolion yw arbed arian. Mae hyn yn arbed y mwyaf yn gyflymaf! Mae'r ysgol yn talu drosti ei hun o fewn 6 mlynedd, yna byddwch chi'n dechrau arbed!

A dyna cyn i chi edrych ar y tasau! Mae Ysgol Biwmares yn ysgol sy'n methu gyda rhifau sy'n gostwng. Mae Llangoed yn ffynnu! Tyfu rth yr eiliad. Mae gan ysgol sy'n wir yn gymunedol deimlad teuluol. Perfformio'n dda. Addysgu arbennig o anghenion addysgol arbennig.

Ac ar gyfer y dalgylch! Mae'r rhan fwyaf o blant Llanfaes yn mynd i Ysgol Llangoed eisoes. Mae Ysgol Llangoed yn ysgol ragorol gyda'r ethos perffaith. Mae'n tyfu'n dda ac yn mynd i'r cyfeiriad iawn! Gyda'r gefnogaeth iawn gall yr ysgol hon fod yn eithriadol!

Cofion

Rhiant / llywodraethwr Ysgol Llangoed

Annwyl Syr / Madam,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyfredol ar yr ysgolion cynradd yn ward Seiriol. Rydw i wedi bod yn rhwystredig i beidio â gallu defnyddio'r ffurflen ar-lein (ni fydd yn ymddangos yn eich galluogi i ysgrifennu mwy nag ychydig o gymeriadau yn unrhyw un o'r blychau) felly rwy'n ymateb drwy'r e-bost hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod hyn yn dderbyniol a byddwch yn ystyried yr ymateb hwn fel rhan o'r ymgynghoriad.

1. Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros y newid?

Cytunaf yn rhannol, ac rwy'n gwerthfawrogi'r pwysau ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn ei gael ar hyn o bryd, a'r lleoedd dros ben mewn ysgolion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn ardal Seiriol.

2. Pa opsiwn ydych chi'n ei ffafrio?

Rwyf yn awyddus i gael archwiliad pellach o 6.3.5.

3. Nid oes gennyf unrhyw gynigion pellach.

4. Unrhyw faterion eraill?

Yr wyf yn bryderus iawn am yr opsiwn posibl i gau Ysgol Llangoed a gobeithio y gellir diystyru hyn mewn unrhyw waith pellach i fynd i'r afael â'r materion yn yr ardal, am y rhesymau canlynol:

9	Plant	Themâu AGGCC am 2017-18 mewn perthynas ag Arolygiad, Ymgysylltiad a Pherfformiad: “Penderfyniadau Lleoli ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal”	LBR –	Mae'r Gwasanaeth eisoes yn blaenoriaethu'r gwaith hwn. Gweithio i sicrhau bod ein penderfyniadau'n gadarn ac yn seiliedig ar asesiad clir o angen yn seiliedig ar gynllun gofal a chefnogaeth sy'n amlinellu'r ymyrraeth ar gyfer teuluoedd.	Gwaith yn mynd rhagddo gan y Gwasanaeth AGGCC – l'w drefnu	Gwella a monitro cynnydd fel pwynt 3.1 o Gynllun Gwella'r Gwasanaeth	Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant

				3.1 yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth			
10	Plant	Gweithredu Cynllun Gwella (hyn yn cael ei fonitro gan AGGCC ynghyd â'r broses graffu fewnol). Disgwylir ail archwiliad gan AGGCC (dyddiad i'w drefnu).	LBR	Mae'r Gwasanaethau Children's Services yn blaenoriaethu camau gweithredu yn erbyn ei Gynllun Gweithredu, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd a monitro cynnydd.	Yn mynd rhagddo Dyddiad ail archwiliad i'w drefnu	Bydd y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant yn craffu cynnydd yn erbyn y Cynllun. AGGCC yn cynnal cyfarfodydd misol gyda PG a chyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr er sicrwydd.	Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant
11	Plant	Staffio i sicrhau bod gan y Gwasanaeth ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru - 'Mwy Na Geiriau'	LBR	Gyda'r nod o recriwtio'r ymgeiswyr gorau posibl, efallai y bydd angen ystyried hyfforddiant a datblygiad iaith Gymraeg ar gyfer y sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg a hynny er mwyn cydymffurfio gyda'r gofyniad. Parheir i adolygu staff sy'n siarad Cymraeg.	Wedi ei adolygu fel rhan o'r broses ailstrwythuro sy'n mynd rhagddi	Wedi ei gysylltu â Chamau Gweithredu 1.1 & 1.2 yn y Cynllun Gweithredu Proses recriwtio'n mynd rhagddi i lenwi swyddi gweigion fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar yr ailstrwythuro. Sgiliau iaith Staff yn cael eu monitro. Amryw raglenni hyfforddiant a datblygu ar gael i gefnogi sgiliau iaith staff.	Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant
12	Plant	Gofalwyr – rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth gofalwyr	LBR-MJ	Y Gwasanaeth i ddylanwadu ar y	I'w drefnu	Yn ystyried opsiynau ar hyn o bryd, gan gynnwys	

		ifanc sydd wedi cael ei sefydlu		Gwasanaeth i Ofalwyr Ifanc er mwyn gostwng yr amser aros am wasanaethau		cyfarfodydd rheolaidd gyda chyflenwr a'r posibilrwydd o weithio'n rhanbarthol gyda Gwynedd.	
13	Plant	Yr ALI yn datblygu gwasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac adnoddau cymunedol	LBR	Cynllun i ddatblygu strategaeth Ataliol Gorfforaethol ar draws ein gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc	I'w gytuno	Bydd cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith hwn.	Grŵp Gwella Gwasanaethau Plant
14	Oedolion a Phlant	Strategaeth Gofalwyr – angen symud ymlaen i gomisiynu a chynllunio gwasanaethau er mwyn datblygu dealltwriaeth o effaith y gwasanaethau hyn sy'n cael eu cynnig (cyswllt â 12 uchod)	ARJ & LBR	GP – Gweler Pwynt 12 uchod GA - wedi adolygu ein strategaeth yn ddiweddar mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gwynedd ac mewn ymgynghoriad gyda gofalwyr.	Gweler P12 uchod Wedi'i gwblhau	GP – Gweler 12 uchod GA – Strategaeth ddiwygiedig wrthi'n cael ei hymestyn ar hyn o bryd	Gweler P12 uchod Busnes fel arfer Mynd rhagddo (Grŵp Gofalwyr)
15	Oedolion a Phlant	Mae'r ALI wedi archwilio cydymffurfiaeth yn erbyn y Ddeddf – wedi nodi gwaith pellach ac adnoddau sydd eu hangen	ARJ & LBR – DB	PG yn ymwybodol o'r blaenoriaethau a fydd angen sylw yn ystod y flwyddyn Cynhelir archwiliad pellach yn Ch3 er mwyn monitro cynnydd.	Yn mynd rhagddo Archwiliad pellach yn Ch3	Archwiliad i'w gynnal yn Ch3 er mwyn mesur cynnydd ac i gynorthwyo i lenwi cynllun gwaith ac ACRF 18/19	Bydd y canlyniad yn cael ei fonitro gan yr UDA ac ati

16	Oedolion a Phlant	Mae gweithio'n strategol mewnartneriaeth gyda BIPBC yn parhau i fod yn heriol – rhaid i'r ALI yn yr ardal roi sylw i hyn ar y cyd	ARJ & LBR	Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy grwpiau megis y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 'Dydd Gwener Partneriaeth', Grŵp BCI, Model Môn ac ati	Gwaith yn mynd rhagddo	Mae'r bartneriaeth ranbarthol yn cryfhau drwy dasgau megis 'wythnos mewn ystafell', WCCIS ac ati	Pob bwrdd / grŵp unigol
17	Oedolion a Phlant	Bydd AGGCC yn parhau i adolygu camau gweithredu yn erbyn argymhellion a wnaed mewn adolygiadau thematig cenedlaethol blaenorol gan AGGCC: - DoLS - Gwasanaethau i Bobl gydag Anableddau Dysgu - Gofal Cartref - Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus	ARJ & LBR FR	DoLS – Gweler Pwynt 6 uchod Gwasanaethau i bobl gydag Anableddau Dysgu – gweler Pwynt 7 uchod Gofal Cartref – gweler Pwynt 5 uchod Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) – Uwch Reolwr wrthi'n cynnal Archwiliad o'r PLO ar hyn o bryd a bydd yn crynhoi cynnydd ac unrhyw welliannau eraill y mae angen eu gweithredu.	6 uchod 7 uchod 5 uchod l'w drefnu	6 uchod 7 uchod 5 uchod Adolygiad ar y gweill. Cyfarfod gyda CAFCASS ddwywaith y flwyddyn i adolygu Cyfarfodydd chwarterol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu mewn perthynas â PLO	6 uchod 7 uchod 5 uchod Mae gwelliannau sy'n gysylltiedig at archwilio mewnol yn cael eu logio ar y system 4Action
18	Oedolion a Phlant	Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod angen iddo wneud gwaith pellach i ddatblygu	ARJ & LBR	Bydd yr Uned Ddiogelu'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion i	Mawrth 2018	Bydd yr Uned Ddiogelu'n sicrhau bod Rheoliad 7 y	Tîm Rheoli Oedolion

		canllawiau ar gyfer staff a phartneriaid wrth weithredu'r canllawiau diogelu newydd (Rhan 7 y Rheoliadau Diogelu).	AH	fapio allan y gofynion er mwyn sicrhau bod arferion gwaith a pholisïau yn cydymffurfio.		rheoliadau diogelu'n cael eu bodloni	
--	--	--	----	---	--	--------------------------------------	--

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	30 Hydref 2017
Pwnc:	Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyngorydd Richard Dew Y Cyngorydd Carwyn Jones
Awdur yr Adroddiad:	Dylan J Williams Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Rhif Ffôn:	(01248) 752499
E-bost:	DylanWilliams@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl Aelodau
A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau	
<p>Argymhellion</p> <p>Awdurdodi Swyddogion i gychwyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa ym mis Tachwedd 2017.</p> <p>Cytuno bod y penderfyniad hwn yn un y mae 'brys' amdano fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.5.16.10 y Cyfansoddiad fel na fydd modd galw'r penderfyniad i mewn. Ychydig iawn o amser sydd ar gael i fedru ymgynghori ar y CCA diwygiedig a'u mabwysiadau a gallai caniatáu posibilrwydd o fedru galw'r mater i mewn arwain at oedi a allai niweidio budd y Cyngor a'r cyhoedd o ran ymateb i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Hefyd, bydd gan y Cyngor llawn gyfle i ystyried y mater a mabwysiadu'r CCA diwygiedig sut bynnag. Fel sy'n ofynnol, ceisiwyd a chafwyd caniatâd Cadeirydd y Cyngor i drin y mater hwn fel un brys a'i eithrio rhag cael ei alw i mewn a hysbyswyd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol hefyd.</p> <p><u>Rhagarweiniad</u></p> <p>Cynhyrchwyd a mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ym mis Gorffennaf 2014 (Dolen). Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn fodd o osod allan ganllawiau thematig manwl neu benodol ar sut y bydd polisiau cenedlaethol a lleol yn cael eu gweithredu dan amgylchiadau penodol neu mewn ardaloedd penodol. Gan nad oedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC) wedi ei fabwysiadu ar y pryd, cynhyrchwyd y CCA i lenwi'r bwch polisi hwn. 'Roedd hyn yn golygu bod CSYM yn gallu dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau strategol Pŵer Niwclear Horizon (Horizon) ac roedd yn sail i ymateb y Cyngor Sir i ymgynghoriadau statudol Horizon (PAC1, 2 a 3). Roedd hefyd yn darparu fframwaith polisi cadarn ar gyfer CSYM i wneud penderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw geisiadau cynllunio (yn ogystal â'r GCD ei hun).</p> <p>Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r CCA yn 2014, bu nifer o newidiadau sylfaenol sy'n golygu bod</p>	

angen adolygu a diweddarau'r CCA hyn.

1. **Newidiadau Polisi** – Mabwysiadwyd y CDLI ar y Cyd yn ffurfiol gan CSYM ar 31 Gorffennaf 2017 ([Dolen](#)). Mae'r CCA a ddefnyddir ar hyn o bryd felly wedi hen ddyddio gan eu bod yn cyfeirio at Cynllun Datblygu blaenorol. Er budd cysondeb ac aliniad, mae angen diweddarau'r CCA i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu diweddaraf. Mae hyn yn sicrhau bod gan CSYM fframwaith polisi cadarn a chryf ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw geisiadau cynllunio posib dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, ac fel sail ar gyfer ymateb CSYM i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (e.e. Adroddiad ar yr Effaith Leol, Datganiad Tir Cyffredin, Sylwadau Ysgrifenedig ac ati).
2. **Newidiadau Deddfwriaethol** – Ers mabwysiadu'r CCA ym mis Gorffennaf 2014, bu nifer o newidiadau deddfwriaethol sylfaenol sydd wedi newid rôl CSYM yn y broses ganiatáu statudol. Y mwyaf ohonynt yw Deddf Cymru 2017 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. Mae hyn yn caniatáu i hyrwyddwyr prosiectau (h.y. Horizon) gynnwys datblygiadau cysylltiedig (megis cyfleusterau parcio a theithio, llety gweithwyr dros dro ac ati) o fewn eu cais GCD. Mae angen diweddarau'r CCA i adlewyrchu'r newid deddfwriaethol diweddaraf hwn. Mae angen adlewyrchu deddfwriaethau newydd allweddol eraill megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn y CCA diwygiedig. Rhaid i CSYM ddangos sut mae'r prosiect / polisi yn bodloni'r 7 nod llesiant ac mae'r cydblethiad rhwng amcanion y CCA a'r nodau llesiant hyn yn hanfodol.
3. **Diweddariadau Prosiect** – Mae Horizon wedi cynnig nifer o ddiweddariadau prosiect ers i'r CCA gael eu mabwysiadu yn 2014. Y newid prosiect mwyaf arwyddocaol yw penderfyniad Horizon i gynyddu maint y llety ar gyfer gweithwyr dros dro ar y safle o fod yn llety ar gyfer 500 o weithwyr hanfodol i lety a fyddai'n cartrefu hyd at 4,000 o weithwyr ar y safle mewn campws dros dro pwrpasol. Mae angen adlewyrchu'r newid hwn yn y CCA fel y gall y CSYM ymateb yn ddigonol i'r cynigion hyn. Mae rhagor o fanylion ac eglurder ar ddatblygiadau cysylltiedig eraill Horizon (megis cyfleusterau parcio a theithio yn Dalar Hir, y Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi ac ati) hefyd yn golygu bod angen diweddarau'r rhannau hyn o'r CCA.

Ymgynghoriad

Mae CSYM yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod yn **Tachwedd / Rhagfyr 2017 a Ionawr 2018**. Mae CSYM yn awyddus i gychwyn yr ymgynghoriad yn yr wythnos gyntaf ym mis Tachwedd i sicrhau bod y broses wedi'i chwblhau cyn y Nadolig. Mae'n hollbwsig bod y CCA diwygiedig yn cael eu cwblhau a'u mabwysiadu gan y Cyngor Llawn cyn i Horizon gyflwyno eu cais GCD yn Ch1 2018. Y CCA diwygiedig fydd asgwrn cefn ymateb CSYM i'r prosiect a byddant yn llywio ac yn sail i safbwynt CSYM fel y mynegir ef yn yr Adroddiad ar yr Effaith Lleol a sylwadau ysgrifenedig eraill.

Bydd y deunydd ymgynghori ar y CCA yn cynnwys y dogfennau canlynol a ddiwygiwyd ac a diweddarwyd:

1. CCA Wylfa Newydd
2. 11 o Bapurau Pwnc (gan gynnwys un newydd ar gyfer Gogledd Môn); a,
3. Cyfres o Aseidiadau Statudol (Arfarniad Cynaliadwyedd, Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Aseiad o'r Effaith ar Iechyd).

Mae'r CCA drafft diwygiedig yn cael eu paratoi a'u cyfieithu ar hyn o bryd ond disgwylir iddynt fod yn barod i ymgynghori arnynt ym mis Tachwedd 2017.

Mae'r gwaith o baratoi'r CCA diwygiedig yn cael ei gydlynu gan Swyddfa Rheoli'r Prosiect Ynys Ynni. Mae AMEC (sy'n darparu cymorth ac arbenigedd amlddisgyblaethol i'r Cyngor Sir) yn drafftio'r ddogfen ddiwygiedig, gyda cefnogaeth swyddogion CSYM a Swyddogion JPPU. AMEC a baratodd y CCA gwreiddiol yn 2014 felly mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r prosiect a'r broses. Sicrhawyd adnoddau i ariannu'r gwaith o baratoi'r CCA diwygiedig trwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Horizon.

Mae Swyddfa Rheoli'r Prosiect Ynys Ynni yn paratoi rhaglen o weithgareddau ymgysylltu gydag Aelodau i sicrhau dealltwriaeth gyffredin a gwell ymwybyddiaeth o bwrpas, sgôp a chynnwys y CCA diwygiedig. Trefnir Sesiwn Frifio i Aelodau ar gyfer wythnos gyntaf yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Bydd angen i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd gymeradwyo'r CCA drafft diwygiedig cyn eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cau, bydd Swyddogion (o dan arweiniad Burges Salmon) yn cydlynu'r holl ymatebion o fewn un ddogfen a byddant naill ai'n derbyn neu'n gwrthod y newidiadau arfaethedig, gan roi cyfiawnhad rhesymegol dros y penderfyniad hwn.

Bydd y CCA diwygiedig wedyn yn cael eu hadolygu gan gyfreithwyr a chynllunwyr cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu ym mis Chwefror / Mawrth 2018. Mae'r CCA diwygiedig hyn yn wahanol i rai eraill a baratowyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) gan eu bod yn benodol i Ynys Môn ac yn adolygu'r CCA a fabwysiadwyd cyn mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd. Mae gofyn cael cymeradwyaeth y Cyngor Sir felly ac nid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd dau opsiwn arall. Opsiwn A – peidio â diweddarau'r CCC ac Opsiwn B – Adolygiad Cyffyrddiad Ysgafn. Gwrthodwyd y ddau opsiwn am dri rheswm:

- I. Mae'r CCA cyfredol wedi hen ddyddio erbyn hyn gan eu bod yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu blaenorol. Mae'r cynllun hwnnw bellach wedi cael ei ddisodli gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sy'n golygu na fyddai o bwys sylweddol yn y broses o wneud penderfyniadau. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan ei fod yn hanfodol bod gan CSYM ganllawiau polisi cadarn a chryf i ymateb i heriau cydsynio Wylfa Newydd.

- II. Bu newidiadau sylweddol ac o bwys i gynigion prosiect Horizon ers mabwysiadu'r CCA ym mis Gorffennaf 2014. Mae'n bwysig bod y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yng nghanllawiau polisi CSYM er mwyn dylanwadu a hysbysu sefyllfa polisi CSYM yn gywir mewn perthynas â'r cynigion hyn.
- III. Oherwydd newidiadau deddfwriaethol diweddar (sef Deddf Cymru 2017) mae rôl CSYM yn y broses gydsynio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi newid. Bellach mae gan Horizon yr opsiwn o gynnwys y datblygiadau cysylltiedig (e.e. cyfleusterau parcio a theithio, canolfan logisteg ac ati) o fewn eu cais GCD. Mae angen diweddarau'r CCA i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Opsiwn A – Bydd peidio diweddarau'r CCA yn rhoi CSYM mewn sefyllfa polisi fregusach wrth ymateb i Wylfa Newydd. O'r herwydd, gwrthodwyd y penderfyniad i beidio â diweddarau'r CCA.

Opsiwn B – Adolygiad Cyffyrddiad Ysgafn o'r CCA. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn oherwydd ystyriwyd bod y newidiadau y mae angen eu gwneud i'r CCA yn fwy sylfaenol. Mae'r broses i ddiweddarau'r CCA yr un peth waeth beth yw ei sgôp (h.y. ymgynghoriad 6 wythnos a'r Cyngor llawn yn eu mabwysiadu) ac felly gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan mai dim ond un cyfle fydd gan CSYM i ddiweddarau'r CCA cyn cyflwyno'r GCD.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd nad yw cytuno i gyflwyno'r CCA ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei ddirprwyo i swyddogion nac wedi'i neilltuo i'r Cyngor Llawn (a bwriedir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r CCA beth bynnag), ac nid yw wedi ei eithrio rhag bod yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi – cymeradwywyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) gan y Cyngor Llawn ar 31 Gorffennaf 2017. Bydd y CCA diwygiedig yn ategol i'r polisi hwn ac felly mae'n gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi – Mae CSYM wedi sicrhau cyllid allanol trwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio (CPC) gyda Horizon i adolygu a diweddarau'r CCA. Mae hyn yn cynnwys y broses ymgynghori.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Yn cytuno gyda'r adroddiad a'r argymhelliad.
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Bydd CCA diwygiedig cynhwysfawr yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar gynigion datblygu Horizon i sicrhau buddion economaidd cadarnhaol ac etifeddiaeth hirdymor ar gyfer Ynys Môn. Bydd y CCA yn cefnogi ac yn dylanwadu ar greu a lleoli cyfleoedd cyflogaeth newydd ar Ynys Môn, yn ogystal â hybu cyfleoedd i fusnesau lleol fanteisio ar gyfleoedd cadwyn cyflenwi a ddaw.
2	Gwrthdodi	Mae'r CCA diwygiedig wedi eu diweddarau i adlewyrchu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae hyn yn cynnwys 'Cymru fwy ffyniannus' a 'mwy cyfartal' sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi.
3	Trosedd ac Anhrefn	Mae trosedd wedi'i nodi fel pwnc polisi allweddol o fewn y CCA diwygiedig. Bydd canllawiau penodol yn cael eu cynnwys o fewn 'Egwyddorion Arweiniol' a 'Canllawiau Lleoliadol' y CCA i fynd i'r afael â phroblemau posib yn y maes trosedd ac anhrefn.
4	Amgylcheddol	Ystyriwyd dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 wrth baratoi'r CCA diwygiedig.
5	Cydraddoldebau	Mae'r CCA diwygiedig wedi bod yn destun nifer o asesiadau, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Fe'u diweddarwyd hefyd i adlewyrchu'r Nodau Llesiant, sef 'Cymru sy'n

		fwy cyfartal'.
6	Cytundebau Canlyniad	Ddim yn berthnasol
7	Arall	Ddim yn berthnasol

F - Atodiadau:

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	30/10/2017
Pwnc:	Cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17
Aelod(au) Portffolio:	Alun Wyn Mummery
Pennaeth Gwasanaeth:	Shan Lloyd Williams
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Llinos Wyn Williams – Rheolwr Gwasanaeth, Tai Cymunedol 01248 752190 Llinoswilliams2@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Pob Aelod Lleol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-</p> <p>A1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn darparu adborth ar unrhyw feysydd sydd efallai angen eu cryfhau. Hefyd, rhoi adborth i swyddogion ar feysydd i'w hystyried ar gyfer Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2021.</p> <p>A2. Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i chwarae rhan weithredol mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a sicrhau bod gan yr holl denantiaid lais a rhan i'w chwarae mewn datblygiadau tai a chorfforaethol yn y dyfodol.</p> <p>Rhesymau</p> <ul style="list-style-type: none"> - I roi adroddiad o gynnydd I Bwyllgor Gwaith, Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Lleol - I wneud yn siwr ein bod yn cysidro mewnbyn tenantiaid sydd yn rhoi amser eu hunain ar sail wirfoddol er mwyn cynorthwyo datblygiadau o fewn tai a hefyd unrhyw ddatblygiadau corfforaethol ehangach <p>1.0 Cefndir</p> <p>Ystyr Cyfranogiad Tenantiaid yw rhoi'r cyfle i brydleswyr gael dweud eu dweud ar y ffordd y rheolir eu cartref ac fe gyflwynwyd hyn gyntaf yn Ynys Môn ym 1998. Fel landlord cymdeithasol yng Nghymru, mae angen i Gyngor Sir Ynys Môn sicrhau bod tenantiaid yn cael yr hawliau mwyaf posib i gyfranogi ac i hyrwyddo rhagoriaeth yn y maes cyfranogiad tenantiaid er mwyn cydymffurfio gyda Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd yn 2007).</p> <p>1.1 Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cyngor Sir Ynys Môn (STC) 2015 – 2018 yw'r drydydd</p>

strategaeth o'i math gan Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn.

- 1.2 Nod y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid yw ymgynghori gyda thenantiaid a chynnwys tenantiaid yn y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Tai. Mae hyn yn amrywio o gynnwys tenantiaid ar grwpiau swyddogion i gynnal gweithgareddau ac ymgysylltu â chymunedau ar draws yr Ynys.
- 1.3 **Mae'r manteision allweddol o gyfranogiad tenantiaid yn cynnwys y canlynol:**
- » Gwella ein gwasanaeth a'n helpu ni i gyflawni ein gweledigaeth o Gartrefi o Ansawdd: Cymunedau Cynaliadwy.
 - » Helpu ni i fod yn agored ac yn atebol
 - » Creu adborth dwy ffordd rhwng tenantiaid, prydleswyr a landlordiaid
 - » Cynyddu sgiliau a gwybodaeth tenantiaid
 - » Monitro ac adolygu'r holl weithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn rheolaidd o ran cost, effaith ac effeithlonrwydd er mwyn arddangos ein hymrwymiad i fod yn agored ac yn atebol.
 - » Gwella lles tenantiaid drwy nifer o ddulliau sy'n cynnwys dyddiau glanhau stadau, prosiectau amgylcheddol, digwyddiadau, cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth.
- 1.4 Ar hyn o bryd, mae cyllideb flynyddol o £102,000 wedi'i chlustnodi er mwyn cefnogi gweithgareddau cyfranogi tenantiaid gan gynnwys costau staff. Mae dau aelod o staff amser llawn yn cael eu cyflogi o fewn y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid – un Cynorthwy-ydd Cyfranogiad Tenantiaid ac un Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid.
- 1.5 Rydym bob amser yn edrych am ffyrdd newydd o gynnwys tenantiaid a chynyddu nifer y tenantiaid sy'n ymgysylltu â ni drwy ein gwahanol agweddau. Mae ein gweledigaeth yn parhau i fod yr un peth i bob pwrpas:
- “..darparu gwasanaeth sy'n arddangos gwaith partneriaeth ystyrlon rhwng tenantiaid a swyddogion sydd, yn ei dro, yn annog eraill i gymryd rhan gan wybod y **gwrandewir** ar eu safbwyntiau ac y bydd hynny'n **dylanwadu ar welliannu o ran y gwasanaeth a ddarperir**”*
- 1.6 Mae'r Strategaeth CT yn canolbwyntio ar gynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â thenantiaid a swyddogion. Mae cyswllt uniongyrchol rhwng yr SCT a Chynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai [HRA]. Mae'n bwysig bod ein Tenantiaid yn cael y cyfle i lunio a dylanwadu ar y cynllun busnes.
- 1.7 Mae'r SCT yn cael ei fonitro'n chwarterol gan Lais Tenantiaid a Swyddogion Môn (MTOV) sy'n cydweithio'n agos â'r Bwrdd Gwasanaethau tai newydd a'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Tai.
- 1.8 Er mwyn datblygu'r strategaeth bresennol, sefydlwyd grŵp ffocws SCT ym mis Hydref 2014. Roedd aelodaeth o'r grŵp yn gymysgedd o swyddogion tai a thenantiaid. Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod ac fe'u cefnogwyd gan TPAS Cymru (Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid Cymru)
- 1.9 **Adroddiad Cynnydd**
- 1.10 Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid wedi bod yn gweithredu gydag

un aelod amser llawn cyfatebol (FTE) o staff sef y Cynorthwy-ydd Cyfranogiad Tenantiaid. Roedd hyn er mwyn galluogi'r Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid i ymgymryd â chyfle secondiad a oedd yn cynnwys datblygu nifer o strategaethau a pholisïau o fewn y Gwasanaethau Tai.

- 1.11 O gael llai o staff, mae wedi effeithio ar ein gallu i wneud y gorau o'n potensial wrth ddarparu'r cynllun gweithredu blynyddol. Er y gostyngiad mewn niferoedd, cafwyd nifer o lwyddiannau yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17. Trafodwyd yr adroddiad yma yn Fwrdd Gwasanaethau Tai a chytunwyd ei gyflwyno i Bwyllgor Pwyllgor Partneriaethau ac Adfywio - Monitro Perfformiad

1.12 Mae llwyddiannau 2016-17 yn cynnwys:

1.12.1 Ciosgau Cyfrifiadurol

Mae'r ciosgau yn gyfrifiaduron sgrin gyffwrdd hawdd eu defnyddio ac maent yn darparu ffordd hawdd o gael at wybodaeth ddefnyddiol a fydd yn cefnogi tenantiaid i allu gael yr incwm mwyaf posib, chwilio am waith a hawlio Credyd Cynhwysol.

Mae'r ciosgau cyfrifiadurol wedi eu lleoli yn llyfrgelloedd Amlwch a Niwbwrch, Canolfan Iorwerth Biwmares, Canolfan Gymunedol Gwelfor a Chanolfan J E O Toole yng Nghaerdybi, derbynfa adeilad y Cyngor yn Llangefni a Chaffi'r Stesion yn Llannerch-y-medd.

Cafwyd rhai problemau cychwynnol ond yn dilyn ymweliad gan BT, mae'r holl faterion bellach wedi eu datrys.

1.12.2 Menter y frwyder yn erbyn tlodi tanwydd

Nod y fenter hon oedd cefnogi tenantiaid a effeithiwyd gan dlodi tanwydd er mwyn lleihau eu biliau tanwydd.

Mynychodd pedwar tenant sy'n byw yn Nwyran y Fforwm Tai Gwarchod ym mis Rhagfyr 2015. Yn ystod y fforwm, cafwyd cyflwyniad gan Gyngor ar Bopeth ar dlodi tanwydd, a rhoddwyd gwybod i'r tenantiaid am yr help a'r cymorth oedd ar gael fel rhan o'u *hymgyrch bargeinion ynni gorau*.

Ar ddiwedd y fforwm, gofynnodd tenantiaid Cil y Graig, Dwyran am gymorth y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid mewn perthynas â Thlodi Tanwydd. Roeddent yn meddwl nad oedd modd iddynt newid cyflenwr o ganlyniad i'r ffordd mae nwy'n cael ei gyflenwi i'r Stad (sef drwy danc nwy mawr i'r Stad sy'n gwasanaethu'r holl dai ar y Stad). Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm o 16 byngalo. Dywedodd wyth tenant eu bod yn cael trafferth rheoli eu biliau. Dywedodd chwe thenant nad oeddent yn defnyddio'r nwy a oedd yn cael ei gyflenwi i'r stad a bod ganddynt boteli nwy eu hunain er mwyn osgoi biliau annisgwyl ac uchel. Dywedodd y tenantiaid hyn eu bod yn cynhesu un ystafell ar y tro. Nododd dau denant arall eu bod 'yn derbyn bod y bil tanwydd yn uchel ac yn ei dalu' a'u bod yn addasu mewn ffyrdd eraill megis faint o fwyd yr oeddent yn ei brynu.

Mewn Partneriaeth â Chyngor ar Bopeth, cefnogwyd y bobl hyn gan y tîm Cyfranogiad Tenantiaid i gael gwell bargaen gan y darparwr presennol ac aeth y pris i lawr o 49c yr uned i 28c yr uned. Hefyd, rhoddwyd £100 o gredyd i'r holl denantiaid ar eu cyfrifon nwy fel rhan o'r fargaen newydd.

Mae llwyddiant y prosiect hwn wedi'i gydnabod gan denantiaid ac o ganlyniad mae wedi'i ddarparu i 3 stad arall. Yn ystod cyfnod o 4 mis, mae'r 'frwydr yn erbyn tlodi tanwydd' wedi helpu 59 o denantiaid allan o dlodi tanwydd. Rydym hefyd wedi derbyn cadarnhad y bydd yr holl denantiaid ar nwy Calor yn elwa o'r gostyngiad mewn pris a chafodd hyn ei ôl ddyddio i Ionawr 2016.

1.12.3 **Fforwm Gwaith Trwsio:**

Mae'r fforwm Gwaith Trwsio yn cyfarfod bob dau fis. Cafwyd adroddiadau cadarnhaol gan Aelodau'r Panel am y rhaglen Trawsnewid o fewn tîm ymateb y Gwasanaethau technegol. Yr adborth gan denantiaid yw ei fod wedi gwneud gwir gynnydd drwy gydol y broses.

Roedd y fforwm gwaith trwsio yn canolbwyntio ar lefelau Bodlonrwydd Cwsmer ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Tai yn rhoi cyfle i denantiaid lenwi arolwg gwasanaeth cwsmer unwaith y bydd gwaith wedi'i gwblhau. Mae hyn hefyd yn galluogi tenantiaid i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod yr Adran Dai yn gwerthfawrogi eu hawgrymiad ynghylch sut i wella'r gwasanaeth.

Mae enghraifft ohonom yn gwranddo ar denantiaid yn cynnwys:

Mar llythyrau gwasanaethu nwy bellach yn hysbysu tenantiaid y bydd angen i weithwyr gael mynediad er mwyn gallu troi'r nwy i ffwrdd; gofynnodd un o'n tenantiaid am hyn gan nad yw hon yn broses mor hawdd ar adegau oherwydd yr angen i symud eitemau / celli ac ati.

1.12.4 **Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn - MTOV**

Mae'r grŵp MTOV yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Mae'r aelodau yn denantiaid o bob rhan o'r Ynys. Mae nifer o'r tenantiaid ar y grŵp yn byw yng Nghaergybi. Rydym yn awyddus i gynyddu cyfranogiad tenantiaid o rannau eraill o'r Ynys. Mae gennym un tenant newydd o Fiwmares ynghyd â thenant arall o Aberffraw sydd bellach yn rhan o'r cyfarfod MTOV. Rydym yn canolbwyntio ar leoliadau eraill er mwyn sicrhau bod llais cynifer o wahanol denantiaid, o wahanol ardaloedd a demograffeg gymdeithasol, yn cael ei glywed o bob rhan o'r Ynys.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017 – 18, rydym yn edrych i ail frandio ac adnewyddu'r strwythur MTOV. Fe ddylai hyn, yn ei dro, annog tenantiaid newydd i fynychu a chreu syniadau newydd ac arloesol o fewn adrannau yn yr adran Dai.

Mae tenantiaid ar yr MTOV wedi mynegi pryderon nad oes ganddynt fwy o fewnbwn ar

faterion Corfforaethol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Bydd angen rhoi sylw i hyn fel blaenoriaeth.

1.12.5 **Hybiau Cymunedol**

Mae dau ddeg dau o lofeydd cymunedol wedi eu lleoli ar draws cynlluniau tai gwarchod ar draws yr Ynys. Defnyddir rhai lofeydd yn ddyddiol tra defnyddir rhai eraill yn llai aml.

Gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 mae gan gymunedau fwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd dros eu llesiant personol. Mae'r lofeydd cymunedol yn cael eu gweld fel man rhagorol ar gyfer creu'r hybiau cymunedol. Rydym yn cynnal ymgynghoriad er mwyn gweld a yw tenantiaid yn awyddus i ymestyn eu lofeydd cymunedol at ddefnydd y gymuned ehangach.

Cychwynnodd y trafodaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17 gyda MTOV er mwyn cael syniad o'r angen am hybiau cymunedol o fewn y lofeydd cymunedol. Mae adborth cadarnhaol a chefnogaeth wedi arwain at ddatblygu'r syniad hwn yn 2017-18, mewn partneriaeth â'r darparwyr 3^{ydd} Sector Menter Môn, Medrwn Môn, Gwasanaethau Tai ac Oedolion.

Mae datblygiadau hyb cymunedol Ger y Graig wedi dechrau a chanlyniad hyn yw bod digwyddiadau a chyfarfodydd yn cael eu cynnal, ynghyd â nawdd am Sied Dynion.

1.12.6 **Archwiliad Gofal Cwsmer gan Denantiaid**

Cyflwynwyd y Siatr Gofal Cwsmer Corfforaethol ar 1 Gorffennaf 2015 ac mae yn ei le er mwyn arddangos ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol. Er mwyn monitro ei gweithrediad, caiff y siatr ei harchwilio yn flynyddol. Rhwng Ionawr a Mawrth 2017, cafodd tenantiaid y grŵp MTOV y cyfle i archwilio lefelau Gofal Cwsmer ar draws y gwasanaethau o fewn y Cyngor.

Ar y cyfan, mae safon Gofal Cwsmer yng Nghyngor Môn wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf, fodd bynnag, mae lle i wella.

Roedd tenantiaid MTOV yn ystyried yr argymhellion canlynol fel meysydd ar gyfer gwelliant:

- Holl negeseuon e-bost i gynnwys llofnod yn cynnwys enw a theitl swydd y swyddog.
- Sefydlu ymatebion cydnabod neges awtomatig ar gyfer pob cyfeiriad e-bost sydd ar gael i'r cyhoedd, megis tai@ynysmon.gov.uk
- Yr holl Swyddogion sy'n gweithio mewn unrhyw dderbynfa i wisgo bathodynau yn cynnwys eu henwau yn hytrach na rheffynnau.
- Swyddogion sy'n gyfrifol am ateb y ffôn i fod yn ymwybodol o'r siatr gofal cwsmer.

1.12.7 **Dyddiau tacluso stadau**

Cynhaliwyd dau ddeg dau o ddyddiau tacluso stadau yn ystod 2016-17. Cyfeiriwyd

gwahanol stadau at y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid gan y Tîm Rheoli Tai wedi iddynt archwilio stadau wrth gerdded o'u hamgylch a chyfeiriwyd rhai stadau gan denantiaid newydd.

Yn ystod 2016-17, cynhaliwyd dyddiau tacluso stadau yn ardaloedd:

Llangefni, Caergybi, Moelfre, Llanfairpwll, Aberffraw, Niwbwrch, Pentraeth, Llanddeusant, Llansadwrn, Benllech a Chemaes.

1.12.8 Cymorthfeydd yr Heddlu

Deg cymhorthfa Heddlu ar draws yr Ynys sy'n cynnwys Benllech, Amlwch, Moelfre, Llanfairpwll a Llangefni. Perthynas â'r Heddlu yn parhau i fynd o nerth i nerth, yn enwedig gyda'r SCCH sydd bob amser yn barod iawn i ddatblygu mentrau cymunedol sy'n cynnwys tenantiaid a chymorthfeydd Heddlu.

1.12.9 Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae Gwasanaethau Tai yn cydnabod fod ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) yn gallu cael effaith sylweddol ar fywydau ein tenantiaid a'n trigolion.

Credwn fod gan yr holl denantiaid a thrigolion yr hawl i fwynhau heddwch, distawrwydd a diogelwch yn eu cartrefi a'r cyffiniau. Gwerthfawrogwn y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith sylweddol ar ddiodefwrwr ac i'r perwyl hwn, mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwmo i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mor gyflym ac effeithiol â phosibl a hynny drwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau a drwy ddefnyddio'r amrediad llawn o bwerau sydd ar gael, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014.

Cynhaliwyd y fforwm ymddygiad gwrthgymdeithasol cyntaf ym mis Rhagfyr 2016. Roedd yr ymateb gan denantiaid a oedd yn dymuno ffurfio rhan o'r fforwm hwn yn iach. Cynhelir y fforwm ymddygiad gwrthgymdeithasol nesaf ym mis Hydref 2017.

1.12.10 Prosiectau Amgylcheddol

Derbyniodd pum cymuned o denantiaid arian ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn ystod 2016-2017. Cyfanswm cost y prosiectau hyn oedd £7,000. Cymeradwywyd y ceisiadau gan y grŵp prosiect amgylcheddol, sy'n cynnwys tenantiaid MTOV.

Un o uchafbwyntiau'r prosiectau amgylcheddol yw cynllun tai gwarchod Glan Cefni sydd wedi'i leoli yn Llangefni. Gofynnodd y tenantiaid am gael gosod wyneb cae pob tywydd yn eu gerddi er mwyn iddynt allu cael mynediad iddynt 365 diwrnod y flwyddyn. Canlyniad hyn oedd bod mwy o bobl bellach yn defnyddio eu gerddi ac mae bellach mwy o ymdeimlad o

gydlyniant cymunedol a llesiant.

Mae mwy o bwyslais yn 2017-18 ar wella prosiectau amgylcheddol ar draws yr Ynys. Rydym wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau am brosiectau amgylcheddol yn ystod Chwarter 1 2017-18 ar gyfer pethau fel meinciau, byrddau picnic, mannau ailgylchu.

1.12.10 **Fforwm Tai Gwarchod**

Mae'r Fforwm Tai Gwarchod yn parhau i ddenu 60 i 70 o denantiaid tai gwarchod bob chwarter. Darperir ffurflenni adborth i bawb sy'n mynychu er mwyn iddynt allu mynegi barn ar gynnwys yr agenda. Mae syniadau tenantiaid yn hanfodol ar gyfer llwyddiant, cadw a chynyddu presenoldeb o fewn y fforwm tai gwarchod.

1.12.11 **Cefnogaeth Grant**

Rydym wedi cefnogi clwb dydd Llun a dydd Mawrth Trem Eryri er mwyn sicrhau nawdd grant gan Pŵer Niwclear Horizon. Mae hyn wedi galluogi'r grŵp i ailwampio eu lolfaf, talu i rywun am lanhau'r lolfaf bob wythnos a chynnal diwrnod allan i denantiaid. Rydym hefyd wedi cefnogi grŵp arall yn Aberffraw gyda nawdd grant preifat a gobeithiwn y gallwn ddatblygu hyn ledled yr Ynys yn 2017-18 er mwyn sicrhau cysondeb a gwella gwytnwch cymunedol drwy grwpiau yn ymgeisio am nawdd grant eu hunain er mwyn gwella eu llesiant a mynediad i weithgareddau.

1.13 **Yr hyn y byddwn yn canolbwyntio arno yn 2017-18**

- Ail frandio MTOV er mwyn ailwampio'r grŵp ac annog unrhyw denantiaid newydd i fynychu, creu modelau newydd o ymgysylltu â thenantiaid a chymunedau er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol go iawn.
- Dechrau ymgysylltu ar a datblygu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2018-2021, mewn partneriaeth â thenantiaid, er mwyn sicrhau cysylltiadau strategol â Chynllun Busnes yr HRA a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Ail ddechrau'r bwletin tenantiaid chwarterol ar gyfer holl aelodau'r panel er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gweithgareddau a'r datblygiadau sydd ar y gweill a gofyn am eu hadborth yn barhaus.
- Cynnwys tenantiaid yn y gwaith o fynd i'r afael â gwahanol faterion a dod o hyd i atebion lleol i newidiadau sylweddol megis gweithrediad Credyd Cynhwysol.
- Cynyddu nifer y lolfeydd cymunedol sydd wedi'u trawsnewid yn hybiau cymunedol.
- Cael manylion am lolfeydd cymunedol na ddefnyddir ac na fydd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol. Bydd angen gwneud penderfyniad ar gynllun Gwasanaethau tai mewn perthynas â'r lolfeydd nad yw tenantiaid a / neu'r gymuned ehangach yn dymuno eu defnyddio fel hyb. Er enghraifft, trawsnewid y rhain i fod yn llety.
- Recriwtio Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid er mwyn sicrhau bod y cwota staffio o

fewn y swyddogaeth ar y lefel y cyllidebwyd ar ei chyfer.

1.14 Datblygu cynllun hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r panel er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o wahanol bethau. Un maes y tynnodd y panel MTOV sylw ato oedd hyfforddiant iechyd meddwl gan fod hon yn her gynyddol o fewn ein cymunedau.

1.15 Mae'r adroddiad hon wedi mynd drwy broses Pwyllgor Gwaith, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phwyllgor Sgriwtini Partneriaethau. Cymeradwywyd bob pwyllgor yr argymhellion o fewn yr adroddiad

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Amherthnasol

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol – mae'r gyllideb wedi'i gosod a'i chytuno arni. Dyrennir y gyllideb o'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA).

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn hynod o gefnogol o'r gwaith sydd yn gyrru ymlaen drwy'r Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid ac yn gefnogol o'r argymhellion Mae'r Prif Weithredwr yn pwysleisio'r angen i barhau efo partneriaeth dda a chryf efo Heddlu Gogledd Cymru er mwyn delio efo unrhyw broblemau gwrthgymdeithasol neu droseddol yn amserol
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Mae'r uned cyllid / adran 151 yn gefnogol o'r Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid ac yn gefnogol o'r argymhellion

3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae'r adran cyfreithio wedi derbyn a darllen yr adroddiad a dim adborth i'w gynnig
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyn yr adroddiad cynnydd ar gyfer 2016/2017 a diolch i'r swyddogion am eu gwaith. • Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i chwarae rhan weithredol mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a sicrhau bod gan yr holl denantiaid lais a rhan i'w chwarae mewn datblygiadau tai a chorfforaethol yn y dyfodol.
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	<p>Drwy'r strategaeth cyfranogi tenantiaid, mae'r economi lleol yn i elwa gan ein bod yn annog i denantiaid sydd o dan anfantais economaidd i godi a magu hyder i chwilio am waith neu hyfforddiant er mwyn gwella sgiliau</p> <p>Mae'r tenantiaid sydd yn ymroddi ei hamser o fewn y paneli cyfranogi tenantiaid yn uchafu ei sgiliau yn flynyddol</p>
2	Gwrthdodi	Mae'r strategaeth cyfranogi tenantiaid yn cefnogi ein trigolion i gael cyngor a chefnogaeth ar dlodi tanwydd. Hefyd, mae'r tîm cyfranogi tenantiaid yn allweddol i hyrwyddo'r newidiadau enfawr diwygio lles drwy godi ymwybyddiaeth ac uchafu sgiliau digidol, drwy bartneriaethau efo mudiadau hyfforddi ar yr Ynys
3	Trosedd ac Anhrefn	Mae'r strategaeth cyfranogi tenantiaid yn anog i denantiaid gymryd rhan yn ein fforwm gwaith gwrth-gymdeithasol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd targedau'r strategaeth yma a denu gwybodaeth lleol a chymunedol er mwyn ymyrraeth yn gynnar neu gynt.
4	Amgylcheddol	Mae'r gwaith bu'r tîm cyfranogi tenantiaid yn ei wneud yn annog i denantiaid gymryd fwy o gyfrifoldeb dros amgylched y stadau tai cyngor. Mi fydd y tîm yn trefnu llawer i ddiwrnodau glanhau

		<p>stadau, er mwyn helpu tenantiaid i glirio unrhyw sbwriel neu eitemau mawr er mwyn ei gyrru i'w ei sgrapio</p> <p>Mae tenantiaid yn cael ei annog i gwblhau cais am gyllid o werth hyd at £5,000 bob 2 flynedd er mwyn gwella'r elfennau amgylcheddol ar y stadau. Gall denantiaid brynu byrddau adar, adnoddau at randiroedd neu unrhyw adnodd arall sydd yn mynd i wella amgylchedd ei stadau.</p>
5	Cydraddoldebau	Mae'r elfen cyfranogi tenantiaid yn anog tenantiaid o bob cefndir i fod yn ran o'r paneli fel ein bod yn gallu uchafu sgiliau a deallt chefnidoredd gwahanol sydd yn byw ar yr Ynys.
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

DIM I'W GYHOEDDI /NOT FOR PUBLICATION

Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliannol (Melin Llynnon a Thai Crynion ger Llanddeusant)

Transforming the Cultural Service (Llynnon Mill and Round Houses near Llanddeusnat)

PRAWF BUDD Y CYHOEDD PUBLIC INTEREST TEST

Paragraff,14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Paragraph,14 Schedule 12A Local Government Act 1972	
Y PRAWF – THE TEST	
Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is: -</p> <p>Mae'r adroddiad prisiwr a gomisiynwyd gan y Cyngor yn datgan faint o incwm all y Cyngor ei dderbyn parthed gwerthu neu rentio'r ased allan. Buasai datgelu'r wybodaeth yma o bosib yn gwneud y Cyngor yn wan a/ neu'n agored i niwed wrth negodi gyda parti a diddordeb . Mi fydda cyhoeddi y wybodaeth yma yn arwain at adnabod trydydd partion ac yn gosod y cyngor dan anfantais mewn unrhyw drafodaethau masnachol ar y mater yn y dyfodol.</p> <p><i>The valuation report commissioned by the Council states the possible sale and rental vale of the asset. Disclosure of this information might possibly make the Council weak and / or vulnerable when negotiating with an interested party. Publishing this information will identify third parties and will place the Council and the public purse under a disadvantage in any future commercial negotiations.</i></p>
<p>Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth</p> <p>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank